Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

Food Standards Scotland
For safe food and healthy eating



# Ein Bwyd 2023

## Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU

HC 243
SG/2024/111

# Ein Bwyd 2023: Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU

Wedi'i osod gerbron Senedd Cymru yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 8 Hydref 2024.

Cyflwynwyd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Wedi'i osod gerbron Senedd yr Alban yn unol ag Adran 15(6) o Ddeddf Bwyd (Yr Alban) 2015.

Wedi'i osod gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

HC 243
SG/2024/111

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau fersiwn 3 Trwydded Llywodraeth Agored ac eithrio lle nodir yn wahanol.

I weld y drwydded hon, ewch i
nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy: www.gov.uk/official-documents

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

## Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd fsa.communications@food.gov.uk
X @fsacymru
Facebook facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd

## Yr Alban

Safonau Bwyd yr Alban enquiries@fss.scot
X @FSScot
Facebook facebook.com/FoodStandardsScotland

ISBN 978-1-5286-5004-5
E03134225 10/24

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi a chan APS Group Scotland ar ran Safonau Bwyd yr Alban

# Cynnwys

**Rhagair** . . . . . 2

**Crynodeb gweithredol** . . . . . 3

Cyflwyniad a chwmpas y gwaith . . . . . 3

Trosolwg manwl o bob pennod . . . . . 6

**Plât y genedl** . . . . . 16

Ymddygiadau defnyddwyr a safonau bwyd . . . . . 16

**Safbwynt byd-eang** . . . . . 31

Mewnforion bwyd . . . . . 31

**Pwysigrwydd hylendid** . . . . . 44

Safonau hylendid mewn sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid . . . . . 44

**Diogelwch a dilysrwydd** . . . . . 68

Digwyddiadau bwyd, troseddau bwyd a samplu gwyliadwriaeth . . . . . 68

Digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid . . . . . 70

Samplu gwyliadwriaeth bwyd . . . . . 79

Troseddau bwyd . . . . . 87

**Casgliadau** . . . . . 93

**Atodiadau** . . . . . 99

Atodiad 1: Cyfeiriadau penodau a nodiadau esboniadol . . . . . 100

Atodiad 2: Rhestr o dermau . . . . . 106

Atodiad 3: Tabl ffigurau . . . . . 109

Atodiad 4: Rhestr o acronymau . . . . . 114

Atodiad 5: Data Cenedl-Benodol . . . . . 116

**Diolchiadau** . . . . . 129

# Rhagair

## Croeso i Ein Bwyd 2023

**Roedd hi'n ddeng mlynedd y llynedd ers y digwyddiad cig ceffyl, sef digwyddiad a danseiliodd hyder defnyddwyr yn y gadwyn fwyd. Mae'r argyfwng cig ceffyl, a'r argyfwng BSE ugain mlynedd ynghynt, yn ein hatgoffa na allwn laesu dwylo o ran diogelwch bwyd a chynnal ffydd y cyhoedd yn ein bwyd.**

Er gwaethaf datblygiadau ym maes diogelu defnyddwyr yn y blynyddoedd ers hynny, mae cynnwrf allanol a phwysau ar y gadwyn gyflenwi yn golygu bod yn rhaid i ni barhau i fod yn wyliadwrus o risgiau posib. Mae busnesau bwyd yn wynebu costau uwch, ac mae defnyddwyr yn wynebu prisiau uwch. Mae'r risg i safonau bwyd yn hollbresennol.

Mae egwyddorion sylfaenol sefydliadau safonau bwyd y DU – gwneud penderfyniadau annibynnol, tryloyw, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ddiogelwch bwyd, wedi'u hysgogi gan ddiogelu iechyd y cyhoedd – yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith. Fel rheoleiddwyr, rydym yn gyfrifol am troedio llwybr sy'n diogelu iechyd y cyhoedd ac yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, gan osgoi rhoi pwysau gormodol ar y gadwyn cyflenwi bwyd. I wneud hynny, mae angen i ni ddefnyddio data i fonitro effeithiolrwydd ein systemau rheoli ac i nodi a lliniaru meysydd o risg sy'n weddill.

Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Rydym yn gwybod y byddwn yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r cyhoedd drwy weithio ar y cyd â llywodraeth genedlaethol, ryngwladol a lleol, ein darparwyr gwasanaethau a chyda busnesau bwyd. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn rhannu ein mewnwelediadau ar safonau bwyd yn y DU fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddarparu bwyd y gallwn ymddiried ynddo.





**Yr Athro Susan Jebb**
Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd





**Heather Kelman**
Cadeirydd Safonau Bwyd yr Alban

# Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad a chwmpas y gwaith

### Cipolwg

Mae trydydd adolygiad blynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) o safonau bwyd ledled y DU yn dadansoddi ystod o ddata i asesu a yw safonau bwyd wedi gwella, wedi dirywio neu wedi aros yr un peth dros y flwyddyn ddiwethaf. Wrth wneud hynny, rydym yn adolygu tystiolaeth ar ddiogelwch bwyd yn ogystal â dilysrwydd bwyd a phryderon ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Mae ein hadroddiad yn dwyn ynghyd dystiolaeth gan awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd, adrannau'r llywodraeth a rhaglenni samplu a gwyliadwriaeth yr ASB ac FSS eu hunain. Rydym yn archwilio'r data hwn o safbwynt y DU gyfan, yn ogystal â darparu dadansoddiad manylach ar lefel y pedair gwlad lle mae hynny'n briodol ac yn bosib.

Mae'r ASB ac FSS yn gweithredu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac yn gweithio gyda busnesau bwyd i gynnal safonau bwyd a gweithredu ar risgiau sy'n dod i'r amlwg gyda system sy'n cynnwys 'tair llinell amddiffyn'.



# Deall y tair llinell amddiffyn

Mae'r diwydiant bwyd, awdurdodau lleol a'r rheoleiddwyr cenedlaethol i gyd yn chwarae rhan benodol yn y gwaith o gynnal diogelwch a dilysrwydd bwyd ar draws y gadwyn gyflenwi, fel a ganlyn:

1. **Busnesau bwyd** sy'n gyfreithiol gyfrifol am sicrhau bod eu bwyd yn ddiogel ac yn ddilys. Gwnânt hyn trwy gynlluniau diogelwch bwyd sy'n dibynnu ar gymhwyso mesurau ataliol. Maent yn archwilio ac yn profi cynhyrchion ar wahanol gamau yn y gadwyn gyflenwi i wirio diogelwch a dilysrwydd y cynhwysion a ddefnyddir, gan sicrhau bod cynhyrchion yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau perthnasol.

2. Mae **awdurdodau lleol** yn gorfodi rheoliadau diogelwch a safonau bwyd, gan gynnwys rheolau ar hylendid bwyd a labelu bwyd, fel labelu alergenau neu wlad tarddiad. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau sy'n amrywio o arolygiadau i raglenni samplu targededig. Mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda busnesau i nodi problemau a mynd i'r afael â nhw neu maent yn cymryd y camau gorfodi priodol.

3. Mae'r **rheoleiddwyr bwyd cenedlaethol** yn cynnal rheolaethau uniongyrchol ym maes cynhyrchu cig, llaeth amrwd a gwin. Rydym yn darparu cefnogaeth wrth gefn ar gyfer dulliau diogelu, gan gynnwys trwy ein hunedau troseddau bwyd, gwaith monitro ac archwilio awdurdodau lleol, a rhaglenni samplu gwyliadwriaeth cydgysylltiedig.



Yn debyg i adroddiad y llynedd, mae ein dadansoddiad yn edrych ar y materion hyn yn y ffyrdd canlynol:

1. **Archwilio effaith yr amgylchedd economaidd ar ddefnyddwyr.** Mae hyn yn cynnwys olrhain effaith barhaus pwysau costau byw ar ddewisiadau pobl a'u gallu i gael deiet iach a diogel (gweler Pennod 1).

2. **Archwilio newidiadau mewn patrymau mewnforio a diogelwch bwyd a fewnforir.** Mae hyn yn cynnwys monitro newidiadau mewn patrymau masnachu rhyngwladol ac adolygu data ar ddiogelwch y bwyd rydym yn ei fewnforio (gweler Pennod 2).

3. **Adolygu'r dirwedd bresennol mewn perthynas â chydymffurfiaeth busnesau.** Mae hyn yn archwilio sut mae safonau hylendid bwyd wedi'u cynnal ar draws ystod o sefydliadau ac a oes digon o adnoddau i gynnal safonau (gweler Pennod 3).

4. **Ystyried diogelwch a dilysrwydd ein bwyd.** Mae hyn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir o hysbysiadau digwyddiadau bwyd yr ASB ac FSS, yr arolygon diogelwch a dilysrwydd bwyd cenedlaethol a gynhaliwyd dros y cyfnod hwn, a gwaith ein dwy uned genedlaethol troseddau bwyd (gweler Pennod 4).

# Trosolwg manwl o bob pennod

**Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys pedair pennod, ac mae pob un ohonynt yn canolbwyntio ar agwedd wahanol ar system fwyd y DU yn 2023. Rydym wedi crynhoi'r prif bwyntiau o bob pennod isod.**

## Plât y genedl

Mae ein pennod gyntaf yn monitro effaith chwyddiant bwyd a phwysau costau byw ar ddiogeledd bwyd cartrefi ac ymddygiadau defnyddwyr yn 2023. Rydym yn edrych ar raddfa'r cynnydd mewn prisiau ar draws gwahanol gategorïau bwyd ac yn asesu'r effaith y mae hyn yn ei chael ar berthynas pobl â bwyd.

1. Cododd cyfran y cartrefi yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a nododd fod ganddynt ddiffyg diogeledd bwyd i 25% yn 2023. Dyma'r gyfradd uchaf ers i'r ASB ddechrau casglu'r data hwn yn 2020. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod tua 2.5 miliwn yn fwy o oedolion ar draws y gwledydd hyn â diffyg diogeledd bwyd ers 2022. Er nad oes data cyfatebol uniongyrchol ar gael ar gyfer yr Alban, mae ymchwil FSS yn dangos bod dros un rhan o bump (22%) o'r bobl a holwyd (229 o 1,039 o'r ymatebwyr) wedi dweud nad oeddent yn gallu fforddio siopa am fwyd hanfodol yn ystod y mis diwethaf, a dywedodd 44% eu bod wedi poeni am allu fforddio bwyd yn y 12 mis diwethaf yn ystod 2023.

2. Mae ymchwil gan yr ASB ac FSS yn dangos bod o leiaf 12% o bobl yn parhau i gymryd risgiau mewn perthynas â storio, paratoi a choginio bwyd er mwyn ceisio arbed arian bob mis, gan gynyddu'r posibilrwydd y byddant yn mynd yn sâl. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw gysylltiadau clir eto rhwng yr ymddygiadau peryglus hyn a nifer yr achosion o glefydau a gludir gan fwyd yr adroddwyd amdanynt.

3. Arhosodd chwyddiant prisiau bwyd yn uchel drwy gydol 2023, gan gyrraedd uchafbwynt o 19.8% ym mis Mawrth, ac arhosodd yn sylweddol uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant bob mis o'r flwyddyn. Gwelodd bron pob categori bwyd yn y Canllaw Bwyta'n Dda gynnydd uwch mewn prisiau flwyddyn ar ôl blwyddyn o gymharu â 2022.

4. Roedd prisiau bwyd yn parhau i fod yn destun pryder cyffredinol drwy gydol y flwyddyn, yn union fel 2022. Fodd bynnag, dangosodd ymchwil yr ASB ac FSS hefyd fod defnyddwyr wedi nodi lefelau uchel o bryder yn ymwneud â materion diogelwch bwyd, ansawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol. Dywedodd y mwyafrif o bobl (o leiaf 53%) yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon eu bod wedi gwneud o leiaf un newid er mwyn rheoli costau cynyddol, gan gynnwys defnyddio dulliau coginio rhatach, dewis eitemau rhatach yn lle nwyddau brand, neu brynu llai o fwyd neu am bris gostyngol.

5. Mae tystiolaeth bod y pwysau ariannol parhaus ar gartrefi yn cyfyngu ar allu pobl i fwyta'n iach. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, dywedodd o leiaf un o bob deg (10%) o'r ymatebwyr nad oeddent yn gallu fforddio deiet cytbwys ac iach rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2023. Dywedodd tua'r un gyfran eu bod yn lleihau maint eu prydau neu wedi hepgor prydau bwyd er mwyn arbed arian. Yn yr un modd, yn yr Alban, dywedodd dros chwarter (28%) yr ymatebwyr eu bod wedi hepgor prydau bwyd neu leihau maint eu prydau, a dywedodd ychydig yn fwy (29%) na allent fforddio bwyta deiet iach a chytbwys.

## Safbwynt byd-eang

Mae'r bennod hon yn archwilio sut y datblygodd llif mewnforion bwyd yn ystod 2023. Mae hefyd yn adolygu'r data sydd ar gael wrth wirio llwythi ar gyfer bwydydd a fewnforir o'r tu allan i'r UE yn 2023 a'r newidiadau diweddaraf yn y ffordd rydym yn dynodi bwydydd risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid (HRFNAO).

1. Mae'r data masnach diweddaraf yn dangos bod gostyngiad o 2.1% flwyddyn ar ôl blwyddyn yng nghyfaint mewnforion bwyd yn ystod 2023, er bod y gostyngiad hwn yn parhau i fod yn unol ag amrywiadau hanesyddol. Mae bwyd a bwyd anifeiliaid o wledydd yr UE yn parhau i gyfrif am oddeutu 60% o gyfanswm ein mewnforion bwyd, sef cyfran sydd wedi aros yn weddol sefydlog ers ymadawiad y DU â'r UE.

2. Hyd nes y bydd newidiadau i reolaethau mewnforio yn sgil y Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau (BTOM) yn dechrau dod i rym yn 2024, mae ein dadansoddiad o ddiogelwch mewnforion yn parhau i gael ei gyfyngu i fwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir o'r tu allan i'r UE, a hynny oherwydd diffyg data sydd ar gael ar gyfer nwyddau'r UE. Ar draws y mewnforion hyn, mae mwyafrif helaeth y llwythi'n cydymffurfio â'r holl wiriadau perthnasol, sy'n awgrymu na fu unrhyw newid yn safonau diogelwch bwyd nad yw'n dod o'r UE a welwyd ar y ffin.

3. Argymhellodd yr ASB ac FSS y dylid ychwanegu 20 o nwyddau newydd at y rhestr ddynodedig o HRFNAO oherwydd risgiau diogelwch cynyddol yn dilyn adolygiad yn 2023. Roedd yr adolygiad hwn yn archwilio risgiau fel halogiad â metelau trwm, plaladdwyr, tocsinau sy'n digwydd yn naturiol a microbau niweidiol. Roedd hyn yn cynnwys presenoldeb posib afflatocsinau mewn sbeisys a ffrwythau egsotig a fewnforir o rannau o Dde America, De Asia a'r Dwyrain Canol a'r risg o Listeria mewn madarch Enoki o Tsieina a De Korea. Mae tri nwydd bellach yn destun lefelau uwch o reolaethau. Tynnwyd dau nwydd oddi ar y rhestr, ac mae llai o wiriadau'n cael eu cynnal ar bedwar nwydd arall lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod y risg wedi lleihau.

4. Yn olaf, llofnododd y DU y Protocol Derbyn i ymuno â grŵp masnach Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP) yn 2023. Mae'r ASB ac FSS wedi rhoi cyngor i lywodraeth y DU o dan Adran 42 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020. Roedd y cyngor yn penderfynu, ar ôl ymuno â chytundeb masnach CPTPP, y bydd y DU yn cadw ei gallu i gynnal amddiffyniadau statudol diogelwch bwyd a maeth ar gyfer defnyddwyr. Roedd hefyd yn pennu na fydd gweithredu'r Cytundeb Masnach Rydd hwn yn gofyn am unrhyw ddeddfwriaeth diogelwch bwyd a maeth newydd yn y DU.

# Pwysigrwydd hylendid

Mae’r bennod hon yn darparu ein dadansoddiad o’r data diweddaraf ynghylch cydymffurfio â rheoliadau hylendid sy’n cwmpasu bwytai, caffis a busnesau bwyd eraill, yn ogystal â sefydliadau cig, llaeth a bwyd anifeiliaid. Rydym hefyd yn edrych yn fanwl ar y problemau capasiti sy’n wynebu’r awdurdodau sy’n gyfrifol am wirio safonau diogelwch bwyd ar draws y gadwyn fwyd, gan ganolbwyntio’n benodol ar yr heriau y mae timau diogelwch a safonau bwyd mewn awdurdodau lleol yn eu hwynebu a’r cyflenwad o filfeddygon swyddogol ac archwilwyr hylendid cig, sy’n chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod lladd-dai’r DU yn gweithredu’n ddiogel ac yn gyfreithlon.

1. Yn seiliedig ar y data arolygu diweddaraf a oedd ar gael ar 31 Rhagfyr 2023, mae data o’r ddau gynllun sgorio hylendid bwyd cenedlaethol – y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a’r Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd (FHIS) yn yr Alban – yn dangos bod cyfran y busnesau bwyd sydd â safonau hylendid boddhaol neu well wedi aros yn sefydlog ac yn uchel. Llwyddodd ychydig dros dri chwarter (76.1%) o fusnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gael y sgôr uchaf o 5 ar gyfer hylendid, tra bod 3.1% o sefydliadau bwyd wedi ennill sgôr o 2 neu is, sy’n golygu bod angen iddynt wella. Yn yr Alban, roedd y gyfradd lwyddo ymhlith busnesau yn 92.7% ar gyfer y FHIS.

2. Mae nifer y sgoriau a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi sefydlogi ar ôl codi i’r lefelau a welwyd cyn y pandemig yn ystod 2022. Fodd bynnag, nid yw’r niferoedd wedi bod yn ddigon i ddal i fyny â’r nifer mawr o arolygiadau hwyr yn sgil y pandemig. Roedd y data diweddaraf o ail hanner y flwyddyn ariannol (hyd at fis Ebrill 2024), yn dangos bod 51.9% o arolygiadau wedi’u cynnal ar amser, felly roedd 101,000 o fusnesau ag arolygiadau’n hwyr. Roedd mwyafrif yr arolygiadau hwyr hyn yn cynnwys busnesau risg is, gyda 98% o arolygiadau o fusnesau risg uwch yn cael eu cynnal ar amser. Ceir hefyd ôl-groniad o fusnesau newydd sy’n aros am arolygiad. Ym mis Medi 2023, roedd 39,000 o fusnesau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn aros am eu harolygiad cyntaf drwy’r CSHB – dros ddwywaith cymaint ag oedd cyn y pandemig. Yn yr Alban, ymwelwyd â llai nag un o bob pump (18%) o fusnesau bwyd yn 2023 ac roedd bron i un o bob pump (19.3%) o’r 73,987 o fusnesau bwyd sydd wedi’u cofrestru yn aros am eu harolygiad cyntaf. Roedd 36% o arolygiadau’n hwyr.

3. Mae'r data sydd ar gael ar gydymffurfiaeth hylendid ar draws sefydliadau cig, sefydliadau llaeth a sefydliadau bwyd anifeiliaid yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth yn parhau i weithredu'n ddiogel, er y gwelwyd gostyngiad yng nghanran y busnesau bwyd anifeiliaid yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n cael sgôr foddhaol neu well yn 2022/23 o gymharu â 2021/22.

4. Mae adnoddau awdurdodau lleol yn parhau i fod yn faes pryder allweddol. Mae dadansoddiad yr ASB o'r data gweithlu diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod nifer y swyddi wedi'u dyrannu ym maes diogelwch bwyd a gefnogir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi sefydlogi y llynedd ar ôl codi yn sgil y pandemig. Mae lefel bresennol yr adnoddau yn parhau i fod gryn dipyn yn is nag ydoedd ddegawd yn ôl, gyda 9.1% yn llai o swyddogion hylendid bwyd a 32.5% yn llai o swyddogion safonau bwyd ym mis Hydref 2023 o gymharu â 2012/13. Bu cynnydd o 5.7% yn nifer y busnesau yn y degawd diwethaf. Fel y dangosodd *Ein Bwyd 2022*, mae'r Alban wedi gweld gostyngiad hirdymor tebyg mewn adnoddau cyfraith bwyd, gyda nifer y swyddi cyfraith bwyd wedi'u llenwi yn gostwng 25.5% rhwng 2016/17 a 2021/22.

5. Mae prinder gweithwyr milfeddygol proffesiynol ledled y DU yn parhau i gyfyngu ar nifer y milfeddygon swyddogol sydd ar gael i oruchwylio'r gwaith o gynnal rheolaethau diogelwch bwyd hanfodol a gofynion lles anifeiliaid mewn sefydliadau cig. Mae'r ASB ac FSS wedi rhoi mesurau dros dro ar waith i gynnal y gwasanaethau a ddarperir yn ystod 2023, gan gynnwys cofrestru milfeddygon o dramor dros dro. Mae llwybrau recriwtio amgen hefyd yn cael eu datblygu er mwyn galluogi milfeddygon tramor o brifysgolion achrededig i gynnal rheolaethau swyddogol ar gig wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith a dod yn filfeddygon swyddogol cymwys. Mae'r ASB ac FSS wedi ymgysylltu â swyddogion llywodraeth y DU i ddeall sut y mae'r trothwyon cyflog newydd o ran bod yn gymwys am fisa, a ddaeth i rym o fis Ebrill 2024, yn effeithio ar y trefniadau hyn. Mae'r ASB ac FSS wedi tynnu sylw Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Senedd y DU at bryderon ynghylch adnoddau milfeddygol.[1]

# Diogelwch a dilysrwydd

Mae'r bennod olaf yn dwyn ynghyd y data a'r wybodaeth sydd ar gael ar ddiogelwch a dilysrwydd bwyd sydd ar werth yn y DU. Mae'n cynnwys dadansoddiad o ddata digwyddiadau bwyd, yr arolygon samplu bwyd cenedlaethol a gynhelir gan yr ASB ac FSS, a'r ymchwiliadau troseddol a gweithgareddau eraill a gynhelir gan ein dwy uned troseddau bwyd genedlaethol. Rydym hefyd yn adolygu'r gostyngiad mewn gweithgarwch samplu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

1. Mae dadansoddiad o ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid yn awgrymu ychydig, neu ddim newid arwyddocaol, yn nifer y digwyddiadau yn 2023. Er y bu gostyngiad o 26% yn nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt dros y pum mlynedd diwethaf, mae hyn o ganlyniad i newidiadau i'r ffordd y caiff digwyddiadau eu rheoli – tra bod y gostyngiad llai yn nifer y digwyddiadau yn 2023 o gymharu â 2022 o ganyniad i'r gostyngiad mewn digwyddiadau ffliw adar. Cig a chynhyrchion cig yw'r categori a gysylltir amlaf â digwyddiadau bwyd a micro-organebau pathogenig yw'r achos mwyaf cyffredin o hyd.

2. Mae rhaglenni samplu cenedlaethol priodol yr ASB ac FSS wedi parhau i fonitro a thynnu sylw at nifer o faterion diogelwch a dilysrwydd. Yn arbennig, gwnaeth gwaith samplu targededig nodi alergenau heb eu datgan mewn bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS). Mae hyn yn tanlinellu'r angen am gymorth targededig parhaus i helpu'r busnesau hyn i gydymffurfio â Chyfraith Natasha, a gyflwynwyd ym mis Hydref 2021. Roedd achosion eraill o dorri'r rheolau, a nodwyd yng ngwaith samplu FSS, yn cynnwys lefelau anghywir o Omega-3 mewn atchwanegiadau olew pysgod a lefelau alcohol heb eu datgan mewn kombucha. Yn y cyfamser, canfu rhaglen samplu'r ASB faterion dilysrwydd mewn ystod o gynhyrchion gan gynnwys pasta gwenith caled. Fodd bynnag, canfuwyd lefelau uwch o gydymffurfiaeth mewn perthynas â bara, olew olewydd a selsig a brofwyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

3. Roedd gwaith samplu a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol bron wedi dychwelyd i'r lefelau hynny a welwyd cyn y pandemig yn ystod 2023, ond mae'n parhau i fod yn is na degawd yn ôl. Gallai'r gostyngiad hwn mewn gweithgarwch samplu beri risg i iechyd y cyhoedd a hyder defnyddwyr oherwydd na chaiff risgiau diogelwch a dilysrwydd bwyd eu nodi. Gallai hyfywedd hirdymor Labordai Swyddogol fod mewn perygl hefyd.


4. Mae unedau cenedlaethol troseddau bwyd yr ASB ac FSS yn parhau i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau i darfu ar droseddoldeb neu ei hatal, yn ogystal ag ymchwilio ac erlyn yn yr achosion mwyaf difrifol. Mae'r asesiad strategol diweddaraf yn amlinellu'r risgiau a achosir gan y lleihad yn adnoddau awdurdodau lleol, tarfu ar y gadwyn gyflenwi fyd-eang a newidiadau i drefniadau rheoli ffiniau, a allai gynyddu'r tebygolrwydd o droseddau bwyd yn y blynyddoedd i ddod. Adlewyrchir y prif feysydd risg a nodir yn yr asesiad strategol troseddau bwyd yn strategaethau rheoli priodol yr unedau ar gyfer 2023. Ar y cyfan, nid oes unrhyw dystiolaeth yn yr wybodaeth sydd ar gael i awgrymu bod lefel y troseddau bwyd wedi newid yn 2023.

# Gosod adroddiad eleni yn ei gyd-destun

Roedd y prif ffactorau a ddylanwadodd ar ein system fwyd yn 2022 yn dal i fod yn amlwg yn 2023. Roedd yr argyfwng costau byw yn dal i effeithio ar gyllid pobl. Roedd defnyddwyr yn wynebu cynnydd pellach ym mhrisiau bwyd, a oedd yn cyfyngu ar y cyllidebau oedd ar gael i bobl ar gyfer bwyd ac yn amharu ar safon byw pobl.

Mae data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn dangos bod prisiau bwyd yn y DU wedi codi 14.7% ar gyfartaledd yn ystod 2023, sef cyfradd uwch o gynnydd na'r hyn a welwyd yn 2022 pan oedd chwyddiant bwyd yn 11.1% ar gyfartaledd. Er i'r gyfradd chwyddiant o ran trafnidiaeth bersonol, ynni'r cartref ac yswiriant cynnwys y cartref i gyd ddisgyn yn sydyn o gymharu â 2022, roedd cyfradd twf prisiau bwyd hyd at ddwywaith yn uwch na chwyddiant cyffredinol drwy gydol y flwyddyn (Ffigur 1). Mae'n bosib bod hyn yn effeithio ar ddewisiadau ac ymddygiad pobl mewn perthynas â bwyd.

**Ffigur 1: Cyfraddau chwyddiant bwyd o gymharu â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr cyffredinol, gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH) 2023**




Ffynhonnell: SYG – Tablau chwyddiant prisiau defnyddwyr

Roedd pwysau cost ar fusnesau bwyd hefyd yn parhau i fod yn uchel. Yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin, roedd ansicrwydd parhaus ynghylch diogelwch ynni a arweiniodd at gynnydd pellach ym mhrisiau trydan a thanwydd yn 2023. Effeithiodd prinder llafur hefyd ar y gweithlu amaethyddol, gyda 3.2% yn llai o bobl yn gweithio mewn rolau amaethyddol yn y DU o gymharu â 2018. Er y bu rhai gostyngiadau ym mhris cyfartalog costau cynhyrchu eraill yn 2023, fel gwrtaith a diesel coch a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth, roedd y cynhyrchion hyn yn parhau i fod yn llawer drutach na sawl blwyddyn yn ôl. Mae'r cynnydd hyn yn y costau i gynhyrchwyr yn cael eu hadlewyrchu yng nghost derfynol y cynhyrchion i ddefnyddwyr.

Yn y cyfamser, parhaodd tywydd garw i greu heriau ledled y byd. Yn 2023, dechreuodd y tymor tyfu yn hwyr yn y DU, gan olygu bod cnydau wedi'u plannu'n hwyrach nag arfer, ac felly eu cynaeafu'n hwyrach. Yn Ewrop, arweiniodd tywydd eithafol at brinder nwyddau ffres. O ganlyniad, bu rhai archfarchnadoedd yn cyfyngu ar faint o gynnyrch ffres y gallai pobl ei brynu yn gynnar yn 2023. Bu llifogydd mawr hefyd mewn rhannau o Dde Asia a sychder yng Ngogledd America, a gyfrannodd at gynaeafau gwael.

Thema fawr arall sy'n codi dro ar ôl tro yw'r pwysau cynyddol ar system rheolaethau hylendid a diogelwch y DU. Mae'r heriau ariannol a phrinder sgiliau (rhai o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol) a wynebir gan awdurdodau lleol yn effeithio ar y gallu i gyflawni gofynion diogelwch a safonau bwyd, ac mae'n bosib y bydd hyn yn parhau. Mae awdurdodau lleol bellach yn adrodd am ôl-groniad mawr yn y system arolygu busnesau bwyd yn 2023, ac mae heriau recriwtio wedi'i gwneud yn anoddach i'r ASB ac FSS gynnal cyflenwad o filfeddygon swyddogol, sy'n chwarae rôl hanfodol yng ngweithrediad y gadwyn cyflenwi cig.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn ymdrin â blwyddyn lle gwelwyd datblygiadau pwysig yn y ffordd yr ydym yn masnachu. Roedd y BTOM terfynol a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023 yn nodi'r rheolaethau diogelwch bwyd a bioddiogelwch newydd a fyddai'n gymwys i fwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir i Brydain Fawr o 2024 ymlaen. Arweiniodd Fframwaith Windsor at drefniadau unigryw i gefnogi llif cynnyrch manwerthu bwyd-amaeth o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon o fis Hydref 2023, yn ogystal â sicrhau bod busnesau yng Ngogledd Iwerddon yn parhau i elwa ar fynediad dirwystr i weddill marchnad fewnol y DU.

# Pa ffactorau a gyfrannodd at chwyddiant bwyd yn 2023?

Mae chwyddiant yn cael ei achosi gan amrywiaeth o ffactorau cymhleth sy'n cydblethu, ac yn y system fwyd mae'n cymryd amser, hyd at flwyddyn yn aml,[2] i ddefnyddwyr deimlo'r effeithiau hyn. Dyma rai o'r ffactorau a ddylanwadodd ar brisiau yn 2023;[3]

**Costau ynni**

Bu gostyngiad yn y cyflenwad nwy Ewropeaidd yn dilyn goresgyniad Rwsia o Wcráin a chreodd hyn ansicrwydd ynghylch diogelwch ynni, gan ysgogi cynnydd pellach ym mhrisiau trydan a thanwydd yn 2023.[4] Roedd chwyddiant prisiau ynni blynyddol y DU ym mis Mawrth 2023 tua 40.5%, wedi'i achosi'n bennaf gan brisiau nwy. Cynyddodd y codiadau hyn gostau gweithredu busnesau bwyd a ffermydd, gan arwain at gynyddu prisiau bwyd i ddefnyddwyr.

**Prinder llafur**

Yn y DU, gwelwyd gostyngiad o 1.7% yn y gweithlu amaethyddol yn 2023 o gymharu â 2022. Mae hyn yn rhan o ddirywiad tymor hwy, gyda 3.2% yn llai o bobl yn gweithio mewn rolau amaethyddol yn y DU yn 2023 o gymharu â 2018.[5] Yn ôl arolwg a gynhaliwyd gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), roedd 41% o'r ymatebwyr yn cynhyrchu llai o fwyd oherwydd prinder llafur.[6]

**Tywydd**

Gall y tywydd, yn enwedig tywydd eithafol, arwain at leihad sylweddol mewn argaeledd cynnyrch domestig a bwydydd wedi'u mewnforio. Yn 2023, dechreuodd y tymor tyfu yn hwyrach yn y DU, ac roedd y tymheredd hyd at 7°C yn oerach na'r cyfartaledd dyddiol yn hanner cyntaf mis.[7] Bu'n rhaid plannu cnydau yn hwyrach nag arfer ac felly cawsant eu cynaeafu'n hwyrach hefyd. Yn Ewrop, arweiniodd tywydd eithafol at brinder nwyddau ffres. O ganlyniad, bu rhai archfarchnadoedd yn cyfyngu ar faint o gynnyrch ffres y gallai pobl ei brynu yn gynnar yn 2023.[8]

**Costau cynhyrchu eraill**

Er bod rhai costau mewnbynnu wedi gostwng, ni wnaeth hyn arwain at leihau costau cynhyrchu cyffredinol yn 2023. Bu rhai gostyngiadau ym mhris cyfartalog costau cynhyrchu eraill, fel gwrtaith a diesel coch a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth, ond roedd y cynhyrchion hyn yn parhau i fod yn llawer drutach nag yr oeddent sawl blwyddyn yn ôl.[9],[10] Bu gostyngiadau cyffredinol ym mhrisiau nwyddau allweddol eraill gan gynnwys cnydau olew a grawn yn ystod 2023.[11] Mae'r costau mewnbynnu is hyn yn gweithio'n araf drwy'r system fwyd ac wedi cyfrannu at leihau'r cyfraddau chwyddiant bwyd a welwyd ddiwedd 2023.

Gall costau cynhyrchu cynyddol gael effaith andwyol ar safonau bwyd a diogelwch bwyd. Gall pwysau cost gynyddu'r tebygolrwydd o broblemau diogelwch a dilysrwydd a gweithgarwch troseddol yn y gadwyn fwyd. Os bydd ddefnyddwyr yn cael anawsterau o ran fforddiadwyedd bwyd, mae'n bosib y bydd prisiau uwch yn gwneud iddynt gymryd mwy o risgiau, gan effeithio ar eu gallu i fwyta deiet iach neu hyd yn oed yn amharu ar eu gallu i gael mynediad at ddigon o fwyd.

# Plât y genedl

## Ymddygiadau defnyddwyr a safonau bwyd

### Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y canlynol:**

- effaith chwyddiant ar fforddiadwyedd bwyd
- sut mae pwysau costau byw yn effeithio ar ymddygiad a dewisiadau defnyddwyr
- datblygiadau eraill o ran agweddau'r cyhoedd at fwyd a diogelwch bwyd

# Cyflwyniad

**Yn y blynyddoedd diwethaf, un o'r prif heriau i ddefnyddwyr fu fforddiadwyedd bwyd. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad y llynedd, mae cynnydd parhaus mewn prisiau bwyd, ynghyd â phwysau chwyddiant eraill, wedi rhoi straen ar gyllidebau cartrefi. Yn ystod misoedd cynnar 2023, bu cynnydd pellach mewn chwyddiant bwyd, gan gyrraedd uchafbwynt o 19.8% ym mis Mawrth, sef y gyfradd uchaf mewn 45 mlynedd.[12] Hyd yn oed ym mis Rhagfyr 2023, pan oedd chwyddiant bwyd wedi gostwng i'w lefel isaf ers mis Ebrill 2022, mae data o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPIH)[13] yn dangos bod prisiau bwyd yn dal i godi ar bron ddwywaith y gyfradd chwyddiant gyffredinol.**

I'r defnyddiwr, roedd hyn yn golygu bod biliau bwyd yn parhau i godi, a bod bwyd yn ddrutach o'i gymharu ag incwm a chostau eraill, drwy gydol 2023. O'r oherwydd, dywedodd pobl eu bod yn gorfod gwneud dewisiadau anodd am eu bwyd. Nid oes gennym y data i ddangos sut yr effeithiodd y dewisiadau hyn ar gymeriant maethol yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, rydym yn gallu archwilio cyd-destun yr amgylchedd economaidd a gweld faint o'r tueddiadau a nodwyd yn adroddiad y llynedd sydd wedi parhau, neu wedi dwysáu, yn ystod 2023.

## Diffyg diogeledd bwyd

O ganlyniad i'r amgylchedd economaidd heriol, mae mwy o gartrefi'n profi **diffyg diogeledd bwyd** – hynny yw, lle mae pobl wedi lleihau faint o fwyd y maent yn ei fwyta, neu hyd yn oed wedi hepgor prydau yn rheolaidd oherwydd eu hamgylchiadau ariannol neu bersonol.

### Sut rydym yn mesur diffyg diogeledd bwyd


Mae arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB yn defnyddio dull Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau (USDA), a gydnabyddir yn fyd-eang[14],[15] i fesur diogeledd bwyd oedolion, fel a ganlyn:

- Mae **diogeledd bwyd uchel** yn golygu nad oes unrhyw arwyddion o broblemau neu gyfyngiadau o ran cael mynediad at fwyd.
- Mae **diogeledd bwyd ymylol** yn golygu bod un neu ddau o arwyddion wedi'u nodi – fel arfer pryder o ran a oes digon o fwyd neu brinder bwyd yn y tŷ, ac ychydig iawn o newidiadau, os o gwbl, i ddeiet neu gymeriant bwyd.
- Mae **diogeledd bwyd isel** yn golygu bod adroddiadau bod ansawdd, amrywiaeth neu ddymunoldeb y deiet wedi gostwng, ond ychydig iawn o arwydd, os o gwbl, fod pobl yn lleihau faint o fwyd y maent yn ei fwyta.
- Mae **diogeledd bwyd isel iawn** yn golygu bod adroddiadau o fwy nag un arwydd o darfu ar batrymau bwyta a llai o fwyd yn cael ei fwyta.

Fel rhan o arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023, nodwyd bod un o bob pedwar (25%) o'r ymatebwyr ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn profi diffyg diogeledd bwyd (isel neu isel iawn), tra bod tua un o bob wyth (13%) yn cael eu dosbarthu fel rhai â diogeledd bwyd isel iawn. Mae Ffigur 2 yn dangos diffyg diogeledd bwyd fesul cenedl. Mae'r data hwn yn dangos bod diffyg diogeledd bwyd yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mhob un ond un o'r arolygon a gynhaliwyd ers mis Hydref 2020.

Erbyn mis Gorffennaf 2023, roedd tri o bob deg o'r ymatebwyr (30%) yng Nghymru wedi'u dosbarthu fel rhai â diffyg diogeledd bwyd, o gymharu â 26% yng Ngogledd Iwerddon a 25% yn Lloegr. Nid yw'n glir pam mae lefelau yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Ffigur 2: Diffyg diogeledd bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Gorffennaf 2023[16]**





Ffynhonnell: ASB – Arolwg Bwyd a Chi 2, Cylchoedd 1-7 (Gorff 20 - Gorff 23)

Mae'r cyfraddau hyn yn dangos cynnydd o gymharu ag adroddiad y llynedd lle'r oedd y ffigurau cyfatebol o arolwg Bwyd a Chi 2, a gasglwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2022, yn nodi bod 20% o'r ymatebwyr â diffyg diogeledd bwyd. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y gallai tua 2.5 miliwn yn fwy o oedolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon fod â diffyg diogeledd bwyd ers 2022.[17] Fel y dangosir yn ffigur 3, canfuwyd bod rhai grwpiau demograffig yn fwy agored i ddiffyg diogeledd bwyd nag eraill. Dangoswyd mai'r gwahaniaethau mwyaf oedd ymatebwyr diwaith yn yr hirdymor, a oedd 3.5 gwaith yn fwy tebygol o gael eu dosbarthu fel rhai â diffyg diogeledd bwyd na'r ymatebwyr hynny mewn galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol. Yn ogystal, roedd ymatebwyr 16-24 oed 2.9 gwaith yn fwy tebygol o gael eu dosbarthu fel rhai â diffyg diogeledd bwyd na'r ymatebwyr 65-74 oed.


**Ffigur 3: Pa grwpiau sydd fwyaf agored i ddiffyg diogeledd bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon?**




Mae **pobl ddi-waith yn yr hirdymor 3.5 gwaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na'r rheiny mewn **galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol.**




Mae **pobl ifanc 16-24 oed 2.9 gwaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na **phobl 65-74 oed.**




Mae **pobl â chyflwr iechyd hirdymor ddwywaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na'r rheiny **heb gyflwr iechyd hirdymor**.




Mae **cartrefi o bump neu fwy 1.9 gwaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na **chartrefi dau berson.**




Mae **pobl sydd â sawl gorsensitifrwydd i fwyd 1.3 gwaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na'r rheiny **heb unrhyw orsensitifrwydd.**





Mae **cartrefi â phlant o dan 16 oed 1.6 gwaith** yn fwy tebygol o fod â diffyg diogeledd bwyd na'r rheiny **heb blant dan 16 oed.**

Ffynhonnell: ASB – Bwyd a Chi 2, Cylch 7 (Ebr-Gorff 23)

Yn ogystal, yn ôl arolwg Bwyd a Chi 2, dywedodd tua 4% o'r ymatebwyr eu bod wedi dechrau defnyddio banc bwyd neu ddarparwr bwyd brys yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 3% ers arolwg Bwyd a Chi 2 yn yr un cyfnod yn 2022.

Er nad oes unrhyw ddata y gallwn ni ei gymharu ar ddiffyg diogeledd bwyd wedi'i gasglu ar gyfer yr Alban, canfu Arolwg Tracio Defnyddwyr FSS 'Food in Scotland' fod dros un o bob pump (22%) o'r ymatebwyr wedi dweud nad oeddent yn gallu fforddio siopa am fwyd hanfodol yn ystod y mis diwethaf, a dywedodd 44% eu bod wedi poeni am allu fforddio bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf (Ffigur 4).

**Ffigur 4: Pryderon a nodwyd ynghylch gallu fforddio bwyd ers mis Gorffennaf 2021 yn yr Alban**





Ffynhonnell: FSS – Arolwg Tracio Defnyddwyr 'Food in Scotland', Cylchoedd 12-17 (Gorff 21-Rhag 23)

# Diogelwch bwyd a phwysau costau byw

Yn *Ein Bwyd 2022*, gwnaethom adrodd ar yr effaith niweidiol bosib y gall yr amgylchedd economaidd ei chael ar rai agweddau ar hylendid a diogelwch bwyd yn y cartref. Gwelwyd cynnydd cyfartalog o 15% ym mhrisiau trydan, nwy a thanwydd arall yn 2022, ac mae materion tebyg yn dod i'r amlwg yn nata 2023.

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, arhosodd cyfran y bobl a nododd eu bod yn ymgymryd ag arferion bwyd mwy peryglus yn weddol sefydlog rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2023 (Ffigur 5).[18] Roedd y tri phrif ymddygiad peryglus a nodwyd yn ymwneud â lleihau faint o amser y mae bwyd yn cael ei goginio, gostwng y tymheredd coginio, a bwyta bwyd sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad 'defnyddio erbyn' oherwydd na allant fforddio prynu mwy o fwyd.

**Ffigur 5: Canran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi ymgymryd ag arferion bwyd peryglus yn y cartref yn ystod y pum mis diwethaf yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**




Ffynhonnell: ASB – Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr (Awst-Rhag 23)

Mae'r arolwg yn dangos bod o leiaf un o bob wyth o bobl (12%) bob mis yn ymddwyn yn beryglus o ran storio a pharatoi bwyd mewn ymateb i bwysau costau byw. Roedd pobl sy'n poeni am allu fforddio bwyd yn ystod y mis nesaf, y rhai o dan 35 oed a'r rhai o ardaloedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o gymryd rhan yn yr arferion bwyd peryglus hyn nag eraill.

Yn yr un modd, canfu Arolwg Tracio Defnyddwyr 'Food in Scotland' fod dros un o bob pump (23%) o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi bwyta bwyd sydd wedi mynd heibio'r dyddiad 'defnyddio erbyn' yn y mis diwethaf neu wedi gostwng y tymheredd coginio er mwyn arbed arian. Dywedodd bron i dri o bob deg o bobl (29%) eu bod yn coginio bwyd am lai o amser. Roedd 17% o'r ymatebwyr wedi newid y gosodiadau ar yr oergell neu'r rhewgell, ac roedd 15% wedi bwyta eu bwyd yn oer oherwydd na allent fforddio ei goginio.


Er y gallai'r newidiadau hyn mewn arferion paratoi a storio bwyd achosi salwch, nid ydym eto wedi gweld unrhyw gysylltiadau clir rhwng yr ymddygiad peryglus hwn a nifer yr achosion o salwch a gludir gan fwyd.



# Yr effaith ar ddefnyddwyr

Yn *Ein Bwyd 2022*, gwnaethom hefyd archwilio sut roedd cynnydd mewn prisiau bwyd yn effeithio ar wahanol fathau o eitemau a brynir yn gyffredin. Dangosodd hyn mai tri chategori bwyd a welodd y cynnydd mwyaf mewn prisiau yn ystod y flwyddyn, sef olewau a thaeniadau, rhai cynhyrchion llaeth a chynhyrchion heb gynnwys cynnyrch llaeth, a physgod, wyau, cigoedd a phroteinau eraill. Parhaodd y bwydydd hyn i brofi cyfraddau chwyddiant uchel yn ystod 2023 (Ffigur 6). Mewn gwirionedd, profodd pob categori bwyd o'r Canllaw Bwyta'n Dda, ac eithrio olewau a thaeniadau, dwf uwch mewn prisiau nag yn 2022.

**Ffigur 6: Cymharu'r cynnydd canrannol cyfartalog mewn costau o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer categorïau'r Canllaw Bwyta'n Dda yn ystod 2022 a 2023**




* Mae ffa a chorbys wedi'u heithrio am nad oes data ar gael.
Ffynhonnell: SYG – Tablau chwyddiant prisiau defnyddwyr

O fewn y categorïau eang hyn, bu amrywiaeth sylweddol ar gyfer cynhyrchion unigol, gan gynnwys bwydydd bob dydd (Ffigur 7).

**Ffigur 7: Cymharu'r newidiadau ym mhrisiau cyfartalog cynhyrchion rhwng mis Ionawr 2023 a mis Rhagfyr 2023**

| Eitem | Ionawr 2023 Pris cyfartalog | Rhagfyr 2023 Pris cyfartalog | Newid canrannol |
|---|---|---|---|
| Bagiau te (250g) | £2.35 | £2.49 | +6.0% |
| Banana (fesul kg) | £0.92 | £1.08 | +17.4% |
| Menyn (250g) | £2.34 | £2.14 | -8.5% |
| Bara gwyn wedi'i sleisio (un dorth) | £1.39 | £1.37 | -1.4% |
| Llaeth (1 peint) | £0.69 | £0.66 | -4.3% |
| Cyw iâr i'w rostio (fesul kg) | £3.59 | £3.83 | +6.7% |

Ffynhonnell: SYG – Mynegi Prisiau Manwerthu

Beth oedd y newidiadau hyn yn ei olygu'n ymarferol i'r defnyddiwr? Mae'r Sefydliad Bwyd wedi olrhain cost basged o fwyd wythnosol gyfartalog o un archfarchnad fawr dros amser, gan gwmpasu amrywiaeth o eitemau sydd eu hangen i fodloni'r gofynion a argymhellir o ran maeth ac egni ar gyfer dynion a menywod. Canfuwyd bod y basgedi hyn yn costio £48.11 i fenywod a £52.00 i ddynion ym mis Ionawr 2023.[19] Erbyn mis Rhagfyr 2023, roedd y pris wedi codi i £50.64 i fenywod a £55.23 i ddynion, sef cynnydd o 5.2% a 6.2% yn y drefn honno.[20]

## Beth mae defnyddwyr yn ei ddweud wrthym am fwyd?

O ystyried effaith y codiadau hyn o ganlyniad i chwyddiant, nid yw'n syndod mai cost oedd y prif bryder i ddefnyddwyr yn 2023 o hyd. Fodd bynnag, roedd canlyniadau arolwg Bwyd a Chi 2 hefyd yn tynnu sylw at bryderon ehangach pobl, yn enwedig o ran ansawdd, diogelwch a chynaliadwyedd bwyd.

Canfu arolwg Bwyd a Chi 2 diweddaraf yr ASB, a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023, pan gyflwynwyd rhestr o opsiynau i ymatebwyr, fod bron i dri chwarter (72%) ohonynt wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch prisiau bwyd. Mynegodd cyfran fawr hefyd bryderon am wastraff bwyd (58%) a faint o ddeunydd pecynnu bwyd a ddefnyddir (56%), tra bod faint o siwgr sydd mewn bwyd (56%) ac ansawdd y bwyd (56%) hefyd ymhlith y pum prif bryder a nodwyd gan ddefnyddwyr (Ffigur 8).[21] Nid oedd unrhyw wahaniaethau canfyddadwy mewn pryderon rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Ffigur 8: Y prif bryderon ynghylch bwyd a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ystod 2022 a 2023**

| Pryder | Canran yr ymatebwyr Gorffennaf 2022 | Canran yr ymatebwyr Ionawr 2023 | Canran yr ymatebwyr Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|---|
| Prisiau bwyd | 66% | 65% | 72% |
| Gwastraff bwyd | 60% | 62% | 58% |
| Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir* | Ddim yn berthnasol | 56% | 56% |
| Faint o siwgr sydd mewn bwyd | 59% | 55% | 56% |
| Ansawdd bwyd* | Ddim yn berthnasol | 61% | 56% |
| Lles anifeiliaid | 54% | 50% | 49% |
| Gallu bwyta'n iachus* | Ddim yn berthnasol | 46% | 49% |
| Hylendid bwyd wrth archebu prydau tecawê | 51% | 44% | 49% |
| Hylendid bwyd wrth fwyta allan | 50% | 46% | 48% |
| Faint o fraster sydd mewn bwyd | 50% | 44% | 47% |

* Yn dynodi pryder newydd na chafodd ei gynnwys yn 2022.

Ffynhonnell: ASB – Bwyd a Chi 2, Cylch 5 (26 Ebr 22 – 24 Gorff 22), Cylch 6 (12 Hyd 22 – 10 Ion 23) a Chylch 7 (Ebr–Gorff 23)

Er nad yw arolwg Bwyd a Chi 2 yn gofyn yn benodol am bryderon ynghylch bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth (UPFs), mae'r cwestiwn wedi'i ofyn yn Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr yr ASB ers mis Awst 2023. Canfu fod 75% ar gyfartaledd o'r ymatebwyr ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn poeni am "fwyd wedi'i brosesu'n helaeth neu ei or-brosesu" rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2023.

Yn yr Alban, cynhaliodd FSS arolwg ar wahân ym mis Rhagfyr 2023. Gofynnodd ymchwilwyr i bobl ddewis o restr ychydig yn wahanol o bryderon yn ymwneud â bwyd,[22] ond cost bwyd oedd y pryder mwyaf cyffredin ymhlith y cyhoedd gyda 93% o'r ymatebwyr yn nodi hyn (Ffigur 9). Roedd materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch bwyd hefyd yn amlwg, gyda 80% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn poeni am fwyd wedi'i brosesu'n helaeth neu ei or-brosesu. Roedd 72% yn poeni am ddiogelwch bwyd a fewnforir o dramor; roedd 68% yn nodi pryderon am gynhwysion ac ychwanegion; ac roedd 61% yn poeni am fwyd wedi'i addasu'n enetig.

**Ffigur 9: Y 10 prif bryder a nodwyd gan ddefnyddwyr yn yr Alban ym mis Rhagfyr 2023**

| Safle | Pryderon | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| 1. | Prisiau bwyd | 93% |
| 2. | Tlodi bwyd ac anghydraddoldeb bwyd | 81% |
| 3. | Bwyd wedi'i brosesu'n helaeth neu ei or-brosesu | 80% |
| 4. | Diogelwch y bwyd sy'n cael ei fewnforio o'r tu allan i'r DU | 74% |
| 5. | Pa mor iachus yw deietau pobl yn gyffredinol | 74% |
| 6. | Cynaliadwyedd bwyd a chynhyrchu bwyd | 72% |
| 7. | Ansawdd y bwyd sy'n cael ei fewnforio o'r tu allan i'r DU | 71% |
| 8. | Lles anifeiliaid yn y diwydiant bwyd | 69% |
| 9. | Cynhwysion ac ychwanegion mewn bwyd | 68% |
| 10. | Bwyd wedi'i addasu yn enetig (bwyd GM) | 61% |

Sylwer: Nid oes modd cymharu'r cylch hwn o'r arolwg tracio defnyddwyr â chylchoedd blaenorol oherwydd newidiadau i'r cwestiwn.


Ffynhonnell: FSS - Arolwg Tracio Defnyddwyr 'Food in Scotland', Cylch 17, (1-10 Rhag 23)

Gwnaeth ymchwil defnyddwyr FSS hefyd dynnu sylw at bryderon cymdeithasol ehangach y cyhoedd am fwyd. Adlewyrchir hyn trwy'r 81% o ymatebwyr a nododd dlodi bwyd ac anghydraddoldeb bwyd fel pryder mawr, a'r 74% a ddywedodd eu bod yn poeni am "ba mor iach" yw deietau pobl yn fwy cyffredinol (Ffigur 9).

## Yr effaith ar ddewisiadau ac ymddygiad defnyddwyr

Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau'n awgrymu nad yw'r pwysau ar ddewisiadau bwyd cartrefi wedi lleihau'n fawr, os o gwbl. Canfu Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr yr ASB fod dros hanner (53%) yr ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi gwneud o leiaf un addasiad i'r ffordd y maent yn prynu neu'n paratoi bwyd fel ffordd o arbed arian. Mae hefyd yn dangos (Ffigur 10) bod arferion coginio a bwyta llawer o ddefnyddwyr wedi newid ar ddiwedd 2023. Roedd 56% o bobl, er enghraifft, yn dweud eu bod yn defnyddio dulliau coginio rhatach; roedd 49% yn dewis eitemau rhatach yn lle nwyddau brand; ac roedd 40% yn prynu bwydydd am bris gostyngol neu ar ddisgownt.

**Ffigur 10: Canran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi cymryd camau i arbed arian yn ystod y pum mis diwethaf yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**




Dylid darllen yr allwedd o'r chwith i'r dde, o'r brig i'r gwaelod.

- Wedi defnyddio dulliau coginio rhatach (er enghraifft, microdon, ffrïwr aer neu bopty pwyll) yn lle popty i gynhesu neu goginio bwyd
- Wedi dewis bwyd rhatach yn hytrach na chynhyrchion brand i arbed arian
- Wedi prynu bwyd am bris gostyngol sy'n agos at ei ddyddiad 'defnyddio erbyn' i arbed arian
- Wedi coginio/paratoi rhywbeth o'r dechrau, yn hytrach na'i brynu'n barod i arbed arian
- Wedi siopa am fwyd mewn sawl archfarchnad / siop i arbed arian
- Wedi gwneud prydau'n fwy swmpus gan ddefnyddio cynhwysion rhatach i wneud y mwyaf o'u bwyd neu i deimlo'n llawn am gyfnod hirach

Ffynhonnell: ASB – Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr (Awst-Rhag 23)

Yn yr un modd, canfu Arolwg Tracio Defnyddwyr 'Food in Scotland' ar gyfer mis Rhagfyr 2023 fod 76% o'r ymatebwyr wedi defnyddio dulliau coginio rhatach yn ystod y mis diwethaf, tra bod 51% wedi cyfnewid cynhyrchion brand am ddewisiadau rhatach, a 41% wedi prynu eitemau bwyd am bris gostyngol dros y chwe mis diwethaf.

# Yr effaith ar ddeiet ac iechyd y boblogaeth

Un o'r prif gwestiynau yw beth mae'r pwysau costau byw hyn yn ei olygu i'n deiet. Nid yw'r canllaw mwyaf awdurdodol ar ein cymeriant deietegol, sef yr Arolwg Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth (NDNS) wedi cyhoeddi data ar gyfer 2022/23 eto, ac nid yw Arolwg Iechyd Lloegr wedi cyhoeddi data chwaith. Fodd bynnag, dangosodd Arolwg Iechyd yr Alban 2022 i ba raddau y mae gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol yn cael eu hadlewyrchu yn neietau pobl, gan awgrymu'r cyfraniad y gallai hyn ei wneud at anghydraddoldebau iechyd yn y dyfodol (gweler isod).

## Iechyd dietegol yn yr Alban

Mae Arolwg Iechyd yr Alban 2022 yn darparu data ar gyfran yr oedolion a phlant sy'n cael eu hystyried dros bwysau neu'n ordew, ynghyd â rhywfaint o wybodaeth am gymeriant deietegol ymhlith plant. Mae pwysau gormodol yn arwydd o afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet ac yn ffactor risg sylweddol ar gyfer salwch diweddarach.

Er nad yw'r rhan fwyaf o blant (79%) rhwng dwy a 15 oed yn dal i fwyta'r pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y dydd a argymhellir, y 21% sy'n bwyta'r swm a argymhellir yw'r gyfradd uchaf sydd wedi'i chofnodi ers dechrau'r Arolwg Iechyd yr Alban yn 2008. Mae canran y plant sy'n bwyta 2-3 sleisen o fara ffeibr uchel y dydd hefyd wedi gostwng o 35% yn 2008/9 i 24% yn 2021/22.

Ar nodyn cadarnhaol, mae'r newid mwyaf yn y data yn ymwneud â phlant yn yfed diodydd meddal sy'n cynnwys siwgr unwaith neu fwy bob dydd, a ddisgynnodd o 38% yn 2008/2009 i 16% yn 2017/2018 ac i 5% yn 2021/2022. Gostyngodd nifer y plant sy'n bwyta cig coch o leiaf ddwywaith yr wythnos hefyd o 57% yn 2008/9 i 51% yn 2021/22, tra bod nifer y plant sy'n bwyta pysgod olewog unwaith yr wythnos neu'n amlach wedi cynyddu o 13% i 19% yn yr un cyfnod.

Dangosodd yr arolwg mai dim ond tua dwy ran o dair (64%) o blant oedd yn y categori pwysau iach yn 2022. Mae hyn yn debyg i'r hyn a adroddwyd yn 2021 a'r gyfran isaf o blant sydd â phwysau iach ers dechrau casglu'r data hwn. Ymhlith oedolion, mae'r arolwg yn canfod bod tua dwy ran o dair o'r holl oedolion (67%) yn yr Alban wedi'u dosbarthu fel rhai dros bwysau (gan gynnwys gordewdra) yn 2022, gyda mwy o ddynion (70%) dros bwysau na menywod (63%). Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos tystiolaeth gref o raddiant cymdeithasol. Yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig dim ond 28% o bobl sy'n cael eu dosbarthu fel rhai â phwysau iach, o gymharu â 39% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Ar gyfer Lloegr, dangosodd data'r Rhaglen Genedlaethol Mesur Plant ar gyfer 2022/23 fod 21.3% o blant 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew. Roedd nifer yr achosion ymhlith plant ym mlwyddyn 6 (10-11 oed) yn 36.6%. Roedd tystiolaeth o gynnydd yn nifer y plant o dan bwysau yn y ddau grŵp oedran (1.2% ar gyfer dosbarthu derbyn ac 1.6% ar gyfer blwyddyn 6). Mae anghydraddoldebau sylweddol o ran nifer y plant dros bwysau o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig, a rhwng gwahanol blant o wahanol grwpiau ethnig.[23]

Mae hefyd yn amlwg o'n hymchwil defnyddwyr fod yr argyfwng costau byw wedi effeithio ar ganfyddiadau pobl a'u hymddygiad ynghylch fforddiadwyedd deiet iach a chytbwys. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, er enghraifft, dywedodd o leiaf un o bob deg o'r ymatebwyr (10-12%) nad oeddent yn gallu fforddio deiet cytbwys ac iach rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2023. Dywedodd tua'r un gyfran (10-12%) eu bod yn lleihau maint eu prydau neu wedi hepgor prydau bwyd er mwyn arbed arian.

Yn yr un modd, canfu Arolwg Tracio Defnyddwyr 'Food in Scotland' fod dros chwarter (28%) yr ymatebwyr yn dweud eu bod wedi hepgor prydau bwyd neu leihau maint eu prydau. Dywedodd ychydig yn fwy (29%) na allent fforddio bwyta deiet iach a chytbwys.

Er na allwn roi cyfrif am wahaniaethau yn y ffordd y mae pobl yn diffinio deiet iach a'r hyn y maent yn ei ystyried yn fwyd "hanfodol", mae'n amlwg nad yw cyfran sylweddol o boblogaeth y DU yn teimlo ar hyn o bryd eu bod yn gallu fforddio bwyta deiet sydd, yn eu barn nhw, yn ddeiet iach.

# I grynhoi

- Cododd chwyddiant bwyd ar y gyfradd gyflymaf mewn 45 mlynedd yn ystod chwarter cyntaf 2023, gan gyrraedd uchafbwynt o 19.8% ym mis Mawrth 2023. Er bod chwyddiant bwyd wedi lleihau ychydig dros weddill y flwyddyn, ar ddiwedd 2023 roedd yn dal i fod bron i ddwbl y gyfradd gyffredinol ar gyfer chwyddiant.

- Roedd diffyg diogeledd bwyd cartrefi yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn uwch na'r lefelau a welwyd yn 2022, gydag un o bob pedwar oedolyn (25%) wedi'i ddosbarthu fel rhai â diffyg diogeledd bwyd erbyn mis Gorffennaf 2023. Rydym yn amcangyfrif bod tua 2.5 miliwn yn fwy o oedolion bellach â diffyg diogeledd bwyd nag yn 2022. Yn yr Alban, dywedodd mwy nag un o bob pump o bobl (22%) nad oeddent yn gallu fforddio siopa hanfodol yn ystod y mis diwethaf, a dywedodd 44% eu bod yn poeni am allu fforddio bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

- Arhosodd prisiau bwyd ar frig y rhestr o bryderon defnyddwyr ar draws y pedair gwlad. Eleni, lleisiodd y cyhoedd bryderon hefyd am ansawdd, diogelwch a chynaliadwyedd bwyd – ac awgrymodd ymchwil FSS fod cyfran sylweddol yn poeni am dlodi bwyd ac anghydraddoldeb bwyd.

- Mae'r ASB ac FSS yn poeni y gallai pwysau ariannol achosi risg diogelwch bwyd a risg uwch o glefydau a gludir gan fwyd drwy arferion peryglus posib o ran storio, paratoi a bwyta bwyd. Mae ein hymchwil yn dangos bod cyfran sylweddol o bobl yn dweud eu bod wedi lleihau amseroedd coginio a/neu godi tymheredd neu ddiffodd eu hoergell neu rewgell sy'n cynnwys bwyd, fel ffordd o arbed arian.

- Mae'r data diweddaraf o Arolwg Iechyd yr Alban 2022 yn dangos bod 79% o blant 2 i 15 oed yn yr Alban yn dal i fethu â bwyta'r swm a argymhellir o bum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd, er bod y cyfraddau ar eu huchaf ers 2008.

- Mae'r nifer cynyddol o bobl sydd dros bwysau neu'n ordew yn rhybudd clir o salwch yn y dyfodol, ac mae'r dystiolaeth o wahaniaethau cynyddol o fewn y boblogaeth yn peri risg y bydd anghydraddoldebau iechyd yn gwaethygu.

- Heb ragor o ymchwil, mae'n anodd dweud pa effaith y mae'r argyfwng costau byw wedi'i chael ar ddeiet a chymeriant maethol pobl. Fodd bynnag, dywedodd o leiaf un o bob deg o bobl yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon nad oeddent yn gallu fforddio'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn ddeiet cytbwys ac iach. Yn yr un modd, mewn arolwg FSS, dywedodd dros chwarter (29%) o'r ymatebwyr na allent fforddio bwyta deiet cytbwys ac iach.

# Safbwynt byd-eang

## Mewnforion bwyd

### Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried:**

- o ble y daeth ein bwyd a'n bwyd anifeiliaid yn 2023
- diogelwch ein mewnforion, yn seiliedig ar ddata a gesglir ar y ffin
- cytundebau masnach rydd newydd a'u heffaith ar safonau diogelwch bwyd



# Cyflwyniad

**Mae cyfaint y bwyd sy'n cael ei fewnforio i'r DU wedi aros yr un fath fwy neu lai yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gydag ychydig dros ddwy ran o bump o'r nwyddau rydym yn eu bwyta yn dod o dramor. Rydym yn dibynnu'n helaeth ar y nwyddau hyn i ategu ein cynnyrch domestig, gan sicrhau bod cynnyrch ar gael drwy gydol y flwyddyn a bod gan gynhyrchwyr bwyd y cynhwysion crai sydd eu hangen arnynt.**

Mae'r rhwydweithiau masnachu cymhleth sy'n gwneud hyn oll yn bosib yn agored i ddigwyddiadau geowleidyddol sy'n arwain at gynnwrf neu newid. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft, rydym wedi gweld aflonyddwch mawr oherwydd y pandemig ac ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn 2022, gyda'r olaf yn arwain at rwystro llwybrau masnachu'r Môr Du am gyfnodau estynedig. Yn fwy diweddar, arweiniodd yr ymosodiadau ar longau yn y Môr Coch a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2023 at darfu ar rai llwybrau masnachu.

Mae cyflenwadau bwyd byd-eang hefyd yn cael eu bygwth fwyfwy gan dywydd garw. Yn 2023, gwnaeth sychder difrifol yn yr Unol Daleithiau, Brasil a'r Ariannin leihau cynhyrchiant prif nwyddau fel corn/ŷd, ffa soia a gwenith, tra bod llifogydd difrifol mewn rhannau o Asia wedi amharu ar gynhyrchu reis a grawn. Yn nes at adref, effeithiodd tywydd crasboeth ledled Ewrop ar gynaeafau allweddol hefyd, gan leihau'r cyflenwad byd-eang o rawnfwydydd, ffrwythau sitrws, llysiau ac olewydd.


Er bod y system wedi bod yn wydn yn wyneb yr heriau hyn, mae hyn oll wedi cael rhywfaint o effaith ar brisiau a llif nwyddau i'r DU wrth i gyflenwyr addasu i ateb y galw am y cynhyrchion hyn.

O ble bynnag y daw ein bwyd, rhaid iddo fodloni ein safonau diogelwch a dilysrwydd. Wrth i'r dirwedd fasnachu ddatblygu, rhaid i ni barhau i fonitro bwyd a fewn fewnforir fel y gellir canfod bygythiadau posib i iechyd y cyhoedd a gweithredu arnynt yn gyflym.

# Tirwedd mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid


Yn *Ein Bwyd 2022*, dangoswyd sut roedd cyfanswm y bwyd rydym yn ei fewnforio wedi dychwelyd i lefelau hanesyddol ar ôl gostyngiad o 9% yn ystod 2021. Mae'r darlun cyffredinol ar gyfer 2023 yn ymddangos yn weddol sefydlog, gyda gostyngiad o ddim ond rhyw 2.1% (0.9 miliwn o dunelli) o gymharu â 2022, sy'n cyd-fynd yn fras ag amrywiadau blaenorol o flwyddyn i flwyddyn mewn llif mewnforion (Ffigur 11 a Ffigur 12).

**Ffigur 11: Cyfanswm y bwyd a'r bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd i'r DU dros amser (2014-2023)**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Fasnach y DU CThEF ac Adnodd Delweddu Data Masnach

**Ffigur 12: Newid canrannol blynyddol yng nghyfanswm cyfeintiau mewnforion y DU ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid (2015-2023)**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Fasnach y DU CThEF ac Adnodd Delweddu Data Masnach

Ychydig iawn o newid sydd wedi bod hefyd o ran o ble y daw y rhan fwyaf o'n bwyd a bwyd anifeiliaid, ac ymhlith y 10 gwlad uchaf, dim ond Gwlad Pwyl sydd wedi symud yn sylweddol, a hynny o'r nawfed i'r pumed safle (Ffigur 13). Mae'r newid yn bennaf oherwydd bod cyfanswm y grawnfwydydd a grawn a fewnforir i Brydain Fawr o Wlad Pwyl wedi dyblu. Mae'n bosib bod hyn yn gysylltiedig â chynnydd o fwy na 3,000% yng nghyfanswm y grawnfwydydd a grawn a fewnforiwyd o Wcráin i Wlad Pwyl yn 2022.[24]

**Ffigur 13: Y 10 gwlad â'r cyfeintiau mewnforio uchaf ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid yn 2023**

| Gwlad | Cyfaint y mewnforion yn 2023 (miliwn kg) | Newid yn y cyfaint o flwyddyn i flwyddyn | Safle 2023* | Gwahaniaeth yn y safle ers 2022 |
|---|---|---|---|---|
| Yr Iseldiroedd** | 5,222 | -5% | 1 (1) | Dim newid |
| Gweriniaeth Iwerddon | 3,300 | -2% | 2 (3) | +1 |
| Ffrainc | 3,122 | -17% | 3 (2) | -1 |
| Gwlad Belg | 2,830 | -2% | 4 (4) | Dim newid |
| Gwlad Pwyl | 2,246 | 39% | 5 (9) | +4 |
| Sbaen | 2,225 | -10% | 6 (5) | -1 |
| Yr Almaen | 2,203 | 6% | 7 (6) | -1 |
| Yr Eidal | 1,897 | -7% | 8 (7) | -1 |
| Unol Daleithiau America | 1,802 | 28% | 9 (11) | +2 |
| Yr Ariannin | 1,699 | 12% | 10 (10) | Dim newid |

* Mae safle 2022 wedi'i nodi mewn cromfachau.
** Mae mewnforion o'r Iseldiroedd yn adlewyrchu effaith Rotterdam fel canolfan fyd-eang ar gyfer cludo nwyddau.
Ffynhonnell: Gwybodaeth Fasnach y DU CThEF ac Adnodd Delweddu Data Masnach

Mae bwyd a bwyd anifeiliaid o wledydd yr UE yn parhau i gyfrif am ychydig dros 60% o gyfanswm ein mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid (Ffigur 14). Nid yw'r gyfran hon wedi newid ers i'r DU ymadael â'r UE.

## Deall categorïau mewnforio

Mae ein data mewnforio bwyd wedi'i rannu'n dri phrif fath o nwyddau:

- **Cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO)**, sy'n cynnwys cig, wyau, pysgod a chynnyrch llaeth
- **Bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid (FNAO)**, sy'n cynnwys diodydd, grawnfwydydd, ffrwythau a llysiau
- **Bwyd anifeiliaid**, sy'n cynnwys cêc olew[25] a bwyd anifeiliaid anwes

**Ffigur 14: Cyfanswm cyfaint y mewnforion wedi'i rannu yn ôl prif gategorïau POAO, FNAO a bwyd anifeiliaid**

| Categori mewnforio | Cyfanswm yn 2023 (tunelli) | Newid yn y cyfaint 2019*-2023 | Newid yn y cyfaint 2022-2023 | Cyfran yr UE 2023 (2019) |
|---|---|---|---|---|
| POAO | 6,561,672 | -6% | -1% | 79% (81%) |
| FNAO | 28,282,742 | -4% | -3% | 63% (63%) |
| Bwyd anifeiliaid | 5,711,579 | -13% | 0% | 46% (42%) |
| **Cyfanswm** | **40,555,993** | **-6%** | **-2%** | **63% (63%)** |

* Defnyddir 2019 fel llinell sylfaen ar gyfer cyn y pandemig.
Ffynhonnell: Data Masnach y DU CThEF ac Adnodd Delweddu Data Masnach

## Pa mor ddiogel yw bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio?

Fel yr amlygwyd yn ein hadroddiadau Ein Bwyd blaenorol, nid yw mewnforion o'r UE i Brydain Fawr wedi bod yn destun rheolaethau'r ffin ers i drefniadau pontio ddod i ben yn 2021, sy'n golygu na cynhaliwyd gwiriadau ar lwythi o'r UE a gyrhaeddodd Prydain Fawr yn ystod 2023. Mae cynnal rheolaethau'r ffin yn golygu bod modd nodi risgiau a chymryd camau gweithredu yn gynnar, sy'n hanfodol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Heb y data ffiniau perthnasol, ni all yr ASB ac FSS ddweud sut mae'r risg diogelwch bwyd cyffredinol a berir gan gynhyrchion yr UE wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod y bu rhai digwyddiadau diogelwch bwyd yn ymwneud â bwyd a fewnforiwyd o'r UE dros y blynyddoedd diwethaf. Un enghraifft o hyn yw cynnydd mewn achosion salmonela o gynhyrchion dofednod ac wyau halogedig o Wlad Pwyl. Mae'r ASB ac FSS, ar y cyd â phedair asiantaeth iechyd y cyhoedd y DU, Defra ac adrannau eraill y llywodraeth, yn ymgysylltu'n weithredol ag awdurdodau yng Ngwlad Pwyl i ddatrys y problemau hyn.

O 2024 ymlaen, bydd y Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau (BTOM), sy'n nodi system newydd o reolaethau diogelwch bwyd a bioddiogelwch, yn gymwys i'r holl gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a gaiff eu mewnforio i Brydain Fawr. Yn y cyfamser, mae'r ASB ac FSS yn parhau i ddefnyddio dull a arweinir gan wybodaeth i dargedu risgiau a berir gan fwyd wedi'i fewnforio.

## Fframwaith Windsor

Ym mis Hydref 2023, rhoddwyd Fframwaith Windsor ar waith, gan ddarparu trefniadau unigryw i gefnogi llif cynhyrchion bwyd manwerthu bwyd-amaeth o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, yn ogystal â sicrhau bod busnesau Gogledd Iwerddon yn parhau i elwa ar fynediad dirwystr weddill marchnad fewnol y DU. Gall y nwyddau hyn fodloni'r un safonau a gymhwysir yng ngweddill y DU ym maes iechyd y cyhoedd, marchnata (gan gynnwys labelu) a bwydydd organig.

Fodd bynnag, gan na wnaeth newidiadau BTOM ddod i rym tan 2024,[26] mae ein dadansoddiad o lefelau cydymffurfio o ran diogelwch ar gyfer 2023 yn parhau i gael ei gyfyngu i nwyddau a fewnforiwyd o'r tu allan i'r UE. Mae nwyddau nad ydynt yn dod o'r UE yn destun ystod o reolaethau sy'n amrywio gan ddibynnu ar y math o lwyth. Mae'r gwiriadau hyn ar y ffin yn cael eu llywio gan gudd-wybodaeth ac wedi'u cynllunio i ganolbwyntio ar gynhyrchion a llwythi yr ystyrir eu bod yn rhai risg uchel.

Yn 2023, roedd bron yr holl gynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n dod o anifeiliaid (POAO) a ddaeth i mewn i Brydain Fawr o'r tu allan i'r UE yn destun gwiriadau **dogfennol** ac **adnabod**, sy'n cadarnhau bod dogfennaeth briodol wedi'i darparu a bod y cynnyrch yn cyd-fynd â'r ddogfennaeth. Yna roedd cyfran lai o gynhyrchion yn destun gwiriadau **ffisegol** ychwanegol.

Ystyrir bod y rhan fwyaf o fwydydd nad ydynt yn dod o anifeiliaid (FNAO), fel ffrwythau a llysiau, yn peri llai o risg na POAO ac nid ydynt yn destun yr un gwiriadau. Fodd bynnag, lle caiff risg ei nodi mewn cynnyrch penodol o wlad benodol, caiff ei ychwanegu at y rhestr o FNAO risg uchel (HRFNAO), a bydd yn destun gwiriadau dogfennol, adnabod a ffisegol ychwanegol ar y ffin.

O'r gwiriadau a gynhaliwyd yn 2023, gallwn weld bod y mwyafrif helaeth o lwythi yn cydymffurfio, sy'n golygu bod lefel y materion diogelwch a ganfuwyd mewn mewnforion bwyd o'r tu allan i'r UE yn parhau i fod yn isel (Ffigur 15). Rydym wedi gweld cynnydd mewn llwythi POAO sy'n methu ein safonau ar gyfer gwiriadau dogfennol a samplu. Gallai hyn fod naill ai oherwydd cynnydd mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio neu oherwydd gwell prosesau canfod yn sgil prosesau gwell wrth broffilio risg a thargedu gwiriadau.

**Ffigur 15: Canran y llwythi o'r tu allan i'r UE sy'n methu gwiriadau mewnforio ym Mhrydain Fawr (2021-2023)**

**Gwiriadau dogfennol**

| Math o lwyth | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Cig a chynhyrchion anifeiliaid eraill (POAO) | 0.91% | 0.91% | 1.21% |
| Bwydydd risg uchel eraill (HRFNAO) | 0.54% | 0.31% | 0.46% |
| Pob llwyth | 0.84% | 0.78% | 1.08% |

**Gwiriadau adnabod**

| Math o lwyth | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Cig a chynhyrchion anifeiliaid eraill (POAO) | 0.84% | 0.63% | 0.83% |
| Bwydydd risg uchel eraill (HRFNAO) | 1.94% | 1.16% | 1.27% |
| Pob llwyth | 0.87% | 0.65% | 0.85% |

**Gwiriadau ffisegol**

| Math o lwyth | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Cig a chynhyrchion anifeiliaid eraill (POAO) | Ddim ar gael* | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Bwydydd risg uchel eraill (HRFNAO) | 4.31% | 2.60% | 3.11% |
| Pob llwyth | Dd/b | Dd/b | Dd/b |

**Samplu (fel rhan o wiriad ffisegol)**

| Math o lwyth | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|
| Cig a chynhyrchion anifeiliaid eraill (POAO) | 0.99% | 0.93% | 1.33%** |
| Bwydydd risg uchel eraill (HRFNAO) | 4.78% | 4.13% | 3.95% |
| Pob llwyth | 2.76% | 2.44% | 2.40% |

* Ers ymadael â'r UE a symud i'r system Mewnforio Cynhyrchion, Anifeiliaid, Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (IPAFFS), dim ond canlyniadau'r gwiriadau samplu a gynhaliwyd sy'n cael eu cofnodi gan y system, ac nid gwiriadau ffisegol.

** 33 canlyniad heb eu cadarnhau eto, o fwy na 4000.

Ffynhonnell: IPAFFS

Er gwaetha'r cynnydd hwn, mae dros 98% o'r holl lwythi POAO yn pasio eu holl wiriadau mewnforio. Bu cyfanswm o 99,523 o lwythi POAO yn destun gwiriadau dogfennol a methodd 1,203 ohonynt. Samplwyd 4,223 o lwythi POAO ar gyfer profion labordy, a methodd 56 ohonynt.

# Newidiadau i ddynodiad bwyd risg uchel nad yw'n dod o anifeiliaid (HRFNAO)

Canlyniad arall ymadawiad y DU â'r UE yw bod yr ASB ac FSS bellach yn gyd-gyfrifol am nodi unrhyw FNAO a fewnforir a allai beri risg uwch i iechyd y cyhoedd ac a ddylai, felly, fod yn destun gwiriadau ychwanegol ar y ffin.

Roedd ein hadolygiad diweddaraf, a gwblhawyd yn 2023 ac a ddeddfwyd ym mis Mawrth 2024, yn archwilio risgiau fel halogiad â metelau trwm, plaladdwyr, tocsinau sy'n digwydd yn naturiol a microbau niweidiol. Argymhellodd yr ASB ac FSS wedyn y dylai gweinidogion ychwanegu **20 o nwyddau newydd** at y rhestr oherwydd y risg uwch y gallent ei pheri. Mae'r rhain yn adlewyrchu ein pryderon ynghylch cynnydd posib ym mhresenoldeb afflatocsinau neu blaladdwyr mewn sbeisys a ffrwythau egsotig a fewnforir o rannau o Dde America, De Asia a'r Dwyrain Canol, a'r risg o *Listeria* mewn madarch Enoki o Tsieina a De Korea, ymhlith eraill.

Argymhellwyd hefyd y dylid tynnu dau nwydd oddi ar y rhestr HRFNAO sy'n destun rheolaethau ar y ffin, ac y dylid lleihau lefel y gwiriadau a gynhelir ar bedwar arall, lle mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchion hyn wedi gostwng. Darperir rhestr lawn o newidiadau i ddynodiadau (Ffigur 16).

### Ffigur 16: Newidiadau i ddynodiad bwydydd risg uchel

**Nwyddau HRFNAO a fewnforiwyd sydd wedi'u hasesu o ran risg fel rhai nad ydynt bellach yn peri risg i iechyd y cyhoedd nac yn cael eu rheoli ar y ffin**

| Nwydd | Gwlad | Perygl |
|---|---|---|
| Cnau daear | Brasil | Afflatocsinau |
| Cnau cyll | Twrci | Afflatocsinau |

**Nwyddau HRFNAO a fewnforiwyd sy'n parhau i gael eu rheoli ond sydd wedi'u hasesu o ran risg fel rhai sy'n peri risg sy'n lleihau i iechyd y cyhoedd**

| Nwydd | Gwlad | Perygl |
|---|---|---|
| Puprynnau melys (*Capsicum annum*) | Tsieina | Salmonela |
| Olew palmwydd | Ghana | Llifynnau Sudan |
| Pitahaya (ffrwyth y ddraig) | Fietnam | Gweddillion plaladdwyr |
| Nytmeg | Indonesia | Afflatocsinau |

**Nwyddau FNAO sydd wedi'u nodi trwy ein systemau gwybodaeth a gwyliadwriaeth fel rhai sy'n peri risg i iechyd y cyhoedd ac sydd wedi'u dwyn o dan reolaethau ar y ffin am y tro cyntaf.**

| Nwydd | Gwlad | Perygl |
|---|---|---|
| Granadila (*Passiflora ligularis*) a ffrwyth pasiwn (*Passiflora edulis*) | Columbia | Gweddillion plaladdwyr |
| Bananas | Ecwador | Gweddillion plaladdwyr |
| Orenau | Yr Aifft | Gweddillion plaladdwyr |
| Sinamon a blodau coeden sinamon | India | Gweddillion plaladdwyr |
| Clofs (ffrwyth cyfan, clofs a choesynnau) | India | Gweddillion plaladdwyr |
| Coed drymffyn (*Moringa oleifera*) | India | Gweddillion plaladdwyr |
| Sinsir, saffrwm, tyrmerig (*Curcuma*), teim, dail llawryf, cyrri a sbeisys eraill | India | Gweddillion plaladdwyr |
| Nytmeg, mês a chardamoms | India | Gweddillion plaladdwyr |
| Reis | India | Ochratocsin A a gweddillion plaladdwyr |
| Hadau anis, badian, ffenigl, coriander, cwmin neu garwe, ac aeron meryw | India | Gweddillion plaladdwyr |
| Hadau melon | Iran | Afflatocsinau |
| Puprynnau o'r genws *Capsicum* (ac eithrio rhai melys) | Kenya | Gweddillion plaladdwyr |
| Pys buwch (*Vigna unguiculata subspp.*) | Madagascar | Gweddillion plaladdwyr |
| Reis | Pacistan | Afflatocsinau, ochratocsin A a gweddillion plaladdwyr |
| Hadau sesame | Syria | Salmonela |
| Tahini a halva o hadau sesame | Syria | Salmonela |
| Madarch Enoki | Tsieina | *Listeria* |
| Dail gwinwydd | Yr Aifft | Gweddillion plaladdwyr |
| Puprynnau o'r genws *Capsicum* (melys a rhai nad ydynt yn felys) (bwyd – wedi'i sychu, wedi'i rostio, wedi'i wasgu neu wedi'i falu) | India | Gweddillion plaladdwyr |
| Madarch Enoki | De Korea | *Listeria* |

**HRFNAO a fewnforiwyd sydd wedi bod yn destun mwy o reolaethau (er enghraifft, profion amlach neu brofion yn y labordy lle na chynhaliwyd unrhyw rai o'r blaen) ar y ffin oherwydd mwy o achosion o ddiffyg cydymffurfio neu'r risg a berir i iechyd y cyhoedd.**

| Nwydd | Gwlad | Perygl |
|---|---|---|
| Cymysgeddau sbeisys | Pacistan | Afflatocsinau |
| Puprynnau o'r genws *Capsicum* (ac eithrio rhai melys) | Gwlad Thai | Gweddillion plaladdwyr |
| Puprynnau o'r genws *Capsicum* (ac eithrio rhai melys) (bwyd – ffres, wedi'i oeri neu wedi'i rewi) | India | Gweddillion plaladdwyr |

Ffynhonnell: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1973) (Lloegr) 2024 (legislation.gov.uk))



# Cytundebau masnach rydd a diogelu iechyd

Yn olaf, yn 2023, bu datblygiad arwyddocaol arall o ran dyfodol perthynas fasnachu'r DU â gweddill y byd wrth i ni lofnodi'r Protocol Ymaelodi (Accession Protocol) er mwyn ymuno â grŵp masnach Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP). Disgwylir i'r Cytundeb ddod i rym yn ail hanner 2024. Daeth Cytundebau Masnach Rydd a lofnodwyd ag Awstralia a Seland Newydd i rym hefyd yn 2023.

Y CPTPP yw un o'r Cytundebau Masnach Rydd mwyaf yn y byd, a bydd yn diffinio sut mae'r DU yn masnachu yn y dyfodol gyda'r 11 gwlad sydd wedi sefydlu'r cytundeb – Awstralia, Brunei Darussalam, Canada, Chile, Japan, Malaysia, Mecsico, Seland Newydd, Periw, Singapore a Fietnam.

Fel rhan o ofynion llywodraeth y DU o dan Adran 42 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, gofynnwyd i'r ASB ac FSS, fel awdurdodau diogelwch bwyd y DU, asesu a oedd y Cytundeb Masnach Rydd newydd yn cynnal amddiffyniadau statudol diogelwch bwyd a maeth y DU.

Mewn cyngor a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, penderfynodd yr ASB ac FSS, ar ôl ymuno â chytundeb masnach CPTPP, y bydd y DU yn cadw ei gallu i gynnal amddiffyniadau statudol diogelwch bwyd a maeth ar gyfer defnyddwyr, ac na fydd gweithredu'r Cytundeb Masnach Rydd hwn yn gofyn am unrhyw ddeddfwriaeth diogelwch bwyd a maeth newydd yn y DU. Os bydd ymaelodi yn arwain at gynnydd mewn mewnforion bwyd, mae'n bosib y bydd cyfansymiau mwy o fwyd risg uchel yn golygu y bydd gofyn cynnal mwy o wiriadau ar y ffin. Yn y sefyllfa honno, efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol ar awdurdodau iechyd cyhoeddus y DU i gynnal rheolaethau swyddogol a sicrhau diogelwch bwyd. Byddwn yn parhau i fonitro llifoedd masnach mewn adroddiadau yn y dyfodol.

# I grynhoi

- Mae lefelau mewnforio wedi aros o fewn amrywioldeb hanesyddol, er bod cyfanswm y bwyd rydym yn ei fewnforio mewn tunelli wedi lleihau o gymharu â 2022, ac mae'r gwledydd yr ydym yn mewnforio'r mwyaf o fwyd ohonynt wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

- Ar gyfer y mewnforion o'r tu allan i'r UE a ddadansoddwyd, roedd mwyafrif helaeth y nwyddau'n cydymffurfio, sy'n awgrymu bod safonau bwyd yn cael eu cynnal ar draws y mewnforion hyn, er gwaetha'r cynnydd a welwyd mewn methiannau o ran llwythi POAO. Dylai cyflwyno'r Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau o 2024 ymlaen roi darlun mwy cyflawn o lefelau cydymffurfio ar draws yr holl fewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid yn y blynyddoedd i ddod.

- Mewn ymateb i risgiau diogelwch bwyd cynyddol sy'n effeithio ar gynhyrchion penodol a gaiff eu mewnforio o wledydd penodol, ychwanegwyd 20 o eitemau eraill at ein rhestr o HRFNAO, a fydd bellach yn destun gwiriadau ychwanegol ar ffin Prydain Fawr. Mae hyn yn dilyn ail adolygiad a gynhaliwyd yn ystod 2023 a archwiliodd halogiad posib â metelau trwm, plaladdwyr, tocsinau sy'n digwydd yn naturiol a microbau niweidiol.

- Yn ystod 2023, llofnodwyd Cytundeb Masnach Rydd newydd, sy'n golygu bod disgwyl i'r DU ymuno â grŵp masnachu CPTPP yn ystod ail hanner 2024. Mae'r ASB ac FSS wedi cynghori llywodraeth y DU nad yw'r cytundeb masnach yn effeithio ar safonau diogelwch bwyd a maeth y DU.

# Pwysigrwydd hylendid

## Safonau hylendid mewn sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid

### Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried**

- lefelau cydymffurfio â safonau hylendid ar draws sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid
- y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol o ran mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn arolygiadau hylendid ers pandemig COVID-19
- yr adnoddau staffio sydd ar gael i gynnal hylendid bwyd a safonau bwyd



# Cyflwyniad

**Un o’r pileri pwysicaf o ran ymddiriedaeth y cyhoedd mewn bwyd yw’r sicrwydd sylfaenol bod yr hyn rydym yn ei fwyta – boed wedi’i brynu mewn siop, bwyty, neu rywle arall – wedi’i gynhyrchu, ei weithgynhyrchu, ei storio a’i baratoi mewn modd diogel a hylan.**

Fel yr eglurodd adroddiad y llynedd, mae ein gallu i gynnal y safonau hyn yn dibynnu ar fod â digon o gapasiti i gyflawni’r gwiriadau a’r ymyriadau hanfodol sy’n cadw defnyddwyr yn ddiogel.

Er bod gennym system reoli sydd wedi’i hen sefydlu, mae cyfuniad o arolygiadau hwyr yn dilyn y pandemig a phroblemau hirsefydlog o ran recriwtio a chadw digon o swyddogion cymwys yn parhau i’w gwneud yn anodd cynnal y lefelau gofynnol o oruchwyliaeth a rheolaeth.

# Pwy sy'n gyfrifol am gynnal safonau diogelwch bwyd?

Busnesau bwyd eu hunain sy'n gyfreithiol gyfrifol am sicrhau bod eu bwyd yn ddiogel. Rhaid iddynt feddu ar yr wybodaeth a bod â'r rheolaethau ar waith i sicrhau bod y bwyd y maent yn ei gynhyrchu, ei fewnforio a'i werthu yn bodloni'r gofynion o ran safonau diogelwch bwyd.

Cânt eu cefnogi gan rwydwaith o swyddogion diogelwch bwyd mewn 382 o awdurdodau lleol ledled y DU, sy'n rhoi arweiniad arbenigol i fusnesau, yn cynnal gwiriadau fel arolygiadau rheolaidd, ac yn cymryd camau gorfodi lle bo angen. Mae hyn yn cynnwys Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol a Milfeddygon Swyddogol ac Arolygwyr Hylendid Cig sy'n gweithio mewn sefydliadau fel lladd-dai a ffatrïoedd torri cig.

Mae'r rheoleiddwyr cenedlaethol, yr ASB ac FSS, yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r camau hyn er mwyn diogelu defnyddwyr, ac maent yn rheoleiddio rhai busnesau yn uniongyrchol (er enghraifft, yn y sector cig).



## Ffigur 17: Cyfrifoldebau am gynnal rheolaethau hylendid bwyd ledled y DU


| Math o sefydliad bwyd | Pa awdurdod sy'n gyfrifol am fonitro rheolaethau hylendid? | Pa weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r broses arolygu? |
|---|---|---|
| **Busnesau bwyd:** mae'r rhain yn cynnwys bwytai, caffis, tafarndai, archfarchnadoedd a mannau eraill lle mae bwyd yn cael ei gyflenwi, ei werthu neu ei fwyta, fel ysbytai, ysgolion a chartrefi gofal. | Ledled y DU: awdurdodau lleol | Swyddogion diogelwch bwyd/ Swyddogion cyfraith bwyd (yn yr Alban), gan gynnwys Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd |
| **Sefydliadau cig:** mae'r rhain yn cynnwys lladd-dai, ffatrïoedd torri cig, sefydliadau trin anifeiliaid hela a marchnadoedd cig. | Cymru a Lloegr: ASB ac awdurdodau lleol<br><br>Yr Alban: FSS<br><br>Gogledd Iwerddon: ASB, a ddarperir drwy'r Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) | Milfeddygon Swyddogol, Arolygwyr Hylendid Cig a Swyddogion Diogelwch Bwyd/ Swyddogion Cyfraith Bwyd, gan gynnwys Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd |
| **Sefydliadau llaeth:** mae'r rhain yn cynnwys ffermydd a ffatrïoedd cynhyrchu sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion llaeth. | Cymru a Lloegr: ASB/ awdurdodau lleol<br><br>Yr Alban: awdurdodau lleol<br><br>Gogledd Iwerddon: ASB, a ddarperir drwy DAERA | Arolygwyr Hylendid Llaeth, Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd/Swyddogion Cyfraith Bwyd (yn yr Alban) |
| **Sefydliadau bwyd anifeiliaid:** mae'r rhain yn cynnwys cyflenwyr cyfanwerthu a gweithgynhyrchwyr cynhyrchion bwyd anifeiliaid. | Cymru a Lloegr: awdurdodau lleol<br><br>Yr Alban: FSS<br><br>Gogledd Iwerddon: DAERA | Swyddogion Bwyd Anifeiliaid |

# Hylendid mewn sefydliadau bwyd

I'r cyhoedd, mae gwybodaeth am y safonau hylendid mewn caffis, bwytai a busnesau eraill sy'n gweini ac yn paratoi bwyd wedi'i chynnwys mewn dau gynllun sgorio cenedlaethol: y **Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)** sydd ar waith yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon; a'r **Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd (FHIS)** sydd ar waith yn yr Alban.[27] Mae'r ddau gynllun yn dangos y canlyniadau o ran hylendid a gafwyd yn ystod yr arolygiadau diweddaraf a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol, a hynny er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus wrth fwyta allan neu brynu bwyd.

Yn ôl y data cyhoeddedig diweddaraf o fis Rhagfyr 2023, ychydig iawn o newid a fu o flwyddyn i flwyddyn o ran cydymffurfiaeth hylendid yn y busnesau hyn, gyda mwy na naw o bob deg yn ennill sgôr o 3 neu well ar gyfer y CSHB neu ddyfarniad 'Pasio' ar gyfer yr FHIS[28], [29] (Ffigur 18). Enillodd ychydig dros dri chwarter (76.1%) o fusnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sgôr uchaf o 5, wrth i 3.1% o sefydliadau bwyd gael sgôr o 2 neu is, sy'n golygu bod angen iddynt wella ac y byddant yn cael yr arweiniad i wella – mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r data o flynyddoedd blaenorol (Ffigur 19).

**Ffigur 18: Canran y busnesau bwyd yn y DU a gafodd sgôr o '3 – boddhaol ar y cyfan' neu well (CSHB) neu ddyfarniad 'Pasio' (FHIS) ym mis Rhagfyr 2023[30]**




Sylwer: Mae ffigurau mewn cromfachau yn dangos y gwahaniaeth canrannol o gymharu â 2022.
Ffynhonnell: ASB – data CSHB ac FSS – data FHIS

**Ffigur 19: Dosbarthiad canrannol sgoriau diweddaraf y CSHB ym mis Rhagfyr 2023**

| Sgôr CSHB | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 0.18% (-0.01%) | 1.42% (+0.03%) | 1.50% (+0.06%) | 6.11% (-0.29%) | 14.66% (-0.47%) | 76.13% (+0.68%) |
| Cymru | 0.15% (-0.03%) | 1.70% (+0.10%) | 1.39% (+0.03%) | 6.73% (-0.69%) | 17.57% (-0.73%) | 72.46% (+1.32%) |
| Gogledd Iwerddon | 0.01% (-0.01%) | 0.46% (+0.17%) | 0.75% (+0.09%) | 3.58% (+0.34%) | 12.48% (-0.12%) | 82.72% (-0.46%) |

Mae'r niferoedd mewn cromfachau yn cyfateb i newid canrannol o 2022.
Ffynhonnell: ASB – data CSHB
*Sylwer: Mae'r rhifau mewn cromfachau yn cyfateb i'r newid canrannol o gymharu â 2022.*

Yn ogystal, o dan System Sgorio Cyfraith Bwyd (FLRS) yr Alban, mae busnesau hefyd yn cael asesiad cyffredinol erbyn hyn o'u cydymffurfiaeth gyfreithiol â chyfraith bwyd, sy'n dwyn ynghyd ganlyniadau'r gwiriadau hylendid a safonau bwyd a gynhelir gan awdurdodau lleol. Ar gyfer y busnesau hynny sydd wedi mynd drwy'r broses hon, aseswyd bod 98.4% yn cydymffurfio'n gyfreithiol ym mis Rhagfyr 2023 (Ffigur 20).[31],[32]

**Ffigur 20: Canran y busnesau bwyd a oedd yn destun arolygiad yn yr Alban a oedd yn cydymffurfio â'r FLRS* yn 2022 a 2023**

| Blwyddyn | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Canran y busnesau bwyd sy'n cydymffurfio | 98.4% | 97.0% |

* Diffiniad 'cydymffurfio' yn ôl yr FLRS yw unrhyw fusnes bwyd sydd â sgôr A–C yn dilyn arolygiad.[33]
Ffynhonnell: FSS – Cronfa Ddata Genedlaethol yr Alban (SND)

Ar yr wyneb, dylai'r ffigurau hyn roi cryn dipyn o sicrwydd i'r cyhoedd, gan mai'r awgrym yw bod y mwyafrif llethol (502,000 allan o 519,000 o fusnesau â sgôr) o leoliadau bwyta sydd wedi'u harolygu neu eu harchwilio yn y DU wedi cael dyfarniad boddhaol neu well ar gyfer eu safonau hylendid.

Fodd bynnag, mae cafeat pwysig. Mae'r holl sgoriau hylendid bwyd cyhoeddedig yn seiliedig ar yr ymyriadau diwethaf a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu bod angen digon o gapasiti ar dimau awdurdodau lleol i ymgymryd â gweithgarwch (fel arolygiadau ac archwiliadau) ar yr amlder gofynnol, yn unol â risg y busnes.

Yn ystod y pandemig, cafodd llawer o staff timau bwyd awdurdodau lleol eu dargyfeirio i waith brys arall. Ar sail canllawiau gan yr ASB ac FSS, gwnaeth awdurdodau lleol sicrhau bod y busnesau hynny sy'n cynnal gweithgareddau risg uwch yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau a bod amlder yr ymyriadau hyn yn cael ei gynnal.[34] Yn dilyn y pandemig, mae'r



awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â nifer yr arolygiadau sydd wedi cronni mewn busnesau risg is.

Er bod y lefelau staffio mewn awdurdodau lleol yn debyg i'r lefelau staffio yn union cyn y pandemig, rydym yn gwybod nad yw hyn wedi bod yn ddigon i ddal i fyny â'r nifer fawr o arolygiadau hwyr. Mae nifer y sgoriau a gyhoeddwyd bob chwarter yn 2023 wedi gwastatáu ers cynyddu yn 2022 (Ffigur 21), ond mae nifer mawr o arolygiadau hwyr o hyd.[35] Mae tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu bod y gweithlu cyffredinol yn colli staff mwy profiadol a'i bod yn anodd recriwtio staff newydd, fel y trafodwn yn ddiweddarach yn y bennod[36] (tudalen 60).

Erbyn diwedd 2023, roedd 39,000 o fusnesau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn aros am eu harolygiad cyntaf o dan y CSHB. Er bod y ffigur hwn wedi gostwng ers y pandemig, pan oedd dros 65,000 o fusnesau'n aros am eu harolygiad cyntaf, mae'r ffigur yn dal i fod dros ddwywaith yn uwch nag oedd ef cyn y pandemig ym mis Mawrth 2020 (ychydig dros 16,000).


Yn yr Alban, mae ein dadansoddiad yn dangos y bu cynnydd cychwynnol yn nifer yr asesiadau FHIS a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2023, cyn i'r nifer ostwng rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2023 (Ffigur 22). Yn sicr, mae nifer cyffredinol yr asesiadau a gynhelir yn parhau i fod islaw'r lefel cyn y pandemig, sydd wedi cyfrannu at nifer yr arolygiadau hwyr.

Allan o'r 78,652 o fusnesau bwyd cofrestredig yn yr Alban a oedd yn masnachu yn 2023, dyfarnwyd sgôr risg i 23.4% (18,375) ohonynt o leiaf unwaith gan ddefnyddio naill ai gyfundrefnau sgorio risg yr FLRS neu Atodiad 5.[37] Er nad yw pob busnes yn cael arolygiad bob blwyddyn, mae 23% yn nodi canran isel ar gyfer ymweliadau â busnesau er mwyn cynnal y gofynion o ran amlder yr ymyriadau.




Byddwn yn ystyried rhai o'r materion o ran galw ac adnoddau a oedd wrth wraidd y ffigurau hyn yn nes ymlaen yn y bennod (tudalen 59).


**Ffigur 21: Nifer y busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2023/24[38]**




Sylwer: Ch1 – Ebrill, Mai, Mehefin; Ch2 – Gorffennaf, Awst, Medi; Ch3 – Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; Ch4 – Ionawr, Chwefror, Mawrth.

Ffynhonnell: ASB – data CSHB

**Ffigur 22: Nifer yr asesiadau FHIS a gynhaliwyd mewn busnesau bwyd yn yr Alban, fesul chwarter, rhwng 2019/20 a 2023/2024**




Sylwer: Ch1 – Ebrill, Mai, Mehefin; Ch2 – Gorffennaf, Awst, Medi; Ch3 – Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; Ch4 – Ionawr, Chwefror, Mawrth.

Ffynhonnell: FSS – data FHIS



# Hylendid mewn sefydliadau cig cymeradwy

Mae pob un o’r 980 o sefydliadau cig a gymeradwyir gan yr ASB ac FSS yn y DU,[39] sy’n cynnwys lladd-dai, sefydliadau trin anifeiliaid hela, ffatrïoedd torri cig a marchnadoedd cyfanwerthu cig, yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod ein cadwyn cyflenwi bwyd yn gweithredu. Mae pob un yn destun archwiliadau ar sail risg i wirio eu bod yn bodloni safonau hylendid, iechyd a lles anifeiliaid.

Fel sy’n wir am sgoriau’r CSHB a’r FHIS, dim ond ciplun o’r lefelau cydymffurfio y gall ein data ei ddarparu ar sail yr archwiliadau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer busnesau cig ar ddiwedd pob blwyddyn galendr. Mae yna hefyd wahaniaethau yn amlder a natur yr archwiliadau hyn ledled y DU, sy’n golygu na allwn gymharu canlyniadau’n uniongyrchol rhwng pedair gwlad y DU.

Mae’r ffigurau diweddaraf ar gyfer mis Rhagfyr 2023 yn dangos bod gan bob sefydliad yng Ngogledd Iwerddon, a’r mwyafrif o’r sefydliadau yng Nghymru[40] Lloegr a’r Alban safonau hylendid da neu foddhaol ar y cyfan yn ôl eu harchwiliad diweddaraf, sy’n awgrymu bod y mwyafrif helaeth o sefydliadau’n gweithredu’n ddiogel (Ffigur 23).


Ers y llynedd, bu cynnydd ymylol (0.42 pwynt canrannol) yn y busnesau sydd wedi cael sgôr ‘Angen gwella’ neu ‘Angen gwella ar frys’ yng Nghymru a Lloegr (Ffigur 24).[41] Fodd bynnag, mae’r niferoedd yn parhau’n isel ac, mewn achosion o’r fath, cyhoeddir canllawiau priodol a/neu gamau gorfodi fel mater o drefn i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio eto.

**Ffigur 23: Canran y sefydliadau cig a gafodd sgôr ‘Da’ neu ‘Boddhaol ar y cyfan’ o ran hylendid yn 2023**

| Gwlad | Canran y sefydliadau cig a gafodd sgôr ‘Da’ neu ‘Boddhaol’ o ran hylendid yn 2023 | Newid pwynt canrannol o 2022 |
|---|---|---|
| Cymru a Lloegr | 99.0% | -0.3% |
| Gogledd Iwerddon | 100.0% | 0.0% |
| Yr Alban | 97.5% | -0.9% |

Ffynhonnell: ASB/FSS - Data arolygu sefydliadau cig

**Ffigur 24: Dadansoddiad o'r sgoriau cydymffurfio o ran hylendid ar gyfer sefydliadau cig cymeradwy a'r newid canrannol o gymharu â 2022 mewn cromfachau**




Sylwer: Mae ffigurau mewn cromfachau yn cyfeirio at y newid canrannol yn erbyn data 2022. Efallai na fydd y cyfansymiau yn dod i 100% oherwydd talgrynnu.

Ffynhonnell: ASB/FSS - Data arolygu sefydliadau cig

# Cydymffurfiaeth hylendid wrth gynhyrchu llaeth

Mae ein dadansoddiad hefyd yn dangos lefelau uchel a sefydlog o gydymffurfio mewn sefydliadau llaeth ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, sy'n cyfrannu at yr 14.9 biliwn litr o laeth a gynhyrchir yn y DU bob blwyddyn.[42]

Oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y caiff busnesau llaeth eu harolygu ledled y DU, nid oes gennym ddata o'r Alban ar gyfer adroddiad eleni. Fodd bynnag, ar gyfer y rhannau hynny o'r wlad lle mae gennym ffigurau diweddaredig, mae'r data diweddaraf yn dangos bod bron pob fferm laeth yn cydymffurfio ar hyn o bryd.


Yng Nghymru a Lloegr, roedd 98.5% o sefydliadau llaeth wedi ennill sgôr 'Da' neu 'Boddhaol ar y cyfan' o ran cydymffurfiaeth hylendid ym mis Rhagfyr 2023, ac yng Ngogledd Iwerddon, y cyfraddau cydymffurfio oedd 99.3%. Ar draws yr 8,844 o sefydliadau llaeth ym mhob un o'r tair gwlad, ni fu fawr ddim newid, os o gwbl, yn y lefelau cydymffurfio cyffredinol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Ffigur 25 a Ffigur 26.)

**Ffigur 25: Canran y sefydliadau llaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a gafodd y canlyniadau uchaf, sef 'Da' neu 'Boddhaol ar y cyfan'**

| Gwlad | Canran y sefydliadau llaeth a gafodd sgôr 'Da' neu 'Boddhaol ar y cyfan' | Newid pwynt canrannol o 2022 |
|---|---|---|
| Cymru a Lloegr | 98.4% | +0.4% |
| Gogledd Iwerddon | 99.3% | +0.1% |

Ffynhonnell: ASB/DAERA – Data arolygu sefydliadau llaeth

**Ffigur 26: Dadansoddiad o'r sgoriau cydymffurfio o ran hylendid ar gyfer sefydliadau cig o ddata arolygiadau**




Sylwer: Mae ffigurau mewn cromfachau yn cyfeirio at y newid canrannol yn erbyn data 2022. Efallai na fydd y cyfansymiau yn dod i 100% oherwydd talgrynnu.

Ffynhonnell: ASB/DAERA – Data arolygu ffermydd llaeth



# Cydymffurfiaeth hylendid mewn sefydliadau bwyd anifeiliaid

Gall methiannau o ran hylendid a diogelwch mewn bwyd anifeiliaid beri risgiau sylweddol i iechyd pobl. Felly, mae'n rhaid i fusnesau bwyd anifeiliaid fodloni gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â hylendid, olrheiniadwyedd, labelu, cyfansoddiad, a sylweddau annymunol, y gall pob un ohonynt effeithio ar ansawdd a diogelwch y gadwyn fwyd ehangach.

Gan ystyried safonau hylendid yn benodol, gostyngodd y lefelau cydymffurfio o fewn sefydliadau bwyd anifeiliaid ar draws rhannau helaeth o'r DU yn 2022/23. Nododd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ostyngiad yng nghanran y busnesau a gafodd sgoriau boddhaol neu well o gymharu â 2021/22 (Ffigur 27).[43]

Gall methiannau o ran hylendid a diogelwch mewn bwyd anifeiliaid beri risgiau sylweddol i iechyd pobl. Felly, mae'n rhaid i fusnesau bwyd anifeiliaid fodloni gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â hylendid, olrheiniadwyedd, labelu, cyfansoddiad, a sylweddau annymunol, y gall pob un ohonynt effeithio ar ansawdd a diogelwch y gadwyn fwyd ehangach.

Gan ystyried safonau hylendid yn benodol, gostyngodd y lefelau cydymffurfio o fewn sefydliadau bwyd anifeiliaid ar draws rhannau helaeth o'r DU yn 2022/23. Nododd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ostyngiad yng nghanran y busnesau a gafodd sgoriau boddhaol neu well o gymharu â 2021/22 (Ffigur 27).

**Ffigur 27: Canran y sefydliadau bwyd anifeiliaid yr aseswyd eu bod yn cydymffurfio â safonau hylendidl[44]**

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru** | **79.1%** | Llwyddodd 79.1% o sefydliadau bwyd anifeiliaid i gael sgôr gydymffurfiaeth foddhaol o leiaf yn 2023 – sef gostyngiad o 9.9% o gymharu â 2022. |
| **Lloegr** | **95.2%** | Llwyddodd 95.2% o sefydliadau bwyd anifeiliaid i gael sgôr gydymffurfiaeth foddhaol o leiaf yn 2023 – sef gostyngiad o 1.7% o gymharu â 2022. |
| **Gogledd Iwerddon** | **97.1%** | Llwyddodd 97.1% o sefydliadau bwyd anifeiliaid i gael sgôr gydymffurfiaeth foddhaol o leiaf yn 2023 – sef gostyngiad o 2.2% o gymharu â 2022. |
| **Yr Alban** | **98.9%** | Llwyddodd 98.9% o sefydliadau bwyd anifeiliaid i gael sgôr gydymffurfiaeth foddhaol o leiaf yn 2023 – sef cynnydd o 1.2% o gymharu â 2022. |

Sylwer: Mae data diweddaraf o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dangos yr arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r data diweddaraf o'r Alban yn seiliedig ar flwyddyn galendr 2023.

Ffynhonnell: ASB/FSS/DAERA – Data arolygu sefydliadau bwyd anifeiliaid

# Heriau o ran capasiti a gallu

Mae'r gallu i orfodi safonau yn y gadwyn fwyd yn dibynnu ar fod â digon o staff â chymwysterau, yn ogystal â phrofiad addas, i gynnal arolygiadau a gweithio gyda busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid i gynnal arferion hylendid da.

Yn adroddiad y llynedd, gwnaethom dynnu sylw at ddau faes penodol a oedd yn peri pryder yn y gadwyn fwyd, sef y gostyngiadau hirdymor yn nifer y swyddi diogelwch bwyd mewn awdurdodau lleol, a'r anawsterau diweddarach y mae'r ddwy asiantaeth fwyd genedlaethol wedi'u profi o ran recriwtio a chadw milfeddygon swyddogol. Dyma roi diweddariad ar y sefyllfa.

## Adnoddau awdurdodau lleol

Mae dadansoddiad o'r data diweddaraf ynghylch y gweithlu gan awdurdodau lleol ar gyfer hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dangos mai ychydig o newid ystyrlon sydd wedi bod yn yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael i gynnal rheolaethau hylendid bwyd ers y llynedd.[45]

Mae nifer y swyddi hylendid bwyd a ddyrannwyd wedi aros yn weddol sefydlog (1,644 ym mis Mawrth 2023 a 1,620 ym mis Hydref 2023), a gwnaeth nifer y swyddi heb eu llenwi ostwng ychydig (178 ym mis Mawrth 2023 a 155 ym mis Hydref 2023). Serch hynny, mae nifer y swyddi gwag wedi aros yr un fath â'r lefelau hynny a nodwyd cyn y pandemig, neu wedi cynyddu (Ffigur 28 a Ffigur 29).

Yn y cyfamser, gwnaeth nifer y swyddogion safonau masnach, sy'n gwirio cyfansoddiad a chynnwys maethol bwyd a chywirdeb labelu mewn llawer o awdurdodau lleol, gynyddu ychydig yn ystod 2023, er bod cyfran uwch o swyddi heb eu llenwi yn dal i fod o gymharu â chyn y pandemig (Ffigur 30 a Ffigur 31). Mae gwiriadau gan swyddogion safonau masnach yn hanfodol er mwyn brwydro yn erbyn cynhyrchion bwyd ffug neu annilys, neu gynhyrchion sydd wedi'u labelu'n anghywir a allai gyrraedd ein cadwyn fwyd. Trafodir hyn yn fanylach yn y bennod nesaf (tudalen 84).

Mae'r niferoedd hyn yn golygu bod tua un o bob deg o swyddi rheoleiddiol awdurdodau lleol ar gyfer Swyddogion Gorfodi Bwyd (gan gynnwys Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Swyddogion Safonau Masnach) yn dal i fod heb eu llenwi. Wrth ystyried y ffaith bod lefel yr adnoddau wedi adfer ychydig bach gan gyrraedd lefel yr adnoddau cyn y pandemig, ni ddylid anghofio bod nifer cyffredinol y bobl sy'n gwneud y swyddi hyn, a nifer cyffredinol y swyddi a neilltuwyd i'r gwaith hwn gan awdurdodau lleol, wedi gostwng yn sylweddol dros gyfnod hirach (Ffigur 28 a Ffigur 29). Mae colli gweithwyr proffesiynol profiadol yn golygu bod llai o arbenigedd ar gael, sy'n effeithio ar y cymorth sydd ei angen ar brentisiaid a gweithwyr proffesiynol ar ddechrau eu gyrfa.[46]

At ei gilydd, roedd 147 yn llai o swyddogion hylendid bwyd cyfwerth ag amser llawn (CALl) (gostyngiad o 9.1%, o 1,612 i 1,465) a 182 yn llai o swyddogion safonau masnach CALl (gostyngiad o 32.5%, o 560 i 378) yn gweithio mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mis Hydref 2023 nag oedd ddegawd yn ôl yn 2012/13. Er mai dim ond data busnes o fis Mawrth 2023 sydd gennym ni, roedd nifer y busnesau yr oedd angen arolygiadau hylendid arnynt wedi codi 5.7% ers mis Mawrth 2013.

O ganlyniad, rydym yn amcangyfrif y gallai'r swyddog hylendid bwyd arferol fod wedi gweld cynnydd o tua 10% yn ei lwyth achosion yn ystod y degawd diwethaf (gweler Atodiad 5, Ffigurau 13–15 ar gyfer dadansoddiadau fesul gwlad).[47] Mae hynny cyn y gwaith ychwanegol sydd ei angen i leihau nifer yr arolygiadau hwyr. Mae hyn yn bwysig am sawl rheswm.

Gallwn weld o'r data y mae'r ASB yn ei gasglu gan awdurdodau lleol nad yw timau bwyd wedi gallu ymdrin hyd yma â llawer o'r arolygiadau hwyr sydd wedi cronni ers y pandemig. Mae'r data diweddaraf a gasglwyd yn ail hanner 2023/24 ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dangos bod 51.9% o'r ymyriadau dyledus ar gyfer y cyfnod hwn (sy'n cynnwys arolygiadau) wedi'u cyflawni. Mae hyn yn golygu na chynhaliwyd 48.1% o'r ymyriadau (tua 101,000) a oedd yn ddyledus ar gyfer y cyfnod chwe mis hwn. Mae mwyafrif helaeth yr ymyriadau sy'n hwyr ar gyfer busnesau yn y categorïau risg canolig ac is. Cafodd 98% o'r ymyriadau mewn busnesau risg uchel (categorïau A a B) eu cynnal yn brydlon, a dim ond 231 o fusnesau yn y categorïau hynny sy'n hwyr yn cael ymyriad.[48]

Er bod angen gofal wrth gymharu blynyddoedd rhannol â blynyddoedd llawn, mae cyfran yr ymyriadau dyledus a ddarperir yn gyffredinol yn llawer is na'r lefelau cyn y pandemig, lle darparwyd 85% o'r ymyriadau dyledus ym mlwyddyn ariannol 2019/20. Mae awdurdodau lleol, yn ddoeth iawn, wedi canolbwyntio ar y safleoedd risg uwch, ond wrth reswm mae hyn yn golygu y bu bylchau sylweddol rhwng arolygiadau ar gyfer llawer o fusnesau bwyd a oedd mewn categorïau risg ganolig neu isel yn ystod eu harolygiad diwethaf, a gallai rhai ohonynt fod wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd ers hynny.


Yn ail, wrth i awdurdodau lleol geisio clirio'r ôl-groniad o arolygiadau hwyr ers y pandemig, mae eu llwyth gwaith cyffredinol hefyd wedi cynyddu. Roedd 580,000 o fusnesau bwyd cofrestredig ar ddiwedd 2023/24, o gymharu â 568,000 flwyddyn ynghynt. Mae rhai awdurdodau lleol wedi nodi anawsterau penodol o ran bod ar y blaen gyda nifer y cofrestriadau ar gyfer busnesau bwyd newydd. Mae hyn i'w weld wrth ystyried y 39,000 o fusnesau sy'n aros am eu harolygiad cyntaf yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae rhai swyddogion hefyd yn cael eu tynnu i feysydd eraill fel iechyd a diogelwch, trwyddedu ac ymatebion brys lleol i lenwi bylchau eraill yn adnoddau awdurdodau lleol, gan waethygu'r prinder adnoddau.[49]

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod timau hylendid bwyd ar draws y DU ar hyn o bryd yn gweithio dan bwysau sylweddol a pharhaus. Ein pryder yw bod hyn yn debygol o waethygu'r materion presennol o ran cadw staff presennol ac annog newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn.

Er bod y dadansoddiad uchod yn gyfyngedig i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r dystiolaeth yn adroddiad y llynedd yn dangos sefyllfa debyg yn yr Alban. Ni fydd Cymdeithas y Prif Swyddogion yn yr Alban yn cwblhau ei harolwg blynyddol diweddaraf o'r gweithlu ar gyfer 2023 tan yn ddiweddarach yn 2024.

Rhan o'r ateb yw sicrhau y gall awdurdodau lleol wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddynt, drwy gynnal rheolaethau sy'n fwy seiliedig ar risg a chymesur a thrwy gynyddu'r defnydd o ddata a chudd-wybodaeth. Fodd bynnag, o ystyried y cynnydd yn y llwyth gwaith, mae'r ASB ac FSS yn credu bod angen buddsoddi ymhellach mewn adnoddau timau bwyd awdurdodau lleol, a hynny ar frys, er mwyn cynnal cyfreithiau bwyd a diogelu defnyddwyr.

**Ffigur 28: Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon[50]**




* Ffigur yn seiliedig ar ddatganiad hanner blwyddyn.


Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALl hunan-gofnodedig o awdurdodau lleol[51]

### Ffigur 29: Canran y swyddi (CALI) ym maes hylendid bwyd heb eu llenwi mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

| Blwyddyn | Cymru | Lloegr | Gogledd Iwerddon | At ei gilydd |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 9.7% | 8.7% | 9.7% | 8.8% |
| 2019/20 | 6.9% | 10.1% | 4.9% | 9.6% |
| 2020/21 | 65.5% | 58.4% | 25.4% | 57.7% |
| 2021/22 | 27.7% | 12.0% | 15.3% | 13.7% |
| 2022/23 | 12.7% | 11.0% | 13.8% | 11.1% |
| 2023/24* | 11.0% | 9.3% | 11.5% | 9.6% |

* Ffigur yn seiliedig ar ddatganiad hanner blwyddyn.
Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALI hunan-gofnodedig o awdurdodau lleol

### Ffigur 30: Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI) ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon




* Ffigur yn seiliedig ar ddatganiad hanner blwyddyn.
Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALI hunan-gofnodedig o awdurdodau lleol

**Ffigur 31: Canran y swyddi (CALI) ym maes safonau bwyd heb eu llenwi mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**

| Blwyddyn | Cymru | Lloegr | Gogledd Iwerddon | At ei gilydd |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 8.9% | 9.6% | 9.1% | 9.0% |
| 2019/20 | 6.0% | 7.3% | 2.9% | 6.5% |
| 2020/21 | 63.5% | 48.1% | 25.0% | 48.1% |
| 2021/22 | 16.7% | 9.7% | 15.2% | 10.9% |
| 2022/23 | 8.6% | 9.7% | 15.2% | 10.0% |
| 2023/24* | 9.1% | 13.6% | 10.0% | 12.9% |

* Ffigur yn seiliedig ar ddatganiad hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALI hunan-gofnodedig o awdurdodau lleol

## Camau gweithredu i gefnogi awdurdodau lleol

Mae'r heriau ariannol a wynebir gan rai awdurdodau lleol yn ymestyn y tu hwnt i gyfrifoldeb yr ASB ac FSS. Fodd bynnag, mae'r ddwy asiantaeth yn parhau i gydweithio ag adrannau llywodraeth eraill, cyrff proffesiynol, awdurdodau lleol a phartneriaid allanol i sicrhau bod rheoleiddio'n parhau mor effeithiol â phosib ac i fynd i'r afael â'r heriau o ran sicrhau gweithlu ar gyfer y dyfodol.

### Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau yr ASB

Ym mis Mehefin 2023, gwnaeth yr ASB gyhoeddi model newydd ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon wrth iddynt gynnal rheolaethau safonau bwyd (hynny yw, y gwiriadau a gynhelir ar gyfansoddiad a labelu bwyd). Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i ddefnyddio dull arolygu sy'n fwy seiliedig ar risg ac sy'n cael ei yrru gan gudd-wybodaeth. Bydd yn arwain at wiriadau mwy niferus ar fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio, a hynny wrth leihau'r gwiriadau ar fusnesau sydd â lefelau da o gydymffurfiaeth barhaus. Bydd yn galluogi awdurdodau lleol i weithredu yn y cam cywir o'r gadwyn gyflenwi, er enghraifft targedu'r gweithgynhyrchwr, yn hytrach nag mewn sawl siop fanwerthu. Mae saith awdurdod lleol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon eisoes wedi treialu'r dull newydd yn llwyddiannus, a bydd awdurdodau eraill yn dechrau symud draw at y dull newydd dros y flwyddyn nesaf. Yng Nghymru, cynhaliwyd cynllun peilot rhwng mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024.

Ymatebodd yr ASB hefyd i ganfyddiadau ymchwil a gomisiynwyd y llynedd ar yr heriau a wynebir gan awdurdodau lleol wrth recriwtio a chadw swyddogion i gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol, cyrff proffesiynol ac eraill ar hyn. Er enghraifft, mae'r ASB wedi partneru â'r Sefydliad Siartredig Safonau Masnach a Grŵp Arloeswyr (sy'n cynrychioli cyflogwyr yn y proffesiwn) i gydnabod cynllun prentisiaeth Ymarferwyr Safonau Masnach Lefel 6. Mae bron i 100 o brentisiaid wedi ymuno â'r cynllun hyd yn hyn, gyda'r rhan fwyaf yn arbenigo mewn bwyd a bwyd anifeiliaid.

### Rhaglen FSS ar gyfer Ailadeiladu Gwaith Gorfodi Bwyd Awdurdodau'r Alban (SAFER)

Mae FSS yn parhau i ddatblygu rhaglen foderneiddio o fewn Cyfraith Bwyd. Bwriad y rhaglen hon yw cynyddu adnoddau, lleihau galw, gwella effeithlonrwydd a datblygu atebion digidol, a hynny er mwyn cefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt gynnal rheolaethau swyddogol. Mae FSS yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws Cyfarwyddiaethau Llywodraeth yr Alban i nodi adnoddau i alluogi'r rhaglen i gael ei chyflwyno. Wrth i adnoddau priodol gael eu nodi, mae gwaith yn parhau ar ddatblygu'r rhaglen ymhellach. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymchwil gan gynnwys ymarfer mesur amser manwl a chyfrifiannell adnoddau i gadarnhau'n fanylach yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer rheoleiddio cyfraith bwyd, a mentrau i alluogi swyddogion o gefndiroedd eraill i gynnal rhai rheolaethau swyddogol.

## Adnoddau milfeddygon swyddogol

Mae milfeddygon swyddogol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cig a gynhyrchir mewn lladd-dai neu ffatrïoedd prosesu yn cael ei drin yn ddiogel, yn unol â chyfreithiau perthnasol, a'i fod yn bodloni gofynion lles anifeiliaid. Fel yr amlygwyd gennym yn *Ein Bwyd 2022*, mae'r proffesiwn milfeddygol cyfan yn wynebu heriau o ran adnoddau, sy'n cael sgil-effeithiau difrifol ar recriwtio milfeddygon swyddogol. Mae sector cig y DU werth tua £11.2 biliwn mewn gwerthiannau domestig ac allforio, gydag 1.2 biliwn o anifeiliaid yn cael eu lladd yn 2023.[52],[53],[54] Os na fydd y sefyllfa'n cael sylw, gallai'r diffygion mewn adnoddau darfu'n sylweddol ar y sector – er enghraifft, pe na bai lladd-dai'n gallu agor – ac ar y gadwyn cyflenwi bwyd yn fwy cyffredinol.

### Rôl milfeddygon swyddogol yn y gadwyn cyflenwi cig

Mae milfeddygon swyddogol yn gweithio ar y cyd ag arolygwyr hylendid cig i sicrhau diogelwch ac ansawdd y bwyd a gynhyrchir mewn lladd-dai ledled y DU. Yn ogystal â gwirio iechyd a lles anifeiliaid byw cyn ac wrth eu lladd, ac archwilio'r carcasau wedi hynny, mae milfeddygon swyddogol hefyd yn adolygu'r adroddiadau a gwblheir gan arolygwyr hylendid cig yn dilyn arolygiadau dirybudd mewn ffatrïoedd torri cymeradwy ac ymweliadau sicrwydd lles anifeiliaid mewn lladd-dai cymeradwy. Felly, maen nhw'n chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu diogelwch a sicrwydd bwyd i ddefnyddwyr, ac iechyd a lles anifeiliaid ar gyfer y gymdeithas.

Yn hollbwysig, mae'n rhaid i filfeddygon swyddogol fod yn bresennol er mwyn i ladd-dai weithredu'n gyfreithlon yn y DU, gan eu bod yn chwarae rhan hanfodolwrth nodi clefydau neu gyflyrau a allai effeithio ar iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid. Cafodd clwy'r traed a'r genau, er enghraifft, ei ganfod yn wreiddiol mewn lladd-dy yn 2001.

Fel y nodir yn *Ein Bwyd 2022*, er bod yr ASB ac FSS yn wahanol o ran eu dull o recriwtio milfeddygon swyddogol, mae'r ddau sefydliad yn parhau i wynebu anawsterau oherwydd heriau cyflenwi. Yn yr Alban, mae ffigurau FSS yn dangos bod nifer y milfeddygon swyddogol mewn swyddi ym mis Rhagfyr 2023 yn cyfateb i 82% o'r capasiti angenrheidiol er mwyn gallu cynnal rheolaethau swyddogol.[55] O ganlyniad, mae rhywfaint o oedi wedi bod yn barod o ran cynhyrchu cig ar rai safleoedd wrth geisio dod o hyd i filfeddygon swyddogol. Er bod defnyddio staff asiantaeth yn yr Alban wedi helpu i gryfhau capasiti a lleihau aflonyddwch, nid yw hwn yn ateb hirdymor gan nad yw'n mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol yn nifer y bobl sy'n ymgymryd â swyddi milfeddygol ym maes iechyd y cyhoedd.

Amlygodd adroddiad y llynedd y ddibyniaeth ar gynllun Cofrestru Dros Dro Coleg Brenhinol y Milfeddygon i helpu i greu llwybr ar gyfer milfeddygon swyddogol y dyfodol. Gwnaeth yr ASB barhau i leihau ei dibyniaeth ar Filfeddygon Swyddogol Newydd wedi'u Cofrestru Dros Dro

(TRNOVs) cyn i'r cynllun ddod i ben ym mis Rhagfyr 2024, gyda'r ganran a ddefnyddiwyd yn gostwng o 33% ym mis Mehefin 2023 i 17% ym mis Rhagfyr 2023.

Yn ystod 2023, cymerodd yr ASB, ei phartner darparu gwasanaethau ac FSS gamau pellach i liniaru'r heriau hyn o ran adnoddau. Roedd y mesurau'n cynnwys addasu tâl ac amodau, ailwampio rhaglenni hyfforddi, ac ymgysylltu â cholegau milfeddygol y DU i annog mwy o raddedigion i ymuno â'r proffesiwn. Gwnaeth yr ASB a'i chyflenwyr hefyd greu llwybrau recriwtio amgen, gan gynnwys llwybr hyfforddi i filfeddygon o dramor, sy'n dod o brifysgolion sydd wedi'u hachredu gan EAEVE, er mwyn iddynt gynnal rheolaethau swyddogol ar gig wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith a dod yn filfeddygon swyddogol cymwys.

Fodd bynnag, nid yw'r mentrau hyn yn ddigon i fynd i'r afael â'r diffyg milfeddygon swyddogol, sy'n parhau i fod yn bryder difrifol i'r ASB ac FSS. Yn 2024, gwnaeth llywodraeth y DU gyflwyno trothwyon newydd o ran y cyflog y mae'n rhaid ei ennill er mwyn bod yn gymwys ar gyfer fisa. Gan gofio bod 99% o'r milfeddygon swyddogol sy'n gweithio mewn lladd-dai yn dod o dramor,[56] gallai hyn effeithio ar gynnydd o ran y llwybrau confensiynol ar gyfer recriwtio a hyfforddi milfeddygon swyddogol. Yn ogystal, disgwylir i'r trothwyon cyflog hyn gynyddu costau i'r diwydiant cig, sy'n talu canran o'r costau gwasanaeth – gallai hyn, yn ei dro, arwain at brisiau uwch i ddefnyddwyr. Mae sicrhau bod gennym ddigon o filfeddygon swyddogol a llwybrau digonol ar gyfer swyddi yn y dyfodol yn hanfodol i ddiogelu'r cyhoedd ac atal amharu ar y gadwyn cyflenwi bwyd.



# I grynhoi

- Ar hyn o bryd, mae gan naw o bob deg busnes bwyd ledled y DU sy'n agored i'r CSHB ac FHIS sgôr foddhaol neu well ar gyfer hylendid bwyd. Mae heriau o ran capasiti mewn awdurdodau lleol ac ôl-groniadau sylweddol o arolygiadau, a waethygwyd gan niferoedd cynyddol o fusnesau newydd, yn golygu bod rhai sgoriau'n debygol o ymwneud â data arolygu hŷn. Felly, mae'n bosib nad ydynt o reidrwydd yn dangos y darlun diweddaraf o safonau hylendid bwyd.

- Gwnaeth bron pob sefydliad cig yn y DU a sefydliadau llaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gyrraedd lefelau cydymffurfio boddhaol neu well mewn perthynas â hylendid, sy'n awgrymu bod safonau hylendid yn parhau'n sefydlog ac yn uchel ar draws y busnesau hyn.

- Gostyngodd cyfraddau cydymffurfio ar gyfer busnesau bwyd anifeiliaid ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gyda'r gostyngiad mwyaf mewn cydymffurfiaeth ymhlith busnesau bwyd anifeiliaid Cymru. Bydd angen monitro'r sefyllfa wrth i awdurdodau lleol weithio i helpu'r busnesau hyn i ddychwelyd i'r safonau.

- Mae'r ASB ac FSS yn parhau i bryderu am y gostyngiadau parhaus yn yr adnoddau sydd ar gael i gynnal y gwiriadau a'r ymyriadau hanfodol. Gwaethygir hyn gan gynnydd yn y llwyth gwaith dros y degawd diwethaf.

- Mae'r heriau o ran recriwtio a chadw digon o filfeddygon swyddogol ac arolygwyr hylendid cig i oruchwylio safonau hylendid a lles anifeiliaid mewn sefydliadau cig eisoes wedi achosi rhywfaint o darfu mewn rhai rhannau o'r DU. Os na roddir sylw i hyn, mae'n bosib y bydd gallu lladd-dai'r DU i weithredu'n gyfreithlon a diogel ddod dan fygythiad mwy difrifol.

# Diogelwch a dilysrwydd

## Digwyddiadau bwyd, troseddau bwyd a samplu gwyliadwriaeth

### Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried:**

- nifer a natur y digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid a adroddwyd yn 2023
- y canfyddiadau diweddaraf o raglenni samplu a gwyliadwriaeth bwyd cenedlaethol
- gweithgarwch a gwaith yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

# Cyflwyniad

**Fel defnyddwyr, rydym yn disgwyl i'n bwyd gael ei gynhyrchu mewn modd diogel a chyfreithlon. Pan fydd pethau'n mynd o chwith o fewn ein system fwyd, boed ar ddamwain neu fel arall, mae'n hanfodol bod materion yn cael eu nodi a'u trin yn gyflym er mwyn lleihau'r risg i ddefnyddwyr.**

Gan weithredu mewn partneriaeth â busnesau bwyd ac awdurdodau lleol, mae'r ASB ac FSS yn defnyddio ystod eang o wybodaeth gan gyrff cenedlaethol a rhyngwladol, asiantaethau gorfodi, y diwydiant bwyd a'r cyhoedd – yn ogystal â'n gwybodaeth ein hunain – i'n helpu i ddeall a mynd i'r afael â risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Mae ein gwaith yn cynnwys ymchwilio i ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid lle gallai bwyd fod yn anniogel neu wedi'i halogi, a chyhoeddi rhybuddion diogelwch pan fydd angen i ddefnyddwyr neu fusnesau gymryd camau brys. Rydym hefyd yn cynnal ein gwaith samplu targedig ein hunain, sy'n profi eitemau unigol sydd ar werth ledled y DU er mwyn nodi bwydydd lle mae risg uwch o ran diogelwch neu ddilysrwydd.

Lle gallai fod twyll, mae gennym ddau dîm troseddau bwyd arbenigol o fewn ein sefydliadau priodol – yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) ac Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SCFIU) – sy'n ein helpu i ganfod, tarfu ac ymchwilio i achosion posib o droseddu. Mae'r holl weithgareddau hyn yn rhan o'r 'tair llinell amddiffyn' a ddisgrifir yn y crynodeb gweithredol.



# Digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid

Mae data ar ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid yn ein helpu i nodi lle gallai fod problemau penodol yn y gadwyn gyflenwi bwyd. Fodd bynnag, nid yw amrywiadau yn nifer y digwyddiadau o reidrwydd yn dynodi unrhyw newid sylweddol mewn diogelwch neu safonau bwyd. Nid yw nifer y digwyddiadau ychwaith yn adlewyrchu difrifoldeb y digwyddiadau.

Yn 2023, roedd 1,935 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn gyffredinol (Ffigur 32), sy'n cynrychioli gostyngiad o 26% o gymharu â phum mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad hwn yn nifer y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn bennaf oherwydd newidiadau i'r ffordd y caiff digwyddiadau eu rheoli. Mae'r ASB, yn arbennig, wedi dad-flaenoriaethu eu gweithgarwch mewn perthynas ag ymyrryd digwyddiadau llai difrifol. Mae FSS hefyd wedi bod yn gweithredu'r model hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O 2020 ymlaen, barnwyd bod rhai mathau o ddigwyddiadau, er enghraifft halogiad bwyd o ganlyniad i deithwyr cudd (stowaways) a digwyddiadau amgylcheddol cemegol fel tanau mewn adeiladau yn rhai y gallai awdurdodau gorfodi perthnasol eu rheoli ar lefel leol. Yn ogystal nid yw digwyddiadau sy'n effeithio ar fusnesau bwyd o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 yn digwydd mwyach, sydd wedi arwain at ostyngiad.

Yn y cyfamser, mae'r gostyngiad yn nifer y digwyddiadau a welwyd rhwng 2022 a 2023 bron yn gyfan gwbl o ganlyniad i ostyngiad yn nifer yr achosion o ffliw adar a gofnodwyd gan yr ASB, a ostyngodd o 224 yn 2022 i ddim ond 33 yn 2023. Er bod yr ASB yn cofnodi'r achosion hyn fel digwyddiadau, mae'r risg i iechyd pobl yn isel iawn. Roedd FSS hefyd wedi rhoi'r gorau i gofnodi achosion o ffliw adar yn y blynyddoedd diwethaf. Yn y dyfodol, oni bai bod effaith sylweddol ar y gadwyn fwyd neu newid yn y proffil risg, bydd cofnodi achosion o ffliw adar yn gyfyngedig i ddigwyddiadau. Bydd hyn yn galluogi adrodd ar ddata am ddigwyddiadau heb ymateb i ddigwyddiad. Mae'r gostyngiad sy'n weddill yn nifer y digwyddiadau o 2022 i 2023 o fewn yr ystod amrywio ddisgwyliedig.

**Ffigur 32: Nifer y digwyddiadau bwyd yr adroddwyd amdanynt yn y DU**

| Blwyddyn | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt | 2,598 | 2,261 | 2,363 | 2,221 | 1,935 |

Ffynhonnell: Yr ASB ac FSS

## Astudiaeth achos: Lefelau glyserol mewn diodydd iâ slwsh

Er y bydd llawer o bobl yn cysylltu digwyddiadau â chynhyrchion anifeiliaid (er enghraifft cig, pysgod) a micro-organebau pathogenig fel Salmonela, gall unrhyw fwyd achosi digwyddiad os yw'n peri perygl posib. Drwy gydol 2022 a 2023, cafodd yr ASB ac FSS wybod gan awdurdodau iechyd cyhoeddus ac awdurdodau lleol am sawl digwyddiad o blant ifanc yn mynd yn sâl ar ôl yfed gormod o ddiodydd iâ slwsh.

Mae llawer o ddiodydd iâ slwsh yn cynnwys glyserol,[57] a all achosi cur pen a salwch mewn plant dan 10 oed. Wrth gymryd lefelau uchel iawn – fel arfer os bydd plant yn yfed nifer o'r cynhyrchion hyn mewn cyfnod byr – gallai meddwdod ar glyserol achosi salwch mwy difrifol (sioc, hypoglycaemia a cholli ymwybyddiaeth).

Cynhaliodd yr ASB ac FSS asesiad risg a oedd yn ystyried y sefyllfa waethaf bosib gyda phlentyn yn yfed diod iâ slwsh 350ml a oedd yn cynnwys y lefel uchaf o glyserol (50,000mg/L). Roedd yr asesiad risg yn canfod y byddai plant 4 oed neu iau'n mynd y tu hwnt i'r trothwy lle gallai effeithiau andwyol godi. Cyhoeddodd yr ASB ac FSS ganllawiau gwirfoddol newydd i'r diwydiant i helpu i atal unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys annog y diwydiant i leihau'r cynnwys glyserol mewn diodydd iâ slwsh, cynghori nad yw plant o dan bedair oed yn eu hyfed, ac annog pobl i beidio â hyrwyddo cynigion i ail-lenwi diodydd am ddim i blant dan 10 oed. Mae'r argymhellion bellach wedi'u llofnodi a'u mabwysiadu gan nifer o weithgynhyrchwyr diodydd mawr.

## Categorïau bwyd sydd fwyaf cysylltiedig â digwyddiadau

Gall edrych yn agosach ar ba fathau o ddigwyddiadau sy'n digwydd amlaf ein helpu i weld pa feysydd sydd fwyaf agored i niwed. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon fel rhan o'n proses casglu cudd-wybodaeth a monitro sy'n llywio ein gweithgareddau samplu wedi'u targedu a blaenoriaethau ein hunedau cenedlaethol troseddau bwyd.

Dros y pum mlynedd diwethaf, cig a chynhyrchion cig (heb gynnwys dofednod) yw'r categori bwyd lle bu'r gyfran uchaf o ddigwyddiadau bwyd a gofnodwyd, gan gyfrif am 16% o'r holl ddigwyddiadau yn 2023 (Ffigur 33).

Roedd digwyddiadau yn 2023 gan amlaf yn ymwneud â halogiad microbiolegol[58] neu achosion o dorri cyfraith reoleiddiol, gan gynnwys presenoldeb cynhwysion anawdurdodedig, materion labelu ac olrhain, a defnyddio safleoedd anawdurdodedig yn y broses gynhyrchu.

Yn gyffredinol, mae'r pum prif gategori gyda'r nifer fwyaf o ddigwyddiadau a gofnodwyd wedi aros yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf (Ffigur 33). Mae'r gostyngiad yn y gyfran o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dofednod (o bedwerydd i chweched ers 2022) yn ymwneud i raddau helaeth â'r gostyngiad yn nifer yr achosion o ffliw adar a newidiadau yn y modd y caiff achosion o ffliw adar eu categoreiddio.



**Ffigur 33: Y pum prif gategori bwyd sydd wedi'u cynnwys mewn digwyddiadau a gofnodwyd rhwng 2019 a 2023**

| Safle (1-5) | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod) **Cyfanswm: 309** 12% o gyfanswm y digwyddiadau | Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod) **Cyfanswm: 243** 11% o gyfanswm y digwyddiadau | Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod) **Cyfanswm: 254** 11% o gyfanswm y digwyddiadau | Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod) **Cyfanswm: 284** 13% o gyfanswm y digwyddiadau | Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod) **Cyfanswm: 305** 16% o gyfanswm y digwyddiadau |
| 2 | Ffrwythau a llysiau **Cyfanswm: 272** 10% o gyfanswm y digwyddiadau | Grawnfwydydd a chynhyrchion popty **Cyfanswm: 157** 7% o gyfanswm y digwyddiadau | Cig dofednod a chynhyrchion dofednod **Cyfanswm: 238** 10% o gyfanswm y digwyddiadau | Bwydydd deietetig / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig **Cyfanswm: 192** 9% o gyfanswm y digwyddiadau | Grawnfwydydd a chynhyrchion popty **Cyfanswm: 162** 9% o gyfanswm y digwyddiadau |
| 3 | Grawnfwydydd a chynhyrchion popty **Cyfanswm: 140** 5% o gyfanswm y digwyddiadau | Bwydydd deietetig / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig **Cyfanswm: 136** 6% o gyfanswm y digwyddiadau | Bwydydd deietetig / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig **Cyfanswm: 207** 9% o gyfanswm y digwyddiadau | Grawnfwydydd a chynhyrchion popty **Cyfanswm: 189** 9% o gyfanswm y digwyddiadau | Bwydydd deietetig / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig **Cyfanswm: 137** 7% o gyfanswm y digwyddiadau |
| 4 | Bwydydd deietetig / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig **Cyfanswm: 139** 5% o gyfanswm y digwyddiadau | Ffrwythau a llysiau **Cyfanswm: 129** 6% o gyfanswm y digwyddiadau | Grawnfwydydd a chynhyrchion popty **Cyfanswm: 139** 6% o gyfanswm y digwyddiadau | Cig dofednod a chynhyrchion dofednod **Cyfanswm: 151** 7% o gyfanswm y digwyddiadau | Prydau wedi'u paratoi a byrbrydau **Cyfanswm: 134** 7% o gyfanswm y digwyddiadau |
| 5 | Prydau wedi'u paratoi a byrbrydau **Cyfanswm: 116** 4% o gyfanswm y digwyddiadau | Cig dofednod a chynhyrchion dofednod **Cyfanswm: 114** 5% o gyfanswm y digwyddiadau | Ffrwythau a llysiau **Cyfanswm: 118** 5% o gyfanswm y digwyddiadau | Prydau wedi'u paratoi a byrbrydau **Cyfanswm: 123** 6% o gyfanswm y digwyddiadau | Ffrwythau a llysiau **Cyfanswm: 128** 7% o gyfanswm y digwyddiadau |

- Cig a chynhyrchion cig (ac eithrio dofednod)
- Ffrwythau a llysiau
- Grawnfwydydd a chynhyrchion popty
- Cig dofednod a chynhyrchion dofednod
- Bwydydd deietegol / Atchwanegiadau bwyd / Bwydydd cyfnerthedig
- Prydau wedi'u paratoi a byrbrydau

Ffynhonnell: ASB ac FSS

## Halogiad gan ficro-organebau niweidiol

Y math mwyaf cyffredin o berygl mewn digwyddiadau bwyd oedd micro-organebau pathogenig, gan gyfrif am 23% o'r holl achosion (Ffigur 34). Er i ni weld gostyngiad mewn nifer y digwyddiadau a oedd yn ymwneud ag organebau pathogenig yn 2023, nid yw hyn yn dynodi dirywiad mewn safonau bwyd. Yn hytrach, mae hyn oherwydd gwelliannau mewn clefydau hysbysadwy, gyda gostyngiad o 85% yn nifer yr achosion o ffliw adar yr adroddwyd amdanynt rhwng 2022 a 2023 yn y DU.

**Ffigur 34: Nifer yr achosion o halogiad gan ficro-organebau niweidiol yn y DU**

| Blwyddyn | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Micro-organebau pathogenig | 360 (14%) | 431 (19%) | 584 (25%) | 647 (29%) | 453 (23%) |

Sylwer: Y testun mewn cromfachau yw canran cyfanswm y digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid ar gyfer y flwyddyn honno.
Ffynhonnell: ASB ac FSS

### Beth yw micro-organebau pathogenig?

Diffinnir organeb pathogenig fel unrhyw organeb a all achosi afiechyd. Mae pathogenau niweidiol yn bresennol yn naturiol yn yr amgylchedd, a nod ein dull o reoleiddio a rheoli bwyd yw lleihau'r risg y bydd bwyd yn cael ei halogi â'r pathogenau a allai ein gwneud yn sâl. Fodd bynnag, nid yw'n bosib dileu'r risg hon yn gyfan gwbl. Felly, pan nodir digwyddiad sy'n ymwneud â phathogenau, mae'n bwysig cymryd camau cyflym i nodi'r ffynhonnell a lleihau unrhyw niwed posib.

Roedd amrywiaeth o ficro-organebau a mathau o fwyd ynghlwm wrth y digwyddiadau a gofnodwyd yn 2023, ond dyma'r rhai mwyaf cyffredin:

- Roedd ***Salmonela*** yn cyfrif am dros draean o ddigwyddiadau'n ymwneud â micro-organebau niweidiol y llynedd, gan effeithio'n bennaf ar ddofednod.
- Mae ***E. coli*** hefyd yn gyffredin, a gellir ei ganfod mewn amrywiaeth eang o fwydydd gan gynnwys cynhyrchion becws, llaeth, a phrydau parod ymhlith eraill.
- Mae digwyddiadau **norofeirws** yn gysylltiedig yn bennaf â physgod cregyn dwygragennog (er enghraifft, cregyn gleision ac wystrys).
- Mae ***Listeria monocytogenes*** hefyd yn gysylltiedig â digwyddiadau sy'n ymwneud ag amrywiaeth o fathau o fwyd, gan gynnwys cynhyrchion cig a physgod.

## Brigiad o achosion o *Listeria monocytogenes* yn gysylltiedig â physgod mwg

Rhwng mis Ionawr 2021 a mis Gorffennaf 2023, cafodd brigiad o achosion o listeriosis ei nodi a'i gysylltu ag ugain achos a thair marwolaeth. Mae listeriosis yn glefyd prin yn y DU a achosir gan *Listeria monocytogenes*. Gall achosi symptomau difrifol, yn enwedig pan fydd yn effeithio ar grwpiau sy'n agored i niwed yn glinigol fel yr henoed. Bu'r ASB ac FSS yn gweithio gydag asiantaethau iechyd cyhoeddus y DU a phartneriaid awdurdodau lleol i olrhain y brigiad o achosion yn ôl i gynhyrchion brithyll ac eog mwg oer, gan eu galluogi i gymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu defnyddwyr.

Roedd yr achos hwn yn gymhleth oherwydd bod gan y straen penodol o *Listeria monocytogenes* broffil anarferol, ac roedd yn debygol o fod yn niweidiol i ddefnyddwyr agored i niwed er iddo gael ei ganfod ar lefelau is na'r terfynau microbiolegol cyfreithiol. Roedd rheoli'r risgiau felly yn heriol, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau weithio'n agos gyda'r busnes i nodi strategaethau lliniaru. Roedd rhaid hefyd i'r ASB ac FSS ailasesu eu strategaethau sefydledig ar gyfer rheoli risgiau iechyd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r bacteria hyn.

Oherwydd natur anarferol y sefyllfa, roedd angen sawl dull gweithredu i ddiogelu defnyddwyr:

- ymchwiliadau i nodi ffynhonnell yr halogiad ac olrhain cynhyrchion yr effeithiwyd arnynt
- fel cam rhagofalus, cafodd yr holl gynhyrchion y dangoswyd eu bod wedi'u halogi gan y straen dan sylw eu galw'n ôl yn wirfoddol, er bod y lefelau'n is na'r terfynau cyfreithiol
- cyfathrebiadau i gynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r risgiau i grwpiau agored i niwed yn sgil bwyta cynhyrchion pysgod mwg oer, gan gynnwys cyngor wedi'i ddiweddaru i ddefnyddwyr yn ystod y brigiad o achosion ac ar labelu pecynnau gan y manwerthwr
- asesiad risg pysgod mwg wedi'i ddiweddaru (cyhoeddwyd mis Gorffennaf 2023) a chanllawiau i ddefnyddwyr ar y risgiau sy'n gysylltiedig â physgod mwg

## Nifer y digwyddiadau bwyd sy'n ymwneud ag alergenau

Mae digwyddiadau sy'n ymwneud ag alergenau yn bryder arall, o ystyried y canlyniadau difrifol y gall torri'r rheolau hyn eu cael i bobl â gorsensitifrwydd i fwyd. Er bod y ffigurau ar gyfer 2023 yn cyd-fynd yn fras â'r amrywiadau hanesyddol, mae rheoli alergenau'n parhau i fod yn faes ffocws i'r ASB ac FSS o fewn ein cadwyn cyflenwi bwyd (Ffigur 35).

**Ffigur 35: Nifer y digwyddiadau bwyd sy'n ymwneud ag alergenau**

| Blwyddyn | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alergenau | 355 | 240 | 272 | 322 | 299 |

Ffynhonnell: ASB ac FSS

## Rhybuddion bwyd a hysbysiadau galw cynhyrchion yn ôl

Gellir cyhoeddi rhybuddion bwyd a hysbysiadau galw cynhyrchion yn ôl yn ystod ymchwiliad i ddigwyddiad bwyd. Defnyddir tri math o rybuddion gan yr asiantaethau bwyd cenedlaethol i rybuddio defnyddwyr a sbarduno camau gweithredu gan fusnesau ac awdurdodau gorfodi:

- cyhoeddir **rhybudd alergedd** pan fydd cynnyrch wrthi'n cael, neu wedi cael, ei alw'n ôl oherwydd nad yw gwybodaeth am alergenau wedi'i datgan ar labeli bwyd neu oherwydd bod yr wybodaeth ar y label yn anghywir (gan gynnwys diffyg gwybodaeth berthnasol yn Saesneg)
- cyhoeddir **hysbysiad galw cynnyrch yn ôl (PRIN)** pan fydd pryderon am ddiogelwch cynnyrch, gan amlaf oherwydd halogiad, cambecynnu neu gamlabelu cynhyrchion
- cyhoeddir **rhybudd bwyd er gweithredu (FAFA)** ar gyfer awdurdodau lleol a defnyddwyr pan fydd dosbarthiad cynhyrchion yn llai amlwg neu pan na fydd busnes bwyd yn cymryd y camau gofynnol i dynnu cynhyrchion oddi ar y farchnad, a bod angen gweithredu adferol gan awdurdodau lleol

## Rhybuddion alergedd

Mae ein data'n dangos gostyngiad yn nifer y rhybuddion alergedd a gyhoeddwyd gan asiantaethau bwyd y DU yn 2023 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (Ffigur 36).


**Ffigur 36: Cyfanswm y rhybuddion alergedd a gyhoeddwyd gan yr ASB ac FSS**

| Blwyddyn | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhybuddion alergedd | 115 | 77 | 83 | 83 | 64 |

Ffynhonnell: ASB ac FSS

Roedd presenoldeb llaeth heb ei ddatgan yn parhau i fod y rheswm mwyaf cyffredin dros gyhoeddi rhybudd alergedd (Ffigur 37). Mae'n bosib bod hyn yn adlewyrchu'r graddau y mae llaeth a llaeth powdr yn bresennol mewn cyfleusterau gweithgynhyrchu bwyd a'r heriau o ran atal halogiad, er y byddai angen ymchwil a dadansoddiad pellach i cadarnhau hyn.

## Ffigur 37: Rhybuddion alergedd yn ôl y math o alergen




Ffynhonnell: ASB ac FSS



## Hysbysiadau galw cynhyrchion yn ôl (PRINs)

Mae cyfanswm nifer y PRINs a gyhoeddwyd yn 2023 yn unol ag amrywiad hanesyddol (Ffigur 38). Roedd tua thraean o'r hysbysiadau hyn o ganlyniad i bresenoldeb deunyddiau estron, fel metel, gwydr, plastig neu rwber. Roedd traean arall yn gysylltiedig â halogiad microbiolegol. Cyhoeddwyd y traean olaf oherwydd amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys dyddiadau 'defnyddio erbyn' anghywir, peryglon tagu a mesurau gwael i reoli tymheredd.

**Ffigur 38: Cyfanswm y PRINs a gyhoeddwyd yn y DU**

| Blwyddyn | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| PRINs | 56 | 66 | 67 | 81 | 65 |

Ffynhonnell: ASB ac FSS

## Rhybudd Bwyd er Gweithredu (FAFA)

Cyhoeddodd FSS un FAFA yn 2023 yn gofyn i bartneriaid awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau i dynnu cig cebab yn ôl a oedd yn cael ei baratoi a'i ddosbarthu gan safle heb ei gymeradwyo (Ffigur 39). Fodd bynnag, mae'r nifer isel o FAFAs sydd wedi'u cyhoeddi yn y DU (dim ond pedwar ers 2019) yn dangos bod y rhan fwyaf o fusnesau bwyd yn cydweithio'n rhwydd ag awdurdodau lleol a'r ddwy asiantaeth fwyd genedlaethol er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu datrys, a bod safonau diogelwch yn cael eu cynnal.

**Ffigur 39: Cyfanswm y FAFAs a gyhoeddwyd yn y DU**

| Blwyddyn | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| FAFA | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 |

Ffynhonnell: ASB ac FSS

# Samplu gwyliadwriaeth bwyd

Yn ogystal â'r system o ran digwyddiadau a rhybuddion a ddisgrifir uchod, mae'r ASB ac FSS hefyd yn cynnal **rhaglenni gwyliadwriaeth cenedlaethol** i helpu i fonitro ac asesu risgiau diogelwch a dilysrwydd o fewn y system fwyd, ac yna'n gweithio gyda phartneriaid cyflenwi i fynd i'r afael â nhw. Mae canlyniadau ein harolygon ar gyfer 2023 wedi'u crynhoi isod.

Mae'r rhaglenni gwyliadwriaeth cenedlaethol hyn wedi'u targedu'n benodol at achosion o fregusrwydd yn ein cyflenwad bwyd, felly maent yn llawer mwy tebygol o nodi canlyniadau anfoddhaol. Felly nid ydynt yn cynrychioli safonau bwyd cyffredinol y DU.

## Arolwg targededig yr ASB 2023/24

### Yr hyn a brofwyd gennym

Profwyd tua 500 o samplau ar gyfer problemau o ran dilysrwydd a/neu bresenoldeb alergenau a halogion.[59] Ar gyfer rhai cynhyrchion, gwiriwyd labeli hefyd i sicrhau cywirdeb a chydymffurfiaeth â safonau gwybodaeth bwyd. Roedd y cynhyrchion a brofwyd yn cynnwys bwydydd cyffredin a allai dorri rheolau safonau neu ddilysrwydd, fel bara a chaws, yn ogystal ag eitemau a nodwyd yn flaenorol fel rhai risg uchel, er enghraifft, oregano oherwydd materion dilysrwydd. Cymerir cyfran uwch o samplau gan weithredwyr busnesau bwyd bach, gan fod y manwerthwyr yn methu'n amlach o gymharu â'r archfarchnadoedd mwy.

### Y canlyniadau

- Nid yw'r gyfradd gydymffurfio gyffredinol wedi newid yn sylweddol ers dechrau'r arolwg blynyddol hwn yn 2021/22. O'r bwydydd a samplwyd, roedd 89% yn cydymffurfio yn y meysydd a brofwyd.
- Roedd 94% o'r bwydydd a samplwyd o archfarchnadoedd a gweithredwyr busnesau bwyd mawr eraill yn arolwg 2023/24 yn cydymffurfio, o gymharu ag 86% ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd bach. Mae hyn yn dangos bwlch tebyg yn y safonau o gymharu ag arolygon blaenorol.
- O'r samplau **pasta gwenith caled** a brofwyd ar gyfer dilysrwydd, roedd 10% (3) yn cynnwys gwenith nad oedd yn galed. Ond yn 2020/21 a 2021/22, roedd yr holl ganlyniadau'n foddhaol.[60]
- Profwyd samplau **olew olewydd** am ddilysrwydd, cyfansoddiad a chydymffurfiaeth â safonau labelu. Cynyddodd lefelau cydymffurfio o 75% y llynedd i 87% eleni, ond mae'n parhau i fod yn is na'r hyn a welwyd yn 2021/22 (93%). O'r pedwar sampl nad oeddent yn cydymffurfio, nid oedd tri yn bodloni'r gofyniad cyfansoddiadol yn ymwneud


â ffresni'r olew.[61] Nid oedd y sampl a oedd yn weddill nad oedd yn cydymffurfio yn bodloni'r safon gyfansoddiadol ar gyfer olew olewydd 'extra virgin.'[62] Efallai bod y tarfu mawr ar gyflenwad olew olewydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cyfrannu at rai o'r materion hyn.

- Profwyd cynhyrchion **bara** am alergenau a chydymffurfiaeth â gofynion labelu. Cynyddodd lefelau cydymffurfio o 63% yn 2022/23 i 77% yn 2023/24. Roedd y rhan fwyaf o'r canlyniadau nad oeddent yn cydymffurfio eleni yn ymwneud â mân faterion labelu fel gwybodaeth am ychwanegion wedi'i chyflwyno yn y fformat anghywir.
- Profwyd **selsig** am eu cyfansoddiad (cynnwys cig) a phresenoldeb unrhyw rywogaethau cig nad ydynt wedi'u cynnwys ar y label. Roedd y gyfradd gydymffurfio ar gyfer selsig (77%) yn uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol. O'r saith sampl nad oedd yn cydymffurfio, nid oedd pump (71%) yn cydymffurfio oherwydd problemau labelu fel manylion cynhwysion ar goll ac roedd dau (29%) yn cynnwys llai o gig na'r hyn a ddatganwyd.
- Profwyd **prydau parod cyw iâr/cawl** hefyd am eu cyfansoddiad a phresenoldeb unrhyw rywogaethau cig nad ydynt wedi'u cynnwys ar y label. O'r prydau parod cyw iâr/cawl a brofwyd, roedd 83% o'r samplau yn cydymffurfio. Fodd bynnag, roedd tri o'r pum sampl nad oeddent yn cydymffurfio yn cynnwys llai o gig na'r hyn a ddatganwyd. Roedd nifer fawr o gynhyrchion 'rhydd rhag' a brofwyd am alergenau heb eu datgan a chydymffurfiaeth â safonau labelu yn parhau i gydymffurfio, gyda 92% o samplau'n cydymffurfio yn ein harolwg diweddaraf. Ar wahân i un cynnyrch lle canfuwyd lefelau isel o brotein llaeth heb ei ddatgan, roedd pob achos o ddiffyg cydymffurfio'n ymwneud â materion labelu, ac nid oedd hyn yn bryder diogelwch uniongyrchol.[63]
- Roedd yr holl ganlyniadau'n foddhaol ar gyfer **grawnfwydydd**, a brofwyd am liwiau a halogion anawdurdodedig, a **thyrmerig**, a brofwyd am liwiau anawdurdodedig.



Mae crynodeb o ganlyniadau'r rhaglen samplu i'w weld isod (Ffigur 40).

**Ffigur 40: Canran y canlyniadau samplu anfoddhaol yn ôl math o gynnyrch**




* Profwyd y cynhyrchion hyn yn ystod rhai o'r blynyddoedd a nodir yma, ond nid pob un ohonynt.
Yn ogystal, profwyd y nwyddau hyn yn y blynyddoedd dilynol ond ni chafwyd unrhyw ganlyniadau anfoddhaol: 2021/22 pasta a chaws, 2023/24 tyrmerig a grawnfwydydd brecwast.

Ffynhonnell: ASB

## Rhaglen samplu halogion cemegol a chyfansoddol FSS

### Yr hyn a brofwyd gennym

Mae rhaglen yr FSS yn edrych ar gyfansoddiad bwyd ac am bresenoldeb halogion cemegol ar draws detholiad bach o eitemau sy'n cael eu targedu bob blwyddyn ar sail gwybodaeth. Yn 2022/23, profwyd y cynhyrchion canlynol at ddibenion cydymffurfio:[64]

- kombucha (ar gyfer cynnwys alcohol, labelu a siwgrau)
- atchwanegiadau olew pysgod (ar gyfer metelau trwm, omega 3 ac esterau methyl asid brasterog)
- cynhyrchion pysgod ffres ac wedi'u rhewi (ar gyfer metelau trwm)
- cynhyrchion pysgod mewn cytew (ar gyfer rhywogaethau pysgod).

Yn ogystal, profwyd ystod o gynhyrchion figan a chynhyrchion heb laeth, yn ogystal â chynhyrchion wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'r gwerthu'n uniongyrchol am alergenau targed (llaeth, glwten, cnau almon a chanu cashiw).

## Y canlyniadau

Gwelwyd y cyfraddau uchaf o ddiffyg cydymffurfio mewn **samplau PPDS**, a chanfuwyd bod pump allan o 50 sampl yn cynnwys alergen na chafodd ei ddatgan oherwydd bod gwybodaeth ar goll ar y label neu nad oedd label o gwbl.

Barnwyd nad oedd tri o bob 50 **o atchwanegiadau olew pysgod** a brofwyd yn cydymffurfio, oherwydd nad oedd y cynnwys omega 3 yn cyfateb i'r symiau a ddatganwyd ar y label, gyda dau sampl yn cynnwys llai ac un sampl yn cynnwys mwy na'r swm a ddatganwyd. Er nad yw hyn yn risg diogelwch bwyd, mae omega 3 yn gynhwysyn actif allweddol mewn olew pysgod a dyma'r prif reswm y mae llawer o ddefnyddwyr yn dewis yr atchwanegiadau hyn.

O'r 74 sampl o **kombucha**, nid oedd pedwar yn cydymffurfio oherwydd lefelau alcohol heb eu datgan. Roedd y lefelau alcohol a ganfuwyd yn y samplau hyn dim ond ychydig yn uwch na'r terfyn[65] y mae'n rhaid ei ddatgan ar y label yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, gallai diodydd ag alcohol heb ei ddatgan achosi risgiau i rai defnyddwyr, neu dorri arferion crefyddol.



### Ffigur 41: Prif ganlyniadau rhaglen samplu bwyd genedlaethol yr FSS

#### Wedi'u profi am gyfansoddiad

| Cynhyrchion wedi'u profi | Nifer y samplau a brofwyd | Nifer y samplau anfoddhaol |
|---|---|---|
| Kombucha | 74 | 4 |
| Atchwanegiadau olew pysgod | 50 | 3 |

#### Wedi'u profi am halogion cemegol

| Cynhyrchion wedi'u profi | Nifer y samplau a brofwyd | Nifer y samplau anfoddhaol |
|---|---|---|
| Cynhyrchion pysgod | 51 | 1 |

#### Wedi'u profi am ddilysrwydd

| Cynhyrchion wedi'u profi | Nifer y samplau a brofwyd | Nifer y samplau anfoddhaol |
|---|---|---|
| Cynhyrchion pysgod mewn briwsion bara / cytew | 44 | 0 |

#### Wedi'u profi am bresenoldeb alergenau heb eu datgan

| Cynhyrchion wedi'u profi | Nifer y samplau a brofwyd | Nifer y samplau anfoddhaol |
|---|---|---|
| Cynhyrchion wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) | 50 | 5 |
| Cynhyrchion figan ac heb gynnyrch llaeth | 30 | 0 |

Ffynhonnell: FSS

## Datgan alergenau mewn cynhyrchion wedi'u pecynnu ymlaen llaw gwerthu'n uniongyrchol (PPDS)

Fel rhan o waith samplu gwyliadwriaeth yr ASB, profwyd 47 o fwydydd PPDS am wahanol alergenau heb eu datgan, gan gynnwys pysgnau, cnau Ffrengig, cnau cyll, cnau cashiw, llaeth, glwten a physgod.[66] Roedd cyfanswm o 17 sampl[67] (36%) yn cynnwys alergen heb ei ddatgan, sy'n golygu naill ai nad oedd label ar gael neu nad oedd yr alergen wedi'i restru ar y label.

### Beth yw Cyfraith Natasha?

Ers 1 Hydref 2021, yn unol â Chyfraith Natasha, mae'n ofynnol i fusnesau bwyd ledled y DU labelu unrhyw fwyd PPDS – cynhyrchion sy'n cael eu pecynnu a'u gwerthu ar yr un safle, fel brechdanau neu saladau – gan nodi enw'r bwyd a rhestr gynhwysion lawn, gan gynnwys yr holl alergenau wedi'u pwysleisio mewn print trwm.

Ar y cyd â'r dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio a welwyd yn rhaglen samplu FSS (Ffigur 41), mae'r canlyniadau hyn yn dangos nad yw rhai busnesau eto'n cydymffurfio'n llawn â'r newidiadau ynghylch datgan alergenau yn unol â'r ddeddfwriaeth PPDS. Roedd y cynhyrchion a samplwyd nad oeddent yn cydymffurfio wedi'u cyfyngu i fusnesau bwyd llai. Roedd canran uchel oherwydd nad oedd unrhyw labelu neu achosion lle nad oedd y label yn cynnwys rhestr gynhwysion, yn hytrach na bod y rhestr gynhwysion yn anghywir. Roedd y cynhyrchion a samplwyd o archfarchnadoedd neu fusnesau bwyd mawr eraill i gyd yn cydymffurfio.


Yn ogystal â gweithgarwch gorfodi uniongyrchol a gyflawnir gan awdurdodau lleol, bydd yr ASB ac FSS yn parhau i godi ymwybyddiaeth a darparu cyngor a chymorth i fusnesau i'w helpu i ddilyn y rheolau hyn yn gywir. Byddant hefyd yn ariannu gwaith samplu targededig ychwanegol gan awdurdodau lleol.

## Capasiti samplu a rôl Labordai Swyddogol

Yn ogystal â gweithgarwch samplu'r ASB ac FSS, mae gwaith samplu awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol wrth gadw defnyddwyr yn ddiogel. Mae samplau bwyd fel arfer yn cael eu casglu gan dimau safonau masnach lleol a'u profi yn un o'n Labordai Swyddogol Dadansoddi Cyhoeddus ar gyfer amrywiaeth o faterion diogelwch a dilysrwydd.[68]

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld gostyngiad amlwg yn nifer y samplau sy'n cael eu casglu a'u harchwilio am faterion hylendid bwyd neu safonau bwyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn ystod y pandemig, lle bu tarfu ar weithgarwch samplu, gostyngodd nifer y samplau a gymerwyd o 44,026 yn ystod 2019/20 i 13,462 yn ystod 2020/21 (Ffigur 42). Gwelwyd yr un patrwm yn yr Alban, gyda'r niferoedd yn gostwng o 5,855 o samplau yn 2019/20 i 1,483 o samplau yn 2020/21 (Ffigur 43).


### Ffigur 42: Nifer y samplau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon dros amser




Sylwer: Nid yw data ar gyfer y flwyddyn lawn ar gael eto ar gyfer 2023/24, ond casglwyd 17,866 o samplau yn ystod 6 mis cyntaf y cyfnod (Mis Ebrill i fis Medi)

Ffynhonnell: ASB

### Ffigur 43: Nifer y samplau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol yn yr Alban dros amser




Ffynhonnell: FSS

Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi cofnodi 40,144 o samplau yn ystod 2022/23, a 17,866 o samplau yn ystod chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24. Yn yr Alban, profodd awdurdodau lleol 3,713 o samplau yn ystod 2023/24.

Er bod y ffigurau hyn yn dal yn is na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, mae'n dangos bod awdurdodau lleol yn ailgydio yng ngweithgareddau samplu yn raddol. Fodd bynnag, yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae nifer y profion a gofnodwyd bron i 40% yn is na degawd yn ôl pan gasglwyd 64,354 o samplau yn 2013/14 (Ffigur 42). Yn yr Alban, mae nifer y profion a gofnodir 60% yn is na deng mlynedd yn ôl pan gasglwyd 9,094 o samplau yn 2013/14 (Ffigur 43).

Rydym yn monitro'r mater hwn yn ofalus o ystyried yr heriau ariannol a wynebir gan awdurdodau lleol. Gallai gweithgarwch profi annigonol gan awdurdodau lleol effeithio ar iechyd y cyhoedd a hyder defnyddwyr, a hynny oherwydd y risg na chaiff materion diogelwch bwyd neu ddilysrwydd eu nodi drwy'r gweithgareddau hyn.

Gallai diffyg gwaith profi gan awdurdodau lleol hefyd effeithio ar hyfywedd hirdymor Labordai Swyddogol Dadansoddi Cyhoeddus, a fyddai yn ei dro yn ei gwneud yn anos cynnal profion diogelwch a safonau bwyd arferol neu ymateb yn effeithiol i unrhyw ddigwyddiadau mawr. Fel y nodwyd yn Ein Bwyd 2022, cyfrannodd gostyngiad hirdymor mewn gweithgarwch samplu at gau nifer o Labordai Swyddogol Dadansoddi Cyhoeddus rhwng 2013 a 2019. Ers hynny, mae'r ASB wedi bod yn gweithio ar y mater hwn gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw labordai pellach wedi cau ers 2019.

# Troseddau bwyd

Mae mwyafrif helaeth y bwyd a diod sydd ar werth yn y DU yn ddiogel ac yn ddilys, ond mae'r diwydiant bwyd yn parhau i fod yn darged deniadol i droseddoldeb. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos chynhyrchion gwerth uchel neu mewn achosion lle mae'r galw am gynnyrch penodol yn fwy na'r cyflenwad, pan allai difwyno, twyll, camgyfleu, neu fathau eraill o droseddu, arwain at elw sylweddol.[69]

Fel rhan o'r ASB ac FSS, mae dau dîm cenedlaethol troseddau bwyd y DU – yr NFCU a SFCIU – yn datblygu datblygu asesiad strategol ar y cyd sy'n nodi'r risgiau cyfredol yn y farchnad a'r meysydd troseddau bwyd posib, gan ystyried ystod eang o dystiolaeth. Mae'r asesiad hwn wedyn yn llywio **Strategaeth Reoli** pob uned, sy'n nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithgarwch.

## Sut mae'r dirwedd troseddau bwyd wedi newid?

Mae'r asesiad strategol diweddaraf, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o 2023, yn disgrifio'r ffactorau economaidd, amgylcheddol a geo-wleidyddol ehangach a allai annog mwy o droseddu yn ein cadwyn fwyd yn y blynyddoedd i ddod, yn arbennig:

- **pwysau economaidd yn effeithio ar fusnesau a defnyddwyr** oherwydd cynnydd mewn costau ar draws y gadwyn fwyd gyfan, gyda busnesau'n talu mwy am ynni a deunyddiau crai a defnyddwyr yn talu mwy am fwyd
- **tarfu pellach ar y gadwyn gyflenwi** oherwydd materion fel gwrthdaro byd-eang, tywydd garw a chnydau'n methu
- **newidiadau i drefniadau rheoli ffiniau**, a allai greu cyfleoedd ar gyfer camfanteisio troseddol pellach wrth i'r ffyrdd newydd o weithio ymsefydlu
- **gostyngiadau parhaus yn adnoddau awdurdodau lleol**, a allai ei gwneud yn anoddach i swyddogion iechyd yr amgylchedd a swyddogion safonau masnach ganfod troseddau bwyd yn y gymuned

Mae'r asesiad strategol hefyd yn dangos bod rhai meysydd lle rydym yn pryderu ychydig llai amdanynt na'r blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys y bygythiad llai o droseddu yn ymwneud â physgod cregyn a gesglir yn anghyfreithlon yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd a dilysrwydd nwyddau alcoholaidd, sydd wedi bod yn ffocws mawr i'r ddwy uned troseddau bwyd yn flaenorol. Yn achos pysgod cregyn, mae'r gostyngiad mewn gweithgarwch yn debygol o fod yn gysylltiedig yn rhannol â newidiadau mewn rheolau allforio i'r UE, sydd wedi lleihau hyfywedd masnachol y gweithgaredd hwn.

Fodd bynnag, mae meysydd penodol eraill hefyd lle rydym yn meddwl y gallai gweithgarwch troseddol gynyddu yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys y **cynnydd mewn mewnforion anghyfreithlon** i'r DU, y cyfeirir atynt fel 'nwyddau'r marchnad llwyd'.[70] Mae hyn yn peri pryder arbennig oherwydd y pwysau ychwanegol y mae'n ei roi ar awdurdodau lleol sydd eisoes dan bwysau.

Mae pryderon hefyd yn parhau ynghylch dulliau cynhyrchu domestig ar gyfer cynhyrchion bwyd anghyfreithlon yn y DU. Un enghraifft o hyn yw 'smokies', a drafodir yn fanylach isod (gweler tudalen 90).

## Ar beth y gwnaeth yr unedau troseddau bwyd ganolbwyntio yn 2023?

### Ymchwiliadau cyfredol

Mae **ymchwiliadau i droseddau bwyd** yn rhan fawr o waith ein hunedau troseddau bwyd cenedlaethol. Mae'r unedau fel arfer yn cynnal ymchwiliadau difrifol a chymhleth eu natur i ategu gwaith swyddogion awdurdodau lleol, a gweithgareddau ataliol y diwydiant.

Gall yr achosion hyn gael eu hagor am lawer o resymau, ac maent yn amrywio'n sylweddol o ran maint. Felly, ni ellir gwneud cysylltiad rhwng nifer yr ymchwiliadau cyfredol a lefel gyffredinol troseddau bwyd. Fodd bynnag, gall yr ystod o ymchwiliadau a gynhelir roi syniad defnyddiol o'r mathau o droseddau bwyd yr ydym yn dod ar eu traws ar hyn o bryd, a lle gallai fod gwendidau penodol.

Yn 2023, cynhaliwyd cyfanswm o **34 o ymchwiliadau** gan y ddwy uned troseddau bwyd yn y DU (Ffigur 44). O'r rhain, roedd 41% yn ymwneud â chig a chynhyrchion cig (fel camgyfleu o ble mae'r cig yn dod), ac roedd 24% yn mynd i'r afael â bygythiadau sy'n gysylltiedig â bwydydd nad ydynt yn beryglus (sylweddau a werthir fel bwyd na ddylid ei farchnata felly oherwydd ei natur niweidiol).

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, roedd y mathau o arferion anghyfreithlon yr ymchwiliwyd iddynt yn cynnwys:

- camgyfleu gwlad tarddiad, amrywiad neu statws premiwm
- prosesu anghyfreithlon
- dargyfeirio cynhyrchion anniogel i'r gadwyn fwyd
- twyll dosbarthu Ewropeaidd

Yn y cyfamser, canolbwyntiodd ymchwiliadau yn yr Alban ar y canlynol:

- twyll a amheuir mewn perthynas ag alcohol ffug
- materion olrhain a difwyno yn y gadwyn cyflenwi cig
- lladd anghyfreithlon mewn safleoedd heb eu cymeradwyo

**Ffigur 44: Y meysydd ffocws allweddol ar gyfer ymchwiliadau i droseddau bwyd yn 2023**

| Meysydd ffocws allweddol | Nifer yr ymchwiliadau byw | Enghreifftiau o arferion anghyfreithlon yr ymchwilir iddynt |
|---|---|---|
| Cig a chynhyrchion cig | 14 | Camgyfleu gwlad tarddiad, prosesu anghyfreithlon |
| Cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd | 8 | Gwerthu bwydydd peryglus nad ydynt wedi'u bwriadu i'w bwyta gan bobl |
| Arall* | 7 | Camgyfleu gwlad tarddiad |
| Dargyfeirio sgil-gynhyrchion anifeiliaid | 2 | Dargyfeirio cynhyrchion anniogel i'r gadwyn fwyd |
| Alcohol | 2 | Cynhyrchion ffug |
| Pysgod a bwyd môr | 1 | Prosesu anghyfreithlon |

* Ymchwiliadau sy'n ymwneud â chynhyrchion nad ydynt yn perthyn i'r meysydd ffocws allweddol a gyflwynir yma.
Ffynhonnell: ASB ac FSS

## Tarfu ar droseddau bwyd

Mae'r ddwy uned yn cofnodi achosion o darfu er mwyn mesur eu heffaith ar droseddau bwyd. Mae tarfu yn cael ei ddiffinio a'i ddilysu i safonau y cytunwyd arnynt gan gyrff gorfodi'r gyfraith cenedlaethol. Caiff ei gofnodi pan fydd ymyriad yn effeithio'n uniongyrchol ar droseddau bwyd – er enghraifft, pan fydd grŵp troseddol wedi'i atal rhag gweithredu yn y ffordd arferol drwy arestiadau, atafaelu asedau neu trwy ddileu gwefannau a ddefnyddir i farchnata cynhyrchion peryglus yn anghyfreithlon. Mae'r ddwy uned yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant, awdurdodau lleol ac asiantaethau gorfodi eraill ar weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i darfu ar ymddygiadau troseddol neu eu hatal.

Cyflawnwyd cyfanswm o **99 o darfiadau** ar draws yr unedau yn ystod 2023 (Ffigur 45). Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â chymryd camau yn erbyn gweithgarwch troseddol yn y sector cig coch a chynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd a werthwyd fel bwyd. Mae rhai enghreifftiau amlwg i'w gweld isod o'r mathau o darfu a gyflawnwyd.

**Ffigur 45: Y meysydd ffocws allweddol ar gyfer gwaith tarfu a gyflawnwyd gan unedau troseddau bwyd yn 2023**

| Meysydd ffocws allweddol | Nifer yr achosion o darfu |
|---|---|
| Cig a chynhyrchion cig | 40 |
| Cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd | 36 |
| Arall | 15 |
| Dargyfeirio sgil-gynhyrchion anifeiliaid | 8 |
| Alcohol | 0 |
| Pysgod a bwyd môr | 0 |

Ffynhonnell: ASB ac FSS

## Camau targededig yn erbyn marchnata a gwerthu DNP

Ledled y DU, bu gweithgarwch parhaus i fynd i'r afael â gwerthu 2,4 dinitroffenol (DNP), sef cemegyn gwenwynig sy'n cael ei farchnata'n anghyfreithlon fel llosgwr braster. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae hyn wedi cynnwys dileu neu atal gwefannau, atafaelu DNP sy'n dod i mewn i'r DU drwy feysydd awyr, a dedfrydu gwerthwr o'r Unol Daleithiau yn dilyn ymchwiliad hirsefydlog mewn cydweithrediad ag awdurdodau UDA. Yn yr Alban, cafodd gwerthwr o'r DU a gyflenwodd DNP yn fyd-eang ei ddedfrydu i 37 mis yn y carchar, ond gostyngodd yr amser i 28 mis yn dilyn apêl. Bydd y gwrandawiad enillion troseddau yn cael ei glywed maes o law.

## Tarfu ar y fasnach 'smokie'

'Smokies'[71], yw un o'r meysydd ffocws eraill, sef cynnyrch sy'n golygu defnyddio lamp llosgi ar garcasau cig â'r croen. Mae'r dull hwn yn anghyfreithlon yn y DU a gall beri risg sylweddol i iechyd y cyhoedd oherwydd bod natur y cynnyrch a'r dull cynhyrchu ill dau yn cynyddu'r risg y bydd micro-organebau niweidiol yn bresennol. Mae'r cig yn aml yn cael ei gynhyrchu mewn amodau afiach, heb eu rheoleiddio nad ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth lles anifeiliaid. Yn 2023, arweiniodd gweithgarwch cydgysylltiedig rhwng awdurdodau lleol at 12 o darfiadau ledled Lloegr, gan gynnwys tynnu cig 'smokie' o'r gadwyn fwyd. Yn yr Alban, arweiniodd ymgyrch ar y cyd rhwng FSS, Cymdeithas yr Alban i Atal Creulondeb i Anifeiliaid (SSPCA) a Heddlu'r Alban at euogfarn am greulondeb i anifeiliaid mewn perthynas â chynhyrchu 'smokies'.

### Mynd i'r afael â chamymddwyn yng nghadwyn gyflenwi cig yr Alban

Yn yr Alban, roedd bron i ddwy ran o dair (61%) o'r tarfiadau a arweiniwyd gan SFCIU yn canolbwyntio ar gamymddwyn a throseddu'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi cig a chynhyrchion cig, sef patrwm tebyg i 2022. Roedd hyn yn adlewyrchu gweithgarwch ymchwilio a arweiniodd at darfiadau a chefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt gymryd camau mewn safleoedd dan sylw.

## Ymgyrch HAWK a chamau eraill yn erbyn troseddau bwyd

Yng ngwanwyn 2023, bu sylw eang yn y cyfryngau i Ymgyrch HAWK, sef ymchwiliad parhaus yr NFCU i gamgyfleu cynhyrchion cig o'r wlad tarddiad.

Mae hyn wedi arwain at ddiddordeb yn y ffordd y mae rheoleiddwyr a'r diwydiant yn mynd i'r afael â thwyll bwyd, sydd wedi arwain at fesurau newydd i helpu defnyddwyr a busnesau bwyd i adrodd am droseddau bwyd. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys rhif rhadffôn newydd ar gyfer llinell gymorth Troseddau Bwyd Cyfrinachol yr NFCU, datblygiadau cadarnhaol wrth ymgysylltu ynghylch gwybodaeth cyfnewid gyda chynlluniau sicrwydd trydydd parti, a phroses NFCU well ar gyfer cyhoeddi rhybuddion i'r diwydiant yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ar wahân, ac fel rhan o'r ffocws ar ataliaeth hirdymor, lansiodd FSS Offeryn Categoreiddio Risg Troseddau Bwyd ar-lein newydd ym mis Awst 2023 er mwyn helpu busnesau bwyd i ddeall eu risg o droseddau bwyd a chymryd mesurau priodol i ddiogelu eu hunain.

# I grynhoi

- Bu gostyngiad mewn **cyfraddau digwyddiadau bwyd** yn 2023 o gymharu â blynyddoedd diweddar oherwydd gostyngiad mewn achosion o ffliw adar. Mae gweddill niferoedd y digwyddiadau o fewn amrywiad hanesyddol. Nodwn fod achosion o dorri'r rheolau ynghylch alergenau yn parhau i fod yn destun pryder.

- Amlygodd ein **rhaglenni gwyliadwriaeth cenedlaethol** nifer o faterion safonau bwyd. Mae canlyniadau'n parhau i ddangos bod busnesau bwyd bach yn methu'n amlach. Mae nodi alergenau heb eu datgan mewn cynhyrchion PPDS yn peri pryder arbennig ynghylch y risg i ddefnyddwyr. Bydd y ddwy asiantaeth fwyd genedlaethol yn parhau i gefnogi busnesau bwyd i weithredu'r gofynion labelu a gyflwynwyd ym mis Hydref 2021 o dan Gyfraith Natasha.

- Er nad oes tystiolaeth i awgrymu bod nifer y **troseddau bwyd** yn cynyddu, gall ffactorau fel digwyddiadau eithafol yn y gadwyn gyflenwi, newid trefniadau ffiniau ar ôl ymadael â'r UE, ac heriau awdurdodau lleol o ran adnoddau gynyddu'r risg o droseddu o fewn y system fwyd, fel yr adlewyrchir yn ein hasesiad strategol.

# Casgliadau

**Mae safonau uchel yn hanfodol i gynnal hyder yn ein system fwyd. Gall pwysau ar y gadwyn gyflenwi gynyddu'r tebygolrwydd o risgiau diogelwch bwyd ac ymddygiad troseddol, a hynny ar draul iechyd y cyhoedd ac ymddiriedaeth defnyddwyr. Gallai colli hyder yn y sector bwyd hefyd effeithio ar ddiogeledd bwyd y DU a gweithrediad sector bwyd-amaeth y DU, sy'n cyfrannu £147.8 biliwn at y gwerth ychwanegol crynswth cenedlaethol.**

Yn ein dadansoddiad o'r data sydd ar gael ar gyfer 2023, nid oes unrhyw arwydd o newidiadau sylweddol yn y safonau rydym yn eu monitro i asesu a yw bwyd yn ddiogel ac yn ddilys. O ystyried maint a chymhlethdod system fwyd y DU, mae hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch y sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, mae cwestiynau am wydnwch ein system fwyd yn y dyfodol.

Credwn fod tri rheidrwydd strategol yn deillio o ganfyddiadau eleni, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau, busnesau a rheoleiddwyr gydweithio os ydym am barhau i ddarparu lefelau uchel o amddiffyniad i ddefnyddwyr a hyder yn ein safonau bwyd.

## Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar ddigon o fwyd maethlon, diogel yn wyneb pwysau costau byw

Rydym yn ymwybodol iawn o'r effaith y mae chwyddiant prisiau bwyd wedi'i chael ar bŵer gwario defnyddwyr. Mae ein hadolygiad yn tynnu sylw at gynnydd yn nifer y cartrefi sy'n dweud eu bod â diffyg diogeledd bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae bron i hanner y defnyddwyr a arolygwyd yn yr Alban yn dweud eu bod yn poeni am allu fforddio bwyd. Canfu ein hymchwil fod tua un o bob deg (10-12%) o'r ymatebwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a bron i dri o bob deg (29%) o'r ymatebwyr yn yr Alban wedi nodi bod cyfyngiadau ariannol yn peryglu eu gallu i gael gafael ar y bwyd sydd ei angen ar gyfer deiet iach a chytbwys.

Wrth i ni aros am ddata diweddaraf yr Arolwg Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth i ddeall yr effaith lawn ar iechyd deietegol ar draws y DU, mae Arolwg Iechyd yr Alban a gynhaliwyd yn ddiweddar yn cynnwys nifer o ganfyddiadau pwysig. Mae'n dangos bod 79% o blant dwy i 15 oed yn yr Alban yn dal i beidio â bwyta'r pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd a argymhellir, a bod oedolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn llai tebygol o fod yn y categori pwysau iach na'r rhai mewn ardaloedd llai difreintiedig. Yn yr un modd, canfu'r data diweddaraf o Arolwg Iechyd Lloegr yn 2021 fod achosion o fod dros bwysau a gordewdra yn uwch ar gyfer dynion a menywod mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae'r Rhaglen Genedlaethol Mesur Plant yn Lloegr yn dangos gwahaniaethau mwy amlwg byth yn yr achosion o bwysau gormodol ymhlith plant mewn ardaloedd mwy difreintiedig.

Mae pwysau gormodol yn arwydd pwysig o ddeiet gwael ac mae cysylltiad cryf rhwng pwysau gormodol â risgiau iechyd yn y dyfodol. Mae'r gostyngiad parhaus yn nifer y bobl â phwysau iach, a'r gwahaniaethau mewn is-grwpiau o'r boblogaeth yn peri pryder gan y bydd yn gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd presennol. Mae'r ASB ac FSS yn credu'n gryf fod angen rhoi polisïau iechyd y cyhoedd ar waith ar draws y DU a fydd yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi deiet gwael, a fyddai yn ei dro yn lleihau costau salwch sy'n gysylltiedig ag afiechydon y gellid eu hosgoi i raddau helaeth, sy'n deillio o ddeiet gwael.

## Sicrhau cyflenwad ac argaeledd digonol milfeddygon swyddogol i gynnal safonau diogelwch bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid

Mae milfeddygon swyddogol yn hanfodol i weithrediad y gadwyn cyflenwi bwyd a'n gallu allforio. Heb fodel adnoddau dibynadwy a diogel, mae mwy o risg o darfu ar gadwyn gig y DU yn y blynyddoedd i ddod oherwydd prinder staff, yn ogystal â chostau cynyddol a fydd yn cael eu trosglwyddo i fusnesau a defnyddwyr.

Er bod modelau adnoddau'n wahanol, parhaodd yr ASB ac FSS i wynebu problemau sylweddol wrth sicrhau digon o filfeddygon swyddogol yn ystod 2023. Yn yr Alban, bu'n rhaid i FSS ddefnyddio staff asiantaeth i gynnal y gwasanaeth, tra bod yr ASB wedi parhau i ddefnyddio cofrestru dros dro i gynyddu niferoedd. Nid yw'r naill na'r llall yn opsiwn cynaliadwy.

Gallai'r llwybr recriwtio newydd a grëwyd gan yr ASB a'i chyflenwyr – sy'n cynnwys hyfforddi milfeddygon tramor i gynnal rheolaethau swyddogol yn y sector cig wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith a dod yn Filfeddygon Swyddogol cymwys – fod yn ffordd ymarferol ymlaen. Bydd angen hefyd gwneud mwy o ymdrech i recriwtio milfeddygon sydd wedi'u hyfforddi yn y DU. Mae'r ASB ac FSS wedi cymryd camau i liniaru risgiau recriwtio gan gynnwys ailwampio rhaglenni hyfforddi Milfeddygon Swyddogol, cyflwyno taliadau atodol, darparu astudiaethau allanol ar gyfer myfyrwyr milfeddygol a gwella ffyrdd o weithio drwy ymgysylltu'n well â'r sector cig.

Fodd bynnag, bydd y mentrau hyn yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth. Yn y cyfamser, mae'n hanfodol ein bod yn dod o hyd i ateb hirdymor ymarferol, fforddiadwy a fydd yn ein galluogi i barhau i gael cyflenwad digonol o filfeddygon a'u hyfforddi, er mwyn cynnal lefelau staffio. Mae hefyd yn anochel y bydd costau'n codi o ystyried y codiadau cyflog sydd eu hangen i recriwtio a chadw milfeddygon. Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn y DU yn parhau i gael bwyd y gallant ymddiried ynddo, nawr ac yn y dyfodol, bydd angen newid deddfwriaethol, cymorth ariannol, llwybr recriwtio cadarn, a dull gweithredu cydgysylltiedig ar draws y llywodraeth, diwydiant a'r proffesiwn milfeddygol.

### Sicrhau cyflenwi a chyllido gweithlu awdurdodau lleol i gynnal safonau bwyd

Yn Ein Bwyd 2022, disgrifiwyd y gostyngiad hirdymor yn nifer y swyddi iechyd yr amgylchedd, safonau masnach a chyfraith bwyd. Gwnaethom barhau i weld effaith y prinderau hyn yn 2023. Er bod lefelau samplu awdurdodau lleol yn codi, mae'n dal i fod yn llawer is nag yr oeddent ddegawd yn ôl, gan gynyddu'r risg y bydd problemau diogelwch a dilysrwydd hanfodol yn syrthio drwy'r rhwyd.

Mae ein dadansoddiad yn dangos bod timau hylendid a safonau bwyd yn dal i weithredu gyda llai o adnoddau na degawd yn ôl, bod llwythi gwaith wedi cynyddu (cynnydd amcangyfrifedig o 10% ar gyfer swyddog hylendid bwyd cyfartalog), gyda mwy o fusnesau i'w harolygu a'u bod yn cael trafferth dal i fyny ag arolygiadau hwyr yn sgil pandemig COVID-19. Mae ein trafodaethau ag awdurdodau lleol yn awgrymu bod heriau parhaus o ran adnoddau a recriwtio yn golygu eu bod yn aml yn gweithredu gyda staff llai profiadol.

Er bod awdurdodau lleol yn blaenoriaethu gweithgarwch ar sail risg, sy'n golygu bod y busnesau risg uchaf i raddau helaeth wedi'u harolygu, mae oedi wrth arolygu busnesau risg is a sefydliadau bwyd newydd yn parhau i beri pryder difrifol. Mae hylendid gwael yn gostus i iechyd y cyhoedd a'r economi. Mae gwaith dadansoddi yn awgrymu bod sefydliadau sy'n cydymffurfio'n fras (y rhai sydd â sgôr CSHB o 3, 4 a 5) yn cyfrannu at lai o frigiadau o achosion o glefydau a gludir gan fwyd na'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio'n fras (y rhai sydd sgôr â o 0, 1 a 2). Mae model Cost Salwch yr ASB yn amcangyfrif bod clefydau a gludir gan fwyd yn costio cyfanswm o tua £10.4 biliwn y flwyddyn i'r DU.

## System fwyd sy'n darparu ar gyfer defnyddwyr: yr heriau uniongyrchol

Mae llawer i'w ddathlu yng ngwydnwch system fwyd y DU o ystyried yr heriau dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn falch o chwarae ein rhan yn y stori hon: fel rheoleiddwyr, gallwn helpu i greu'r amodau cywir i'r diwydiant bwyd ffynnu a pharhau i weithredu fel rheng flaen gref wrth ddiogelu defnyddwyr. Fodd bynnag, rhaid i ni roi mesurau diogelu ar waith fel eu bod yn gwneud hynny'n ddiogel ac yn gyfrifol. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r heriau uniongyrchol y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw gyda'n gilydd, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â darparu adnoddau ar gyfer ein rheolaethau bwyd, gan gynnwys o fewn awdurdodau lleol.

### Cryfhau'r broses o rannu gwybodaeth rhwng y diwydiant bwyd a'r llywodraeth

Gall mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol a mwy o rannu data ar draws y system hwyluso a gwella'r broses o gasglu gwybodaeth, er mwyn barnu a yw safonau hylendid yn cael eu cynnal. Gallai mwy o gydweithio â'r diwydiant bwyd helpu i fynd i'r afael â rhai o'n pryderon ynghylch y gostyngiad mewn gweithgarwch samplu gan awdurdodau lleol. Er enghraifft, byddai rhannu mwy o ganlyniadau gwyliadwriaeth a samplu'r diwydiant yn helpu i lenwi bylchau mewn data, gan ganiatáu i ni gael trosolwg mwy cynhwysfawr o'r meysydd risg.

### Mwy o weithredu gan y diwydiant ar gydymffurfio â labelu alergenau

Yn wyneb y cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty oherwydd alergeddau bwyd, rydym yn pryderu ynghylch y diffyg cydymffurfio rydym yn parhau i'w weld yn ein gwaith samplu, a'r ffaith nad yw nifer y digwyddiadau a gofnodir yn lleihau fel y byddem yn ei ddisgwyl. Rydym am weld y diwydiant yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros wella cydymffurfiaeth o ran labelu alergenau, o ystyried canlyniadau labelu anghywir, a all beryglu bywyd. Dylai defnyddwyr ag alergeddau bwyd allu bod yn hyderus na fydd y bwyd y maent yn ei brynu yn achosi niwed iddynt.

### Cynnal safonau bwyd a fewnforir

Mae angen i ni hefyd gynnal safonau'r bwyd sy'n cael ei fewnforio i'r DU. Mae ein perthnasoedd masnachu yn newid a gall bargeinion masnach newydd gael effaith ar faint o fwyd y byddwn yn ei fewnforio. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid rhyngwladol i sicrhau bod ein safonau'n cael eu cynnal. Bydd data o wiriadau ar y ffin yn hanfodol i fonitro a yw lefelau uchel o amddiffyniad i'r cyhoedd yn cael eu cynnal. Bydd y model risg newydd yn ein galluogi i sicrhau bod rheolaethau yn gymesur â risg, yn unol â'n hegwyddorion rheoleiddio.

## Edrych i'r dyfodol

Mae'r heriau a amlygir yn yr adroddiad hwn yn dangos lle mae angen gweithredu os ydym am gadw safonau bwyd y DU yn uchel yn y dyfodol.

Mae ein system yn ataliol, gyda busnesau bwyd yn sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn ddilys, ac awdurdodau lleol a rheoleiddwyr yn gwirio eu bod yn gwneud hynny. Ond mae rhai rhannau o'r system honno sy'n diogelu'r cyhoedd wedi bod yn dirywio ac mae angen buddsoddiad o ran adnoddau a sgiliau. Heb yr arbenigedd a ddarperir gan filfeddygon

swyddogol, swyddogion diogelwch bwyd a swyddogion safonau masnach, mae risg wirioneddol y bydd safonau o fewn busnesau bwyd yn dirywio, gan roi pobl mewn mwy o berygl o fynd yn sâl, a pheryglu ymddiriedaeth yn ein system fwyd.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gwybod bod y system fwyd yn esblygu ar gyflymder digynsail yn wyneb heriau byd-eang a'r cyfleoedd a gyflwynir gan dechnolegau newydd. Mae gosod y safonau cywir a sicrhau bod y capasiti a'r gallu i'w rhoi ar waith yn gadarn yn elfen hollbwysig er mwyn galluogi ein system fwyd i esblygu a ffynnu.

Mae'r ASB ac FSS wedi ymrwymo i wella'n barhaus y fframweithiau rheoleiddio sy'n cefnogi'r system fwyd. Fodd bynnag, ni all yr un sefydliad neu lywodraeth unigol sicrhau bod pob defnyddiwr yn cael mynediad cyfartal at fwyd diogel, iach a chynaliadwy, a rhaid i ni weithio mewn partneriaeth i ddarparu'r system fwyd y mae defnyddwyr ei heisiau a'i hangen yn y dyfodol.

# Atodiadau

# Atodiad 1: Cyfeiriadau penodau a nodiadau esboniadol

1 Pwyllgor EFRA – tystiolaeth lafar
Prinder milfeddygon – tystiolaeth ysgrifenedig pwyllgor EFRA 128651
Prinder milfeddygon – tystiolaeth ysgrifenedig pwyllgor EFRA 128697

2 Yr hyn sy'n sbarduno chwyddiant bwyd – Ffederasiwn Bwyd a Diod

3 Chwyddiant prisiau bwyd ac ynni, y DU – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

4 Prisiau Ynni Chwarterol, Rhagfyr 2023 (publishing.service.gov.uk)

5 Gweithlu amaethyddol yn y DU ar 1 Mehefin 2023 – GOV.UK (www.gov.uk)

6 Ymateb yr NFU i Adolygiad Annibynnol Defra o'r Prinder Llafur – NFUonline

7 Met Office: Adolygiad o hinsawdd y DU yn 2023 – Briff Carbon

8 Prinder ffrwythau a llysiau wrth i dywydd yn y DU a Sbaen effeithio ar gnydau

9 Prisiau gwrtaith Prydain Fawr | AHDB

10 Prisiau tanwydd | AHDB

11 Prisiau'r dyfodol | AHDB

12 Mewnwelediadau costau byw – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

13 Ystyr CPIH yw Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr, gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr. Dyma'r prif ddull o fesur chwyddiant y DU a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Caiff ei fesur drwy edrych ar y newid cyfartalog dros amser yn y prisiau y mae defnyddwyr yn eu talu am fasged o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr a threth y cyngor.

14 Gwasanaeth Ymchwil Economaidd Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau (USDA) – Dull mesur

15 Oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y caiff y data ei gasglu, ni allwn wneud cymariaethau uniongyrchol rhwng y mesur USDA swyddogol, fel y nodir yn arolwg Bwyd a Chi 2, a'r mesurau mwy anffurfiol sy'n cael eu holrhain yn fisol o rai ymddygiadau sy'n ymwneud â diffyg diogeledd bwyd.

16 Mae'r ASB wedi mesur diffyg diogeledd bwyd ers 2016. Yn 2016 a 2018, cafodd diffyg diogeledd bwyd ei fesur yn arolwg Bwyd a Chi. Ers 2020, mae wedi cael ei fesur yn arolwg Bwyd a Chi 2.

17 Ein hamcangyfrif gorau o'r newid o ran nifer yr oedolion 16 oed a hŷn sydd â diffyg diogeledd bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon rhwng Cylch 5 a Chylch 6 Bwyd a Chi 2 yw y bu cynnydd o 2.5 miliwn. Fodd bynnag, rydym 95% yn sicr mai'r gwir werth yw rhwng 1.8 miliwn a 3.3 miliwn.

18 Nid oes modd dadansoddi'r data hwn fesul gwlad ac mae wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio fel data tair gwlad cyfunol.

19 Mae'r Sefydliad Bwyd wedi defnyddio cynllun basgedi Canolfan Ymchwil Polisi Cymdeithasol Prifysgol Loughborough er mwyn adlewyrchu dynion a menywod o oedran gweithio. Mae mwy o eitemau ym masged y dynion, ac mae gan ddynion ofynion caloriau uwch. O'r herwydd, mae'r fasged hon yn costio ychydig yn fwy na basged y menywod.

20 Olrhain Prisiau Bwyd | Sefydliad Bwyd

21 Daeth y flaenoriaeth y mae defnyddwyr yn ei rhoi i ansawdd a diogelwch sylfaenol bwyd i'r amlwg pan ofynnwyd i bobl nodi eu prif bryderon heb gael rhestr o opsiynau. Yn arolwg Bwyd a Chi 2, dywedodd defnyddwyr eu bod yn pryderu fwyaf am ansawdd neu ffresni bwyd; bod bwyd wedi'i goginio neu ei baratoi'n iawn; a'r defnydd o ychwanegion fel lliwiau neu gyffeithyddion mewn cynhyrchion bwyd.

22 Gofynnwyd y canlynol i'r ymatebwyr: "A oes gennych chi bryderon am unrhyw rai o'r canlynol? Faint o siwgr sydd mewn bwyd, gwastraff bwyd, lles anifeiliaid, hormonau, steroidau neu wrthfiotigau mewn bwyd, faint o halen sydd mewn bwyd, faint o fraster sydd mewn bwyd, gwenwyn bwyd, hylendid bwyd wrth fwyta allan; hylendid bwyd wrth archebu bwyd tecawê; y defnydd o blaladdwyr; twyll neu droseddau bwyd; y defnydd o ychwanegion (er enghraifft, cyffeithyddion (preservatives) a lliwiau bwyd); prisiau bwyd; bwydydd a addaswyd yn enetig (GM); halogi cemegol o du'r amgylchedd; taith bwyd; nifer y caloriau mewn bwyd; gwybodaeth am alergenau mewn bwyd; coginio'n ddiogel gartref; dim un o'r rhain; ddim yn gwybod". Roedd yr ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un ateb. Mae'r canrannau'n dangos cyfran yr ymatebwyr a ddewisodd bob opsiwn.

23 Rhaglen Genedlaethol Mesur Plant 2023: gwybodaeth i ysgolion – GOV.UK (www.gov.uk)

24 Dadansoddiad yr ASB o ddata masnach CThEF

25 Cêc olew yw'r hyn sy'n weddill ar ôl tynnu'r olew o hedyn olew (er enghraifft, ffa soia). Mae'n gyfoethog mewn protein ac yn fwyd anifeiliaid gwerthfawr.

**26** Sylwch, ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir o'r UE a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA) ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon, ers mis Ionawr 2022 bu'n ofynnol i fewnforwyr hysbysu ymlaen llaw am gludo llwythi cymwys. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i fonitro na'i orfodi'n rheolaidd. Bydd system fwy cadarn ar gyfer rhaghysbysu nwyddau o'r UE yn cael ei chyflwyno o fis Ionawr 2024.

**27** Yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, a'r Alban, mae'r cynlluniau hyn yn cwmpasu busnesau bwyd sy'n darparu bwyd i'r defnyddiwr terfynol, fel bwytai, tafarndai, caffis, siopau tecawê, ysbytai, ysgolion, a chartrefi gofal. Yng Nghymru, mae'r cynllun hefyd yn cwmpasu gweithrediadau busnes-i-fusnes, fel gweithgynhyrchwyr.

**28** Mae'r CSHB a'r FHIS yn darparu gwybodaeth am safon hylendid bwyd sefydliadau yn seiliedig ar eu harolygiad diweddaraf. Mae'r CSHB yn rhoi sgôr rhwng 0 a 5 lle mae 5 yn cynrychioli'r sgôr uchaf, sy'n golygu safonau hylendid 'da iawn'. Mae'r FHIS yn rhoi dyfarniad 'Pasio' neu 'Angen gwella'. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae sgôr CSHB o 3 neu uwch yn dangos sgôr foddhaol neu well ar gyfer busnesau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a aseswyd o dan y CSHB, a 'sgôr pasio' ar gyfer busnesau yn yr Alban a aseswyd o dan yr FHIS. Oherwydd y gwahaniaethau rhwng yr FHIS a'r CSHB, nid oes modd cymharu'r data rhwng yr Alban a gweddill y DU.

**29** Diweddarwyd y set ddata ar gyfer y ffigur hwn gyda'r data terfynol ar gyfer 2022 ar ôl cyhoeddi adroddiad y llynedd. Defnyddiwyd y data diweddaredig hwn i gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng 2022 a 2023 yn Ffigur 2, yn hytrach na'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn adroddiad y llynedd.

**30** Diweddarwyd y set ddata ar gyfer y ffigur hwn (18) gyda'r data terfynol ar gyfer 2022 ar ôl cyhoeddi adroddiad y llynedd. Defnyddiwyd y data diweddaredig hwn i gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng 2022 a 2023 yn Ffigur 2, yn hytrach na'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn adroddiad y llynedd.

**31** Mae'r System Sgorio Cyfraith Bwyd (FLRS) wedi bod yn disodli'r system sgorio etifeddol ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau bellach wedi trosglwyddo i FLRS, felly bydd sgoriau hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu hadrodd ar wahân y tu hwnt i'r adroddiad hwn.

**32** Yn 2022, roedd mwy o safleoedd yn cael ymweliad am y tro cyntaf o dan system sgorio risg yr FLRS. Roedd llawer o'r safleoedd hynny a gafodd ymweliad yn flaenorol o dan y system Atodiad 5 etifeddol yn trosglwyddo i'r FLRS yn ystod y cyfnod adfer hwnnw yn sgil y pandemig. Felly, nid yw canlyniadau ffigurau'r FLRS yn 2022 yn gwbl gymaradwy â ffigurau'r FLRS yn 2023.

**33** Adran 5 Ymyriadau – Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (yr Alban) 2019

34 Wrth bennu risg, ystyrir y math o fwyd sy'n cael ei drin, nifer a'r math o gwsmeriaid, y mathau o brosesau a gyflawnir cyn gwerthu neu weini'r bwyd, a'r safonau hylendid a welwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf.

35 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad manwl ar berffomiad awdurdodau lleol wrth gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd, gan gynnwys pryderdon ynghylch adnoddau.

36 Capasiti a gallu awdurdodau lleol: Pennod 4 Cadw staff sydd â chymwysterau a phrofiad addas/priodol o fewn awdurdodau lleol | Asiantaeth Safonau Bwyd

37 Atodiad 5 yw'r system sgorio risg etifeddol yn yr Alban sy'n cael ei disodli'n raddol gan FLRS.

38 Ch1 – Ebrill, Mai, Mehefin; Ch2 – Gorffennaf, Awst, Medi; Ch3 – Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; C4 – Ionawr, Chwefror, Mawrth.

39 Mae sefydliadau cig cymeradwy yn trin, yn paratoi neu'n cynhyrchu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y mae gofynion wedi'u gosod ar eu cyfer yng nghyfraith yr UE a gymathwyd 853/2004.

40 Bydd lefel y manylder yn adroddiad y flwyddyn nesaf yn caniatáu ar gyfer gwahaniaethu rhwng Cymru a Lloegr.

41 Eglurhad o gydymffurfiaeth hylendid ar gyfer categorïau sgôr sefydliadau cig

42 Set ddata ynghylch y llaeth sydd ar gael, sut y caiff ei ddefnyddio a'i gynhyrchu: data hyd at fis Ionawr 2024

43 Mae data diweddaraf o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer arolygiadau bwyd anifeiliaid yn dangos y sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd â sgôr o naill ai 'Cydymffurfio'n Wael', 'Cydymffurfio'n Amrywiol', 'Cydymffurfio'n Foddhaol', 'Cydymffurfio i raddau helaeth neu'n well' a 'Chydymffurfio'n Foddhaol at Safon Ofynnol ac aelod o Gynllun Sicrwydd sy'n cael ei gydnabod gan yr ASB'. Ystyrir bod unrhyw sefydliad sydd â sgôr uwch na 'Boddhaol' yn cydymffurfio. Mae mwy o wybodaeth yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.

44 Mae data diweddaraf o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dangos yr arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r data diweddaraf ar gyfer yr Alban yn seiliedig ar flwyddyn galendr 2023.

45 Mae awdurdodau lleol yn anfon data ynghylch y gweithlu at yr ASB bob chwe mis: ar ganol a diwedd blwyddyn ariannol. Mae arolygon hanner blwyddyn yn rhoi syniad da i ni o'r gweithlu, fodd bynnag, ni ellir dod i gasgliadau terfynol na gwneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

46 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad Awdurdodau Lleol | Asiantaeth Safonau Bwyd

47 Ar sail 537,229 o fusnesau a 1,699 o swyddogion CALI yn 2012/13, sef 316.9 o fusnesau fesul pob swyddog CALI a 567,777 o fusnesau a 1620 o swyddogion CALI yn 2022/23, felly 350.5 o fusnesau fesul pob swyddog CALI, cynnydd o 10.6%.

48 I gael dadansoddiad manylach o berfformiad awdurdodau lleol, gweler papur Bwrdd yr ASB ar gyfer mis Tachwedd.

49 Mae hyn yn seiliedig ar adborth gan grwpiau cyswllt awdurdodau lleol yr ASB. Mae crynodeb o bryderon awdurdodau lleol ar gael ar wefan yr ASB.

50 Mae seren yn dynodi ffurflen hanner blwyddyn.

51 Roedd awdurdodau lleol yn mewnbynnu eu data ar LAEMS hyd at 31 Mawrth 2020, pan ddaeth y system i ben. Ers y dyddiad hwn, mae'r data wedi'i gasglu drwy arolwg gan yr ASB i awdurdodau lleol.

52 Prinder milfeddygon – tystiolaeth ysgrifenedig Pwyllgor EFRA

53 Yr ystadegau diweddaraf ynghylch lladd gwartheg, defaid a moch – GOV.UK (www.gov.uk)

54 Yr ystadegau diweddaraf am ddofednod a chig dofednod – GOV.UK (www.gov.uk)

55 Pennwyd maint y samplau trwy ddadansoddiad ystadegol a gynhaliwyd gan yr ASB a oedd yn ystyried cost ac effeithiolrwydd y rhaglen.

56 Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. (VSH0003)

57 Defnyddir glyserol yn helaeth yn lle siwgr i greu'r effaith slwsh mewn diodydd slwsh sy'n cynnwys dim llawer o galorïau neu ddim o gwbl. Mae glyserol yn ychwanegyn Grŵp 1, ac felly fe'i ystyrir yn ddiogel ac nid oes ganddo lefel ddefnydd uchaf.

58 Ystyr halogiad microbiolegol yw cyflwyno cyfryngau microbaidd fel bacteria, firysau neu barasitiaid yn anfwriadol.

59 Pennwyd maint y samplau trwy ddadansoddiad ystadegol a gynhaliwyd gan yr ASB a oedd yn ystyried cost ac effeithiolrwydd y rhaglen.

60 Yn 2022/23, ni phrofwyd pasta gwenith caled oherwydd na chanfuwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Cafodd ei gyflwyno eto yn 2023/24, yn dilyn gwybodaeth newydd yn dod i law.

61 Mewn tri o'r samplau olew olewydd, nododd y profion bresenoldeb perocsidau, sef cyfansoddion ansefydlog sy'n ffurfio pan fydd yr olew yn adweithio ag ocsigen. Mae gan olewau ffres werth perocsid isel, ond wrth i olew heneiddio neu fynd yn afiach, bydd y gwerth perocsid yn cynyddu sy'n golygu nad yw'r cynnyrch yn ffres. I gael mwy o wybodaeth: Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 2568/91 dyddiedig 11 Gorffennaf 1991 ar nodweddion olew olewydd ac olew gweddillion olewydd ac ar y dulliau dadansoddi perthnasol (legislation.gov.uk)

62 Yn yr achos hwn, nid oedd y sampl olew olewydd yn bodloni'r cyfansoddiad asid brasterog rhagnodedig ar gyfer olew olewydd 'extra virgin'. O ganlyniad, ni ddylai fod wedi'i ddisgrifio fel 'extra virgin'.

63 Er enghraifft, roedd yr achosion hyn o ddiffyg cydymffurfio'n cynnwys gwybodaeth ar goll am gydrannau cynhwysion cyfansawdd neu alergenau heb eu hamlygu'n briodol ar labeli.

64 Cafodd cynhyrchion pysgod a grawnfwyd a fewnforiwyd eu profi hefyd fel rhan o'r rhaglen, ond cawsant eu profi at ddibenion casglu data yn hytrach na chydymffurfio, felly nid ydynt wedi'u cyflwyno yma.

65 1.2% yw'r trothwy y byddai angen datgan alcohol uwchlaw'r trothwy ac roedd y samplau anfoddhaol i gyd rhwng 1.3% a 2%.

66 Diweddariad Gwyddoniaeth Blynyddol yr ASB | Asiantaeth Safonau Bwyd

67 Roedd y samplau hyn yn cynnwys bara, teisennau, brechdanau, prydau parod, selsig a chacennau.

68 Diweddariad Gwyddoniaeth Blynyddol yr ASB | Asiantaeth Safonau Bwyd

69 Mae disgrifiad llawn o'r saith math gwahanol o droseddau bwyd, yn ôl yr ASB, ar gael ar wefan yr ASB.

70 Cynhyrchion nad oeddent wedi'u bwriadu ar gyfer marchnad y DU ond sy'n cyrraedd marchnad y DU yw'r rhain, er enghraifft, melysion Americanaidd lle mae'n bosib nad yw'r labeli'n cydymffurfio â rheoliadau'r DU neu gynhyrchion sy'n cynnwys ychwanegion nad ydynt wedi'u hawdurdodi yn y DU.

71 Bwyd sy'n cael ei baratoi trwy'r broses anghyfreithlon o ddefnyddio lamp llosgi i gael gwared ar gnu carcas dafad neu gafr heb groen yw 'smokie'.

# Atodiad 2: Rhestr o dermau

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Afflatocsinau | Cyfansoddion gwenwynig a gynhyrchir gan rai mathau penodol o lwydni a geir mewn bwyd, a all achosi niwed i'r afu a chanser. |
| Alergenau | Mae 14 prif alergen y mae'n rhaid eu datgan yn ôl y gyfraith, ond gall defnyddwyr fod ag alergedd neu anoddefiad i fwydydd neu gynhwysion eraill. |
| *Campylobacter* | Achos o wenwyn bwyd sy'n cael ei ledaenu'n bennaf trwy groeshalogi gan gyw iâr amrwd. |
| Cêc olew | Yr hyn sy'n weddill ar ôl tynnu'r olew o hedyn olew (er enghraifft, ffa soia). Mae'n llawn protein ac yn fwyd anifeiliaid gwerthfawr. |
| CPIH | Ystyr CPIH yw Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr, gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr. Dyma'r prif ddull o fesur chwyddiant yn y DU, ac fe'i cynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Caiff ei fesur drwy edrych ar y newid cyfartalog dros amser yn y prisiau y mae defnyddwyr yn eu talu am fasged o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys costau tai perchnogion a deiliaid a'r dreth gyngor. |
| Cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd | Cynhyrchion nad ydynt wedi'u bwriadu i'w bwyta ac sy'n peri risg iechyd a diogelwch difrifol os cânt eu bwyta. |
| Cytundebau masnach rydd | Mae cytundebau masnach yn nodi'r rheolau sy'n ymwneud â masnach rhwng dwy wlad neu fwy. Eu nod yw hwyluso masnachu rhwng y gwledydd hynny. Maent yn gwneud hyn drwy leihau'r cyfyngiadau ar fewnforion ac allforion rhyngddynt. |
| Diffyg diogeledd bwyd yn y cartref | Term a ddefnyddir i ddisgrifio cartrefi sydd heb fynediad dibynadwy at ddigon o fwyd fforddiadwy a maethlon. Mae diogeledd bwyd yn bodoli pan fydd gan bawb, ar bob adeg, fynediad ffisegol ac economaidd at fwyd digonol, diogel a maethlon sy'n bodloni eu hanghenion deietegol a'u dewisiadau bwyd ar gyfer byw bywyd bywiog ac iach. |
| Dinitroffenol (DNP) | Cemegyn hynod docsig, sy'n wenwynig i bobl ac a all achosi marwolaeth. |

| Term | Esboniad |
| --- | --- |
| *E. coli* | Math o facteria yw *Escherichia coli* sydd i'w gael yng ngholuddion anifeiliaid a phobl. Gall rhai mathau achosi salwch difrifol mewn pobl, fel E. coli sy'n cynhyrchu sytotocsinau Vero (VTEC). |
| Halogiad microbiolegol | Ystyr halogiad microbiolegol yw cyflwyno cyfryngau microbaidd fel bacteria, firysau neu barasitiaid yn anfwriadol. |
| *Listeria* | Mae *listeria monocytogenes* (listeria) yn facteriwm a gludir gan fwyd sy'n achosi salwch o'r enw listeriosis. |
| Micro-organebau pathogenig | Organebau bach iawn sy'n gallu achosi clefydau. Maent yn cynnwys firysau, bacteria, ffyngau, a phrotistiaid. Gall y pathogenau hyn heintio pobl, anifeiliaid a phlanhigion, a gallant ledaenu mewn amrywiol ffyrdd, fel trwy'r aer, yn y dŵr, neu drwy gyswllt uniongyrchol. Pan fyddant yn mynd i mewn i letywr, gallant atgynhyrchu a rhyddhau tocsinau sy'n niweidio'r lletywr ac achosi salwch. |
| Nwyddau'r marchnad llwyd | Cynhyrchion nad oeddent wedi'u bwriadu ar gyfer marchnad y DU ond sy'n cyrraedd marchnad y DU – er enghraifft, melysion Americanaidd lle mae'n bosib nad yw'r labeli'n cydymffurfio â rheoliadau'r DU, neu gynhyrchion sy'n cynnwys ychwanegion nad ydynt wedi'u hawdurdodi yn y DU. |
| Ocratocsin A | Mycotocsin yw ochratocsin A, a gynhyrchir gan sawl rhywogaeth o ffyngau Aspergillus a Penicillium. |
| Pathogen | Bacteriwm, feirws neu organeb arall a all achosi clefyd. |
| Prosesu anghyfreithlon | Term a ddefnyddir i ddisgrifio lladd, paratoi neu brosesu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio perthnasol. |
| Prosesu anghyfreithlon | Lladd, paratoi neu brosesu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio perthnasol. |
| Rheolaethau swyddogol | Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu arolygiadau, gwaith gorfodi, cyngor a chanllawiau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu ganllawiau'r llywodraeth. |
| Rhydd rhag | Mae datganiad 'rhydd rhag' yn dynodi neu'n ymwneud â chynhyrchion bwyd nad ydynt yn cynnwys cynhwysion y gwyddys eu bod yn achosi adwaith mewn pobl ag alergeddau neu anoddefiadau bwyd. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| *Salmonela* | Mae salmonelâu yn grŵp o facteria cyffredin sy'n achosi gwenwyn bwyd. Fel arfer, cânt eu lledaenu drwy goginio annigonol a thrwy groeshalogi. Mae haint *Salmonela* (salmonelosis) yn glefyd bacteriol cyffredin sy'n effeithio ar y llwybr coluddol. Mae bacteria Salmonela fel arfer yn byw yng ngholuddion anifeiliaid a phobl ac yn cael eu gollwng trwy ysgarthion. Mae pobl yn cael eu heintio amlaf trwy ddŵr neu fwyd wedi'i halogi. |
| Samplu | Gwiriadau i sicrhau bod cynnyrch yn cyrraedd y safon angenrheidiol. Gall hyn gynnwys bod yn ddiogel, bod o'r safon a ddymunir, neu fod â'r labelu cywir. Cymerir samplau i gefnogi gwaith gorfodi, fel rhan o wiriadau busnes ac at ddibenion ymchwil a gwyliadwriaeth. |
| Smokies | Bwyd sy'n cael ei baratoi trwy'r broses anghyfreithlon o ddefnyddio lamp llosgi i gael gwared ar gnu carcas dafad neu gafr heb groen yw 'smokie'. |
| Staff Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) | Metrig safonol ar gyfer mesur llwyth gwaith gweithwyr neu fyfyrwyr, gan hwyluso cymharu llwythi gwaith mewn lleoliadau amrywiol. |
| Tarfiadau | Dull o ymyriadau troseddau bwyd a roddwyd ar waith yn ddiweddar sy'n atal neu'n lleihau'r cyfle i gyflawni troseddau bwyd ac sydd, wrth wneud hynny, yn cynyddu diogeledd bwyd y DU. |
| Teithiwr cudd | Mae teithiwr cudd (stowaway) yn berson sy'n mynd ar gerbyd yn gyfrinachol, fel llong, awyren, trên, tryc cargo neu fws. |
| Twyll dosbarthu Ewropeaidd | Pan fydd cwmni o Ewrop yn danfon nwyddau i'r DU, ond nid yw'n cael ei dalu am y nwyddau na'r gost o'u cludo. |
| Wedi'i addasu'n enetig | Cynnyrch wedi'i gynhyrchu o organebau y mae eu genynnau wedi'u newid i gyflwyno nodweddion nad ydynt wedi'u creu trwy ddetholiad naturiol. |
| Wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) | Mae bwyd 'wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol' yn cyfeirio at fwyd sydd wedi'i becynnu ar yr un safle ag y caiff ei werthu. |
| Ychwanegion | Cynhwysion sy'n cael eu hychwanegu at fwyd i gyflawni swyddogaethau penodol. |

# Atodiad 3: Tabl ffigurau

## Pennod 1: Plât y genedl


| Ffigur | Teitl | Tudalen |
|---|---|---|
| Ffigur 1: | Cyfraddau chwyddiant bwyd o gymharu â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr cyffredinol, gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH) 2023 | Tudalen 13 |
| Ffigur 2: | Diffyg diogeledd bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Gorffennaf 2023 | Tudalen 18 |
| Ffigur 3: | Pa grwpiau sydd fwyaf agored i ddiffyg diogeledd bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon? | Tudalen 19 |
| Ffigur 4: | Pryderon a nodwyd ynghylch gallu fforddio bwyd ers mis Gorffennaf 2021 yn yr Alban | Tudalen 20 |
| Ffigur 5: | Canran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi ymgymryd ag arferion bwyd peryglus yn y cartref yn ystod y pum mis diwethaf yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | Tudalen 21 |
| Ffigur 6: | Cymharu'r cynnydd canrannol cyfartalog mewn costau o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer categorïau'r Canllaw Bwyta'n Dda yn ystod 2022 a 2023 | Tudalen 23 |
| Ffigur 7: | Cymharu'r newidiadau ym mhrisiau cyfartalog cynhyrchion rhwng mis Ionawr 2023 a mis Rhagfyr 2023 | Tudalen 24 |
| Ffigur 8: | Y prif bryderon ynghylch bwyd a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ystod 2022 a 2023 | Tudalen 25 |
| Ffigur 9: | Y 10 prif bryder a nodwyd gan ddefnyddwyr yn yr Alban ym mis Rhagfyr 2023 | Tudalen 26 |
| Ffigur 10: | Canran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi cymryd camau i arbed arian yn ystod y pum mis diwethaf yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | Tudalen 27 |

## Pennod 2: Safbwynt byd-eang


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 11: | Cyfanswm y bwyd a'r bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd i'r DU dros amser (2014-2023) | Tudalen 33 |
| Ffigur 12: | Newid canrannol blynyddol yng nghyfanswm cyfeintiau mewnforion y DU ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid (2015-2023) | Tudalen 34 |
| Ffigur 13: | Y 10 gwlad â'r cyfeintiau mewnforio uchaf ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid yn 2023 | Tudalen 35 |
| Ffigur 14: | Cyfanswm cyfaint y mewnforion wedi'i rannu yn ôl prif gategorïau POAO, FNAO a bwyd anifeiliaid | Tudalen 36 |
| Ffigur 15: | Canran y llwythi o'r tu allan i'r UE sy'n methu gwiriadau mewnforio ym Mhrydain Fawr (2021-2023) | Tudalen 38 |
| Ffigur 16: | Newidiadau i ddynodiad bwydydd risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid yn 2023 | Tudalen 39 |


## Pennod 3: Pwysigrwydd hylendid


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 17: | Cyfrifoldebau am gynnal rheolaethau hylendid bwyd ledled y DU | Tudalen 47 |
| Ffigur 18: | Canran y busnesau bwyd yn y DU a gafodd sgôr o '3 – boddhaol ar y cyfan' neu well (CSHB) neu ddyfarniad 'Pasio' (FHIS) ym mis Rhagfyr 2023 | Tudalen 48 |
| Ffigur 19: | Dosbarthiad canrannol y sgoriau CSHB diweddaraf ym mis Rhagfyr 2023 | Tudalen 49 |
| Ffigur 20: | Canran y busnesau bwyd a oedd yn destun arolygiad yn yr Alban a oedd yn cydymffurfio â'r FLRS* yn 2022 a 2023 | Tudalen 49 |
| Ffigur 21: | Nifer y busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a gafodd sgôr hylendid bwyd, fesul chwarter, rhwng 2019/20 a 2023/24 | Tudalen 51 |
| Ffigur 22: | Nifer yr asesiadau FHIS a gynhaliwyd mewn busnesau bwyd yn yr Alban, fesul chwarter, rhwng 2019/20 a 2023/2024 | Tudalen 52 |
| Ffigur 23: | Canran y sefydliadau cig a gafodd sgôr 'Da' neu 'Boddhaol ar y cyfan' o ran hylendid yn 2023 | Tudalen 53 |

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 24: | Dadansoddiad o’r sgoriau cydymffurfio o ran hylendid ar gyfer sefydliadau cig cymeradwy, a’r newid canrannol o gymharu â 2022 mewn cromfachau. | Tudalen 54 |
| Ffigur 25: | Canran y sefydliadau llaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a gafodd y canlyniadau uchaf, sef ‘Da’ neu ‘Boddhaol ar y cyfan’ | Tudalen 55 |
| Ffigur 26: | Dadansoddiad o’r sgoriau a cydymffurfio o ran hylendid ar gyfer sefydliadau cig o ddata arolygiadau | Tudalen 56 |
| Ffigur 27: | Canran y sefydliadau bwyd anifeiliaid yr aseswyd eu bod yn cydymffurfio â safonau hylendid | Tudalen 58 |
| Ffigur 28: | Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes hylendid bwyd wedi’u dyrannu mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | Tudalen 61 |
| Ffigur 29: | Canran y swyddi (CALl) ym maes hylendid bwyd heb eu llenwi mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | Tudalen 62 |
| Ffigur 30: | Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes safonau bwyd wedi’u dyrannu mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | Tudalen 62 |
| Ffigur 31: | Canran y swyddi (CALl) ym maes safonau bwyd heb eu llenwi mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | Tudalen 63 |


## Pennod 4: Diogelwch a dilysrwydd


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 32: | Nifer y digwyddiadau bwyd yr adroddwyd amdanynt yn y DU | Tudalen 49 |
| Ffigur 33: | Y pum prif gategori bwyd sydd wedi’u cynnwys mewn digwyddiadau a gofnodwyd rhwng 2019 a 2023 | Tudalen 73 |
| Ffigur 34: | Nifer yr achosion o halogiad gan ficro-organebau niweidiol yn y DU | Tudalen 74 |
| Ffigur 35: | Nifer y digwyddiadau bwyd sy’n ymwneud ag alergenau | Tudalen 76 |
| Ffigur 36: | Cyfanswm y rhybuddion alergedd a gyhoeddwyd gan yr ASB ac FSS | Tudalen 76 |

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 37: | Rhybuddion alergedd yn ôl y math o alergen | Tudalen 77 |
| Ffigur 38: | Cyfanswm y PRINs a gyhoeddwyd yn y DU | Tudalen 78 |
| Ffigur 39: | Cyfanswm y FAFAs a gyhoeddwyd yn y DU | Tudalen 78 |
| Ffigur 40: | Canran y canlyniadau samplu anfoddhaol yn ôl math o gynnyrch | Tudalen 81 |
| Ffigur 41: | Prif ganlyniadau rhaglen samplu bwyd genedlaethol yr FSS | Tudalen 83 |
| Ffigur 42: | Nifer y samplau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon dros amser | Tudalen 85 |
| Ffigur 43: | Nifer y samplau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol yn yr Alban dros amser | Tudalen 85 |
| Ffigur 44: | Y meysydd ffocws allweddol ar gyfer ymchwiliadau i droseddau bwyd yn 2023 | Tudalen 89 |
| Ffigur 45: | Y meysydd ffocws allweddol ar gyfer gwaith tarfu a gyflawnwyd gan unedau troseddau bwyd yn 2023 | Tudalen 90 |


## Data Cenedl-Benodol (Atodiad 5)


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 46: | Y prif bryderon a nodwyd gan ddefnyddwyr yn Lloegr ar gyfer 2022 a 2023 | Tudalen 116 |
| Ffigur 47: | Y prif bryderon a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Nghymru ar gyfer 2022 a 2023 | Tudalen 117 |
| Ffigur 48: | Y prif bryderon a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer 2022 a 2023 | Tudalen 117 |
| Ffigur 49: | Nifer y busnesau bwyd yn Lloegr a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2023/24 | Tudalen 118 |
| Ffigur 50: | Nifer y busnesau bwyd yng Nghymru a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2023/24 | Tudalen 119 |
| Ffigur 51: | Nifer y busnesau bwyd yng Ngogledd Iwerddon a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2023/24 | Tudalen 120 |

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 52: | Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yn Lloegr | Tudalen 121 |
| Ffigur 53: | Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru | Tudalen 122 |
| Ffigur 54: | Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol Ngogledd Iwerddon | Tudalen 123 |
| Ffigur 55: | Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yn Lloegr | Tudalen 124 |
| Ffigur 56: | Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru | Tudalen 125 |
| Ffigur 57: | Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon | Tudalen 126 |
| Ffigur 58: | Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALl ym maes hylendid bwyd yn Lloegr | Tudalen 126 |
| Ffigur 59: | Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALl ym maes hylendid bwyd yng Nghymru | Tudalen 127 |
| Ffigur 60: | Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALl ym maes hylendid bwyd yng Ngogledd Iwerddon | Tudalen 127 |
| Ffigur 61: | Nifer y samplau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban dros amser | Tudalen 128 |

# Atodiad 4: Rhestr o acronymau

| Acronym | Ymadrodd |
|---|---|
| ABP | Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid |
| ASB | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd |
| BTOM | Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau |
| CALl | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| CIEH | Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd |
| CPIH | Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr |
| CPTPP | Cytundeb Masnach Rydd Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel |
| CSHB | Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd |
| CTSI | Sefydliad Siartredig Safonau Masnach |
| CThEF | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi |
| DAERA | Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DNP | 2,4 Dinitroffenol |
| EAEVE | Cymdeithas Ewropeaidd y Sefydliadau ar gyfer Addysg Filfeddygol |
| FAFA | Rhybudd Bwyd er Gweithredu |
| FHIS | Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd (ar waith yn yr Alban yn unig) |
| FLRS | Cynllun Sgorio Cyfraith Bwyd |
| FNAO | Bwyd Nad yw'n Dod o Anifeiliaid |
| FSS | Safonau Bwyd yr Alban |
| FTA | Cytundeb Masnach Rydd |
| GM | Wedi'i addasu'n enetig |
| HFSS | Bwydydd sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr |
| HIN | Hysbysiad Gwella Hylendid |

| | |
|---|---|
| HRFNAO | Bwyd Risg Uchel Nad yw'n Dod o Anifeiliaid |
| LAEMS | System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol |
| NDNS | Arolwg Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth |
| NFCU | Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd |
| OV | Milfeddyg Swyddogol |
| POAO | Cynnyrch sy'n dod o Anifeiliaid |
| PPDS | Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol |
| PRIN | Hysbysiad Galw Cynnyrch yn Ôl |
| RCVS | Coleg Brenhinol y Milfeddygon |
| SFCIU | Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban |
| SND | Cronfa Ddata Genedlaethol yr Alban |
| SYG | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| TRNOVs | Milfeddygon Swyddogol Cofrestredig Dros Dro |
| TSP | Ymarferwr Safonau Masnach |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| UKHSA | Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU |
| UPF | Bwyd wedi'i brosesu'n helaeth |
| USDA | Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau |

# Atodiad 5: Data Cenedl-Benodol

### Ffigur 46: Y prif bryderon a nodwyd gan ddefnyddwyr yn Lloegr ar gyfer 2022 a 2023

| Pryder | Canran yr ymatebwyr Gorffennaf 2022 | Canran yr ymatebwyr Ionawr 2023 | Canran yr ymatebwyr Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|---|
| Prisiau bwyd | 66% | 65% | 73% |
| Gwastraff bwyd | 60% | 62% | 58% |
| Ansawdd bwyd* | Ddim yn berthnasol | 61% | 56% |
| Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir* | Ddim yn berthnasol | 57% | 56% |
| Faint o siwgr sydd mewn bwyd | 59% | 55% | 56% |
| Gallu bwyta'n iachus* | Ddim yn berthnasol | 46% | 50% |
| Lles anifeiliaid | 54% | 50% | 48% |
| Hylendid bwyd wrth fwyta allan | 50% | 46% | 48% |
| Hylendid bwyd wrth archebu prydau tecawê | 51% | 44% | 48% |
| Faint o fraster sydd mewn bwyd | 50% | 44% | 47% |

* Yn dynodi pryderon newydd na chawsant eu cynnwys cyn Ionawr 2023.

Ffynhonnell: ASB – Arolwg Bwyd a Chi 2, Cylchoedd 5 – 7

### Ffigur 47: Y prif bryderon a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Nghymru ar gyfer 2022 a 2023

| Pryder | Canran yr ymatebwyr Gorffennaf 2022 | Canran yr ymatebwyr Ionawr 2023 | Canran yr ymatebwyr Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|---|
| Prisiau bwyd | 64% | 68% | 73% |
| Gwastraff bwyd | 57% | 59% | 61% |
| Ansawdd bwyd* | Ddim yn berthnasol | 61% | 59% |
| Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir* | Ddim yn berthnasol | 58% | 57% |
| Faint o siwgr sydd mewn bwyd | 58% | 54% | 56% |
| Lles anifeiliaid | 58% | 51% | 56% |
| Hylendid bwyd wrth archebu prydau tecawê | 52% | 50% | 49% |
| Faint o fraster sydd mewn bwyd | 50% | 48% | 49% |
| Faint o halen sydd mewn bwyd | 49% | 48% | 49% |
| Gallu bwyta'n iachus* | Ddim yn berthnasol | 44% | 49% |

* Yn dynodi pryderon newydd na chawsant eu cynnwys cyn Ionawr 2023.

Ffynhonnell: ASB – Arolwg Bwyd a Chi 2, Cylchoedd 5 – 7


### Ffigur 48: Y prif bryderon a nodwyd gan ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer 2022 a 2023

| Pryder | Canran yr ymatebwyr Gorffennaf 2022 | Canran yr ymatebwyr Ionawr 2023 | Canran yr ymatebwyr Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|---|
| Prisiau bwyd | 66% | 69% | 67% |
| Gwastraff bwyd | 52% | 56% | 56% |
| Ansawdd bwyd* | Ddim yn berthnasol | 59% | 52% |
| Faint o ddeunydd pecynnu a ddefnyddir* | Ddim yn berthnasol | 45% | 52% |
| Faint o siwgr sydd mewn bwyd | 54% | 52% | 51% |
| Faint o fraster sydd mewn bwyd | 48% | 46% | 50% |
| Hylendid bwyd wrth fwyta allan | 47% | 44% | 49% |
| Hylendid bwyd wrth archebu prydau tecawê | 51% | 42% | 49% |
| Faint o halen sydd mewn bwyd | 47% | 51% | 46% |
| Lles anifeiliaid | 49% | 44% | 45% |

* Yn dynodi pryderon newydd na chawsant eu cynnwys cyn Ionawr 2023.

Ffynhonnell: ASB – Arolwg Bwyd a Chi 2, Cylchoedd 5 – 7


**Ffigur 49: Nifer y busnesau bwyd yn Lloegr a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2023/24**




Nodiadau: Ch1 – Ebrill, Mai, Mehefin; Ch2 – Gorffennaf, Awst, Medi; Ch3 – Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; Ch4 – Ionawr, Chwefror, Mawrth.

Ffynhonnell: ASB – data CSHB


**Ffigur 50: Nifer y busnesau bwyd yng Nghymru a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2023/24**




Nodiadau: Ch1 – Ebrill, Mai, Mehefin; Ch2 – Gorffennaf, Awst, Medi; Ch3 – Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; Ch4 – Ionawr, Chwefror, Mawrth.

Ffynhonnell: ASB – data CSHB


**Ffigur 51: Nifer y busnesau bwyd yng Ngogledd Iwerddon a gafodd sgôr hylendid bwyd fesul chwarter rhwng 2019/20 a 2023/24**




Nodiadau: Ch1 – Ebrill, Mai, Mehefin; Ch2 – Gorffennaf, Awst, Medi; Ch3 – Hydref, Tachwedd, Rhagfyr; Ch4 – Ionawr, Chwefror, Mawrth.

Ffynhonnell: ASB – data CSHB


**Ffigur 52: Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yn Lloegr**




* Yn dynodi datganiad hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALl hunan-gofnodedig awdurdodau lleol


**Ffigur 53: Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI) ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru**




* Yn dynodi datganiad hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALI hunan-gofnodedig awdurdodau lleol


**Ffigur 54: Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI) ym maes hylendid bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon**




* Yn dynodi datganiad hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALI hunan-gofnodedig awdurdodau lleol


**Ffigur 55: Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yn Lloegr**




* Yn dynodi datganiad hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALl hunan-gofnodedig awdurdodau lleol


**Ffigur 56: Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru**




* Yn dynodi datganiad hanner blwyddyn.

Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALl hunan-gofnodedig awdurdodau lleol


**Ffigur 57: Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) ym maes safonau bwyd wedi'u dyrannu mewn awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon**




* Yn dynodi datganiad hanner blwyddyn.


Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALl hunan-gofnodedig awdurdodau lleol

**Ffigur 58: Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALl ym maes hylendid bwyd yn Lloegr**





Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALl hunan-gofnodedig awdurdodau lleol

### Ffigur 59: Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALI ym maes hylendid bwyd yng Nghymru




Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALI hunan-gofnodedig awdurdodau lleol

### Ffigur 60: Nifer y busnesau bwyd fesul swydd CALI ym maes hylendid bwyd yng Ngogledd Iwerddon




Ffynhonnell: ASB – LAEMS/data CALI hunan-gofnodedig awdurdodau lleol

### Ffigur 61: Nifer y samplau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban dros amser

| Blwyddyn Ariannol | Cymru | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 8,736 | 47,284 | 8,334 | 9,094 |
| 2014/15 | 6,676 | 42,070 | 7,881 | 9,289 |
| 2015/16 | 5,484 | 42,863 | 8,333 | 8,643 |
| 2016/17 | 4,781 | 36,622 | 8,909 | 7,832 |
| 2017/18 | 5,104 | 31,413 | 8,693 | 7,637 |
| 2018/19 | 4,698 | 29,998 | 9,072 | 6,313 |
| 2019/20 | 4,385 | 31,125 | 8,516 | 5,855 |
| 2020/21 | 324 | 8,764 | 4,374 | 1,483 |
| 2021/22 | 1,043 | 19,519 | 9,202 | 2,438 |
| 2022/23 | 3,137 | 28,682 | 8,325 | 3,435 |
| 2023/24 | 1,479* | 12,368* | 4,019* | 3,713 |

* Mae'r ffigurau hyn yn anghyflawn ac yn cynrychioli 6 mis cyntaf y cyfnod adrodd yn unig.

Ffynhonnell: ASB ac FSS

# Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'r dadansoddwyr arweiniol ar gyfer yr adroddiad, Thomas Hulme a Dr Milena von und zur Mühlen, a staff yr ASB ac FSS y mae eu cyfraniadau wedi bod yn allweddol. Mae'r ymdrech hon yn adlewyrchu menter ar y cyd ledled y DU, wedi'i chyfoethogi gan fewnwelediadau gan arbenigwyr polisi ledled y pedair gwlad.

Yn ogystal, mae'r adroddiad wedi elwa'n ddirfawr ar waith craffu annibynnol ac arbenigedd ein pedwar adolygydd allanol. Rydym yn ddiolchgar am yr adborth ac arweiniad beirniadol a ddarparwyd gan y canlynol:

- Yr Athro Louise Manning, Athro Systemau Bwyd-Amaeth Cynaliadwy, Prifysgol Lincoln
- Ms Jan Mei Soon-Sinclair, Uwch-ddarlithydd mewn Rheoli Diogelwch Bwyd ym Mhrifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn
- Dr Belinda Stuart-Moonlight, Moonlight Environmental Ltd.
- Yr Athro Diwei Zhou, Athro mewn Ystadegau a Dirprwy Is-Ganghellor Cysylltiol dros Chwaraeon, Iechyd a Lles, Prifysgol Loughborough

Tîm yr adroddiad: Amanda Blackler, Neil Douglas, Claire Manley, Swati Singh, Kate Smith.

E03134225
ISBN: 978-1-5286-5004-5